



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyfodol Cyfraith Cymru

DATRYSIADAU DEDDFWRIAETHOL CYFFREDIN:
canllaw i ymgodymu â materion polisi sy'n codi'n
aml mewn deddfwriaeth



Cynnwys

	Rhagair Tudalen 3	7	Pwerau mynediad, archwilio, chwilio ac ymafael Tudalen 40
1	Cyflwyniad Tudalen 4	8	Troseddau Tudalen 49
2	Sefydlu corfforaeth statudol Tudalen 7	9	Hysbysiadau cosb benodedig Tudalen 61
3	Strategaethau Tudalen 20	10	Sanctsiynau sifil Tudalen 66
4	Cydweithredu Tudalen 24	11	Gorchmynion ataliol Tudalen 80
5	Dynodi cyrff Tudalen 29	12	Rhoi hysbysiad Tudalen 86
6	Cynlluniau trwyddedu Tudalen 33	13	Apelau yn erbyn penderfyniadau gweinyddol Tudalen 96

Rhagair – Prif Gwnsler Deddfwriaethol



Fel y swyddfa drafftio deddfwriaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru, mae Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn anelu at lunio cyfraith glir, effeithiol, a hygyrch i Gymru yn Gymraeg a Saesneg. Mae llunio cyfraith newydd yn ymgymieriad cymhleth sy'n gofyn am ddadansoddi a deall materion anodd. Oherwydd hynny, mae o fudd i gyfreithiau gael mewnbyn gan y rhai sydd ag arbenigedd a safbwyntiau gwahanol:

safbwynt polisi a safbwyntiau cyfreithiol, ieithyddol ac ymarferol.

I hwyluso'r broses ddeddfu, hoffem rannu peth o'r wybodaeth yr ydym wedi ei magu fel drafftwyr er pan roddwyd pwerau deddfu llawn i Senedd Cymru. Mae'r canllawiau hyn, felly, yn cynnig datrysiadau posibl i broblemau deddfwriaethol sy'n digwydd yn gyffredin a'u nod yw helpu'r rhai sy'n llunio, yn craffu arni ac yn ei defnyddio deddfwriaeth i ddeall y ffordd orau o fynd i'r afael â'r problemau hynny.

Mae'r canllawiau hyn yn tarddu o waith a wnaed gan yr Archifau Gwladol i ymchwilio i batrymau sy'n digwydd mewn deddfwriaeth: mewn geiriau eraill, datrysiadau deddfwriaethol cyffredin ar gyfer cwestiynau neu broblemau polisi sy'n codi'n aml. Gan hynny, pan fo deddfwriaeth yn cael ei llunio mewn meysydd sy'n dod dro ar ôl tro, rydym yn gobeithio y bydd y canllawiau hyn yn erfyn defnyddiol i alluogi cyfarwyddiadau o'r ansawdd gorau posibl ynghlŷn â Biliau i gael eu darparu i gwnsleriaid – a bod hynny'n caniatáu i ninnau lunio deddfwriaeth glir yn fwy effeithlon ac effeithiol i'r Gweinidogion.

Mae'r canllawiau hyn wedi eu llunio mewn cydweithrediad ag aelodau pob un o'r pedair swyddfa drafftio deddfwriaeth yn y DU, sydd wedi ymgynghori â swyddogion ym mhob un o'r pedair llywodraeth wrth iddynt fireinio'r canllawiau. Mae'n enghraifft ardderchog o gydweithredu yn y gwasanaeth sifil, sy'n amlgu egwyddorion parch gan y naill at y llall a chydweithio wrth gyflawni un o'n swyddogaethau cyhoeddus mwyaf hanfodol, sef creu cyfraith dda.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i raglen hirdymor i wneud y gyfraith yng Nghymru yn fwy hygyrch. Mae hyn i'w wneud yn bennaf drwy gydgrynhoi deddfwriaeth mewn codau cyfraith ar bynciau penodol a gwella'r ffordd y mae deddfwriaeth yn cael ei chyhoeddi a'i hesbonio. Yn ychwanegol, fodd bynnag, rydym yn anelu at wneud deddfwriaeth yn haws ei darllen a'i deall. Mae'r canllawiau hyn yn ein helpu i gyflawni ein nod drwy esbonio sut a pham yr ydym yn mynd i'r afael â phroblemau penodol mewn deddfwriaeth, a thrwy leihau'r anghysondebau diangen yn y ffordd yr ymdrinnir â hwy.

Croesawn unrhyw awgrymiadau ac adborth ar y canllawiau hyn oddi wrth bawb sy'n ymddiddori mewn deddfwriaeth wrth i ni weithio i wella'n barhaus ansawdd a hygyrchedd cyfraith Cymru.

Dylan Hughes

1 Cyflwyniad

Mae'r Bennod hon yn cynnwys trosolwg byr o'r broses o wneud polisi ar gyfer deddfwriaeth, ac yn esbonio sut y mae'r canllawiau manwl yn y Penodau canlynol yn cyd-fynd â'r broses honno.

Llunio polisi ar gyfer deddfwriaeth

Model traddodiadol i lunio polisi ar gyfer deddfwriaeth yw'r canlynol:

- nodi beth yw'r mater neu'r "broblem"
- meddwl am ddatrysiadau posibl a manteision ac anfanteision pob datrysiad
- dadansoddi'r datrysiadau posibl a'u manteision a'u hanfanteision, a dewis y datrysiad mwyaf addawol
- os dewisir datrysiad deddfwriaethol, gweithio ar y datrysiad arfaethedig yn ddigon manwl, fel y gellid cynhyrchu deddfwriaeth ddrafft
- profi'r datrysiad y gweithiwyd arno yn erbyn ystod o senarios ffeithiol i weld a fyddai'r datrysiad yn cael yr effaith a ddymunid yn y senarios hynny.

Wrth wneud hyn, bydd angen, wrth gwrs, i lunwyr polisi benderfynu beth yw'r dirwedd ddeddfwriaethol bresennol, a sut y mae honno'n effeithio ar y datrysiad arfaethedig, a sut y mae'r datrysiad arfaethedig yn effeithio arni hithau.

Mae rhai materion polisi sy'n codi yn newydd neu'n unigryw, ac oherwydd hynny, gall fod angen meddwl yn greadigol amdanynt a chynnig datrysiadau hollol newydd ar eu cyfer. Yn yr un modd, yr hyn y mae ei eisiau weithiau yw datrysiad newydd ar gyfer problem sy'n digwydd yn gyffredin.

Ond ymdrinnir â rhai materion polisi sy'n digwydd yn gyffredin drwy fabwysiadu datrysiad deddfwriaethol sy'n digwydd yn gyffredin. Dyna beth y mae'r canllawiau hyn yn ymwneud ag ef.

Ar gyfer yr achosion hyn, mae'n bosibl nodi materion y gallai fod angen mynd i'r afael â hwy, wrth weithio ar y datrysiad arfaethedig a rhoi cyfarwyddiadau amdano. Dyna beth yr ydym wedi ei wneud ar gyfer nifer o ddatrysiadau deddfwriaethol.

Nod y canllawiau manwl yw ysgogi'r meddwl, codi ymwybyddiaeth o'r opsiynau posibl, gwella ansawdd y cyfarwyddiadau, a gwella effeithlonrwydd prosesau llunio polisiau a rhoi cyfarwyddiadau, drwy leisio materion y gall fod angen mynd i'r afael â hwy.

Sylwer, fodd bynnag, ar y canlynol:

- Mae'r canllawiau manwl yn y Penodau canlynol yn nodi materion y gall fod angen eu hystyried. Mae rhai o'r materion hyn yn debyg o godi ym mhob achos neu yn y rhan fwyaf ohonynt, ond efallai mai weithiau yn unig neu hyd yn oed yn anaml y bydd materion eraill yn codi. Felly, peidiwch â chymryd bod angen i'r cyfarwyddiadau fynd i'r afael â'r holl faterion a nodir yn y canllawiau manwl.
- Gan ddibynnu ar y polisi, gall fod yn wir wrth gwrs mai'r hyn y mae ei eisiau yw rhywbeth nad yw wedi ei grybwyll yn y canllawiau manwl – p'un ai'n ychwanegol at y materion a grybwyllwyd ynddynt neu yn lle rhai o'r materion hynny.
- Yn bennaf oll, er bod y canllawiau manwl wedi eu hanelu at gynorthwyo llunwyr polisi a'r rhai sy'n rhoi cyfarwyddiadau, rhaid pwysleisio nad ydynt wedi eu bwriadu i gyfyngu ar feddwl nac i gymryd lle gwaith penderfynu beth y mae ei eisiau mewn gwirionedd o safbwynt polisi.

Rydym yn gobeithio y bydd y canllawiau manwl hyn hefyd yn helpu llunwyr polisi i ddeall lefel y dadansoddi manwl y mae angen ei wneud wrth lunio cyfarwyddiadau ar gyfer deddfwriaeth ar bynciau eraill.

Fformat y Penodau canlynol

Mae pob Pennod yn ymdrin â datrysiad deddfwriaethol penodol, ac mae yn y fformat a ganlyn:

Disgrifiad o'r datrysiad

Diben y disgrifiad lefel uchel hwn yw cynorthwyo llunwyr polisi i ddewis y datrysiad cywir ar gyfer y mater polisi y maent yn dymuno mynd i'r afael ag ef.

Pan fo adran ar ddatrysiadau cysylltiedig, y nod yw tynnu sylw'r lluniwr polisi at ddatrysiadau polisi amgen.

Elfennau'r datrysiad

Mae'r adran hon yn cynnwys cyfres o gwestiynau y gall neu y bydd angen i'r cyfarwyddwr fynd i'r afael â hwy, er mwyn galluogi'r drafftiwr i gynhyrchu drafft.

Enghreifftiau o'r datrysiad

Mae'r adran hon yn rhestru enghreifftiau o'r datrysiad, er mwyn i lunwyr polisi, cyfarwyddwyr a drafftwyr ei chael hi'n hawdd i ddod o hyd i enghreifftiau o'r datrysiad.

Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos y dewisiadau polisi a'r dewisiadau drafftio sydd wedi eu gwneud mewn cyd-destunau eraill. Unwaith eto, y nod yw dangos enghreifftiau sy'n adlewyrchu ystod o ddewisiadau polisi sydd wedi eu gwneud, ac nid cyfyngu ar feddwl.

Datrysiadau ychwanegol sydd i'w hychwanegu yn y dyfodol

Rydym yn gobeithio ehangu'r canllawiau hyn dros amser i gynnwys canllawiau manwl ar ddatrysiadau deddfwriaethol eraill, gan gynnwys:

- cyhoeddi dogfennau
- canllawiau (gan gynnwys codau ymddygiad a chodau ymarfer)
- rhannu gwybodaeth
- ad-drefnu cyrff cyhoeddus (gan gynnwys uno a diddymu)
- ombwdsmyrn
- is-ddeddfwriaeth.

Croesewir unrhyw awgrymiadau ynglŷn â datrysiadau deddfwriaethol eraill y gellid ymdrin â hwy.

Pennod 2: Sefydlu corfforaeth statudol

Cynnwys

Disgrifiad o'r datrysiad deddfwriaethol	7
Datrysiadau deddfwriaethol cysylltiedig	7
Elfennau'r datrysiad deddfwriaethol	7
1. Enw a statws y gorfforaeth statudol	
2. Swyddi y gwneir penodiadau iddynt	7
3. Penodi aelodau neu swydd-ddeiliad	8
4. Terfynu penodiad	8
5. Gwrthdrawiadau buddiannau	9
6. Effaith swydd wag neu ddiffyg arall ar ddilysrwydd gweithredoedd	9
7. Taliadau i'r aelodau	9
8. Pwerau cyffredinol	9
9. Y weithdrefn	10
10. Pwyllgorau	10
11. Staff	10
12. Dirprwyo	11
13. Cwblhau a dilysu dogfennau	11
14. Arian	11
15. Cynlluniau, amcangyfrifon ac adroddiadau	12
16. Cyfrifon ac archwilio	12
17. Rheolaeth gan y Gweinidogion neu'r ddeddfwrfa	13
18. Deddfwriaeth arall ynglŷn â dyletswyddau cyrff cyhoeddus a chraffu arnynt	13
19. Ad-drefnu'r cyrff cyhoeddus presennol	14
20. Pŵer i ddiddymu'r gorfforaeth statudol newydd	
Enghreifftiau o'r datrysiad deddfwriaethol	15
Yr Atodiad: deddfwriaeth arall ynglŷn â chyrff cyhoeddus	17

2 Sefydlu corfforaeth statudol

Mae'r datrysiad deddfwriaethol hwn yn sefydlu corff neu swydd i arfer swyddogaethau statudol, pan fo wedi ei benderfynu y dylai'r swyddogaethau hynny gael eu harfer gan awdurdod cyhoeddus newydd, yn hytrach na chan Weinidogion¹, awdurdod cyhoeddus sy'n bodoli eisoes neu gorff sector gwirfoddol neu sector preifat.

Disgrifiad o'r datrysiad deddfwriaethol

Mae'r rhesymau dros sefydlu corff neu swydd newydd fel corfforaeth statudol, yn hytrach nag ar ffurf arall megis cymdeithas anghorfforedig, yn ymwneud yn gyffredinol â'r ffaith bod gan gorfforaeth statudol ei phersonoliaeth gyfreithiol ei hun sy'n wahanol i'r un yr aelodau unigol neu'r swydd-ddeiliad. Gan hynny, mae'n gallu ymrwymo mewn perthnasoedd cyfreithiol a dal eiddo, ac mae'n parhau i fodoli er gwaethaf newidiadau yn aelodaeth y corff neu ddeiliad y swydd. Mae asiantaethau gweithredol a rheoleiddiol yn aml yn gorfforaethau statudol gyda'u staff a'u cyllidebau eu hunain, ond nid yw cyrff cynghori a thribiwnlysoedd fel arfer yn gorfforaethau statudol.

Yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon, caiff corfforaeth statudol fod yn gorff corfforaethol (h.y. corff â nifer o aelodau) neu'n gorfforaeth undyn (h.y. swydd a ddelir gan un unigolyn). Nid oes gan gyfraith yr Alban gysyniad o "gorfforaeth undyn", ond gall deddfwriaeth ddarparu bod swydd yn ffurfio "person artiffisial gwahanol" i'r unigolyn sy'n ei dal, a bwriad hynny yw sicrhau effaith debyg i greu corfforaeth undyn.

Yn lle creu corff neu swydd yn uniongyrchol, gall Deddf ddirprwyo pŵer i'w sefydlu (er enghraifft, drwy roi i'r Gweinidogion y pŵer i'w sefydlu drwy is-ddeddfwriaeth).

Datrysiadau deddfwriaethol cysylltiedig

Dynodi: gall dynodi person neu gorff sy'n bodoli eisoes i arfer swyddogaethau penodol fod yn ddewis arall yn lle sefydlu corfforaeth statudol newydd.

Cydweithredu: gall fod yn briodol ei gwneud yn ofynnol i'r gorfforaeth statudol a grëwyd o'r newydd a chyrrff eraill gydweithio wrth arfer eu swyddogaethau.

Elfennau'r datrysiad deddfwriaethol

1. Enw a statws y gorfforaeth statudol

- 1.1 Beth fydd enw'r corff neu'r swydd (gan gynnwys, pan fo'n briodol, yr enw Cymraeg, Gaeleg etc. yn ogystal â'r un Saesneg)?
- 1.2 A ddylai'r corff neu'r swydd gael statws y Goron, naill ai'n gyffredinol neu at ddibenion penodol? Prif effeithiau'r ffaith bod gan gorff statws y Goron yw nad yw'n cael ei rwymo gan ddeddfwriaeth nad yw'n rhwymo'r Goron, a bod ei staff yn weision y Goron. Nid yw'r rhan fwyaf o gorfforaethau statudol (a'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus eraill) yn gyrff y Goron.

2. Swyddi y gwneir penodiadau iddynt

2.1 Yn achos corff corfforaethol:

- Beth ddylai nifer yr aelodau fod? Mae'n fwy arferol pennu uchafswm ac isafswm nifer yr aelodau na deddfu ar gyfer nifer penodol.

¹Dylai cyfeiriadau at y Weinidogion gael eu darllen fel rhai sy'n cynnwys Adrannau Gogledd Iwerddon.

- A ddylai fod gwahanol fathau o aelod (megis aelodau gweithredol ac anweithredol, neu aelodau proffesiynol a lleyg)? A oes rhaid bod aelodau o bob math?
- A ddylai'r holl aelodau gael eu penodi i'r corff, ynteu a ddylai unrhyw un neu ragor ohonynt fod yn aelodau'n awtomatig yn rhinwedd y ffaith ei fod neu eu bod yn dal swydd arall (megis swydd yr Archwilydd Cyffredinol perthnasol²)?
- A oes rhaid bod cadeirydd? A dirprwy gadeirydd? A ddylent gael eu penodi'n uniongyrchol i'r swyddi hynny, ynteu cael eu dewis o blith aelodau'r corff?

2.2 Yn achos swydd unigol:

- A ddylai fod un neu ragor o ddirprwyon i'r swydd-ddeiliad? A ddylai dirprwy fod yn swydd-ddeiliad ar wahân, ynteu'n aelod staff a ddynodir at y diben?
- O dan ba amgylchiadau y dylai swyddogaethau'r gorfforaeth gael eu harfer gan ddirprwy (er enghraifft, os yw'r swydd yn wag neu fod y swydd-ddeiliad yn analluog i weithredu)?

3. Penodi aelodau neu swydd-ddeiliad

- 3.1 Pwy ddylai benodi'r swydd-ddeiliad ac unrhyw ddirprwy, neu gadeirydd ac aelodau'r corff? Gallai penodiadau gael eu gwneud, er enghraifft, gan Weinidogion, y ddeddfwrfa, y Frenhines, aelodau eraill neu staff y gorfforaeth statudol, neu gan gorff arall.
- 3.2 A ddylai fod rhaid i benodiadau gael eu gwneud ar argymhelliad neu enwebiad corff arall, ynteu cael eu cymeradwyo gan gorff arall (megis Gweinidogion neu'r ddeddfwrfa)?
- 3.3 A ddylai fod rhaid i unrhyw feini prawf gael eu cymhwyso wrth wneud penodiadau, ynteu a ddylai fod unrhyw gymwysterau ar gyfer penodiad (megis sgiliau neu brofiad penodol)? A ddylai unrhyw faterion anghymhwyso pobl rhag cael eu penodi (megis aelodaeth o'r ddeddfwrfa neu awdurdod lleol)?

- 3.4 A ddylai'r broses benodi fod yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth allanol? (Pan fo penodiadau'n cael eu gwneud gan Weinidogion, mae'n debyg y bydd hynny'n ei gwneud yn ofynnol i'r ddeddfwriaeth berthnasol ynghylch penodiadau cyhoeddus gael ei diwygio: gweler yr Atodiad.)
- 3.5 A ddylai aelodaeth o'r gorfforaeth statudol anghymhwyso person rhag aelodaeth o Dŷ'r Cyffredin neu ddeddfwrfa ddatganoledig? (Gall hyn ei gwneud yn ofynnol i'r ddeddfwriaeth ynghylch yr anghymhwysiad perthnasol gael ei diwygio: gweler yr Atodiad.)
- 3.6 Am ba gyfnod y dylai person gael ei benodi? Gall Deddf bennu cyfnod y swydd, neu roi i'r person sy'n gwneud y penodiad bŵer i'w bennu, a hynny efallai hyd at uchafswm.
- 3.7 A ddylai person fod yn gymwys i gael ei ailbenodi ar ddiwedd cyfnod y penodiad? A ddylai fod unrhyw gyfyngiad ar y nifer o weithiau y caniateir i berson gael ei ailbenodi?
- 3.8 Pwy ddylai bennu'r telerau penodi (i'r graddau nad ydynt wedi eu pennu gan y ddeddfwriaeth)?

4. Terfynu penodiad

- 4.1 A ddylai person allu ymddiswyddo o swydd, ac os felly sut (e.e. hysbysiad i'r Gweinidogion neu'r cadeirydd)?
- 4.2 A ddylai fod yn bosibl atal person dros dro o'i swydd neu ei ddiswyddo? Pwy ddylai allu atal person dros dro neu ei ddiswyddo, ac ar ba seiliau? Dylai'r seiliau adlewyrchu natur a swyddogaethau'r corff neu'r swydd.
- 4.3 A ddylai'r Ddeddf bennu'r seiliau a'r weithdrefn ar gyfer diswyddo, ynteu rhoi i'r person sy'n gwneud y penodiad bŵer i ymdrin â hwy yn y llythyr penodi?
- 4.4 Pan fo Deddf yn pennu'r seiliau dros ddiswyddo, mae'n ymddangos bod sail gyffredin anffitrwydd, anfodlonrwydd neu anallu i weithredu yn hollgyffredinol. Mae seiliau mwy penodol eraill y gellir eu crybwyll yn cynnwys:

² Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol (y DU), Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon ac Archwilydd Cyffredinol yr Alban yw'r rhain.

- absenoldeb anawdurdodedig o gyfarfodydd corff am gyfnod (6 mis yn aml)
- euogfarn am drosedd
- ansolfedd neu ddyledusrwydd.

4.5 Os yw ansolfedd i fod yn sail dros ddiswyddo, pa fathau o achosion neu drefniadau ansolfedd a ddylai arwain at y pŵer i ddiswyddo?

4.6 A ddylai unrhyw ddigwyddiadau (megis etholiad i'r ddeddfwrfa) derfynu'n awtomatig benodiad person?

5. Gwrthdrawiadau buddiannau

5.1 A oes angen unrhyw beth i atal neu reoleiddio gwrthdrawiadau rhwng buddiannau personol aelodau neu swydd-ddeiliaid a chyflawni eu swyddogaethau?

5.2 A ddylai fod yn ddigon i ddibynnu ar y person sy'n gwneud penodiadau i ystyried gwrthdrawiadau buddiannau posibl yn y broses benodi?

5.3 A ddylai gwrthdrawiad buddiannau andwyol fod yn sail dros ddiswyddo?

5.4 Fel arall, a ddylai fod yn ofynnol i aelodau ddatgan gwrthdrawiadau buddiannau (e.e. yng nghyfarfodydd y corff) a chael eu gwahardd rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau y mae ganddynt fuddiant ynddynt? Ynteu a ddylai ddim ond bod yn ofynnol i'r gorfforaeth wneud trefniadau ar gyfer ymdrin â gwrthdrawiadau buddiannau?

5.5 A ddylai fod yn ofynnol i'r corff gadw cofrestr o fuddiannau'r aelodau a'i chyhoeddi? (Dyma'r norm ar gyfer cyrff datganoledig yr Alban ond mae'n llai cyffredin mewn manau eraill.) Os felly, pa fuddiannau y mae rhaid eu cofrestru? Pryd y mae'r ddyletswydd i'w cofrestru yn codi?

6. Effaith swydd wag neu ddiffyg arall ar ddilysrwydd gweithredoedd

6.1 Pwy ddylai arfer swyddogaethau swydd-ddeiliad unigol os yw'r swydd (ac unrhyw swydd dirprwy) yn wag neu os nad yw'r swydd-ddeiliad (nac unrhyw ddirprwy) yn gallu gweithredu oherwydd gwrthdrawiad buddiannau? A ddylai fod darpariaeth i Weinidogion benodi person arall i weithredu?

6.2 Os yw swydd cadeirydd corff corfforaethol yn wag, neu os oes gan y corff lai o aelodau na'r nifer y mae'n ofynnol iddo eu cael, a ddylai'r corff ddal i allu gweithredu? Ynteu a ddylai unrhyw beth a wneir gan y corff fod yn annilys?

6.3 Os yw penodiad aelod yn weithdrefnol ddiffygiol, neu wedi ei wneud yn groes i unrhyw reolau cymhwysra, a ddylai penderfyniad y mae'r aelod yn cymryd rhan ynddo fod yn ddilys?

6.4 A ddylai penderfyniad fod yn ddilys os yw wedi ei wneud yn groes i reolau sy'n ymwneud â gwrthdrawiadau buddiannau?

7. Taliadau i aelodau

7.1 Pa fath o daliadau (os o gwbl) y dylai'r gorfforaeth statudol eu gwneud i'w aelodau? A ddylent gael taliad cydnabyddiaeth (megis cyflog neu ffioedd) am gyflawni eu dyletswyddau? A ddylent gael taliadau mewn cysylltiad â'r treuliau y maent yn eu tynnu, neu lwfansau eraill?

7.2 A ddylai fod gan y gorfforaeth statudol bŵer neu ddyletswydd i dalu tâl cydnabyddiaeth neu lwfansau? A ddylai Gweinidogion allu ei gwneud yn ofynnol iddi eu talu? A ddylai swm y taliadau gael ei bennu gan Weinidogion, ynteu gan y gorfforaeth gyda chymeradwyaeth Gweinidogion?

7.3 A ddylai taliadau eraill, megis digollediad am golli swydd, fod yn bosibl? A yw digollediad o'r fath i'w dalu gan Weinidogion, ynteu gan y gorfforaeth statudol gyda'u cymeradwyaeth hwy? A oes rhaid bod amgylchiadau arbennig i gyfiawnhau talu digollediad?

- 7.4 A ddylai'r gorfforaeth wneud trefniadau pensiwn ar gyfer ei haelodau? A ddylai fod ganddi bŵer neu ddyletswydd i wneud hynny? A ddylai fod yn rhydd i ddewis a fyddai'n gweithredu ei chynllun pensiwn ei hun, gwneud taliadau i mewn i gynllun arall, ynteu darparu pensiynau mewn rhyw ffordd arall? A ddylai fod yn ofynnol i'w threfniadau pensiwn gael cymeradwyaeth Weinidogol?
- 7.5 A ddylai fod gan yr aelodau hawl i ymuno â chynllun pensiwn gwasanaeth sifil Prydain Fawr neu Ogledd Iwerddon? (Efallai y bydd hynny'n ei gwneud yn ofynnol i ddiwygio'r ddeddfwriaeth berthnasol: gweler yr Atodiad.)

8. Pwerau cyffredinol

- 8.1 Bydd gan gorfforaeth statudol bŵer i wneud pethau sy'n gysylltiedig ag arfer ei swyddogaethau. Gall enghreifftiau gynnwys dal tir ac eiddo arall, gwneud contractau, cymryd rhan mewn cwmnïau, cydweithredu ag eraill, cael cymorth i gyflawni swyddogaethau'r gorfforaeth, a dwyn achos cyfreithiol.
- 8.2 A ddylid cyfyngu ar unrhyw un neu ragor o bwerau cyffredinol y gorfforaeth? Er enghraifft, a ddylid caniatáu iddi fuddsoddi arian mewn ffyrdd penodol yn unig, neu ei gwneud yn ofynnol iddi gael cymeradwyaeth Weinidogol i gael gwared ar eiddo neu ffurfio cwmni? A ddylai gael ei gwahardd rhag gwneud unrhyw bethau a allai fel arall gael eu hystyried yn gysylltiedig â'i swyddogaethau?
- 8.3 A ddylai'r gorfforaeth allu rhoi cymorth i eraill at ddibenion sy'n mynd y tu hwnt i'w nodau a'i swyddogaethau ei hun? A ddylai fod ganddi bŵer i roi cymorth i gyrff eraill ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r gyrff eraill hynny?
- 8.4 A ddylai fod dyletswydd ar y gorfforaeth i wneud unrhyw beth y gallai fod ganddi fel arall bŵer cysylltiedig i'w wneud? Er enghraifft, a ddylid ei gwneud yn ofynnol iddi ymgynghori â chyrrff cyhoeddus eraill, rhannu gwybodaeth â hwy, neu gydweithredu â hwy?
- 8.5 Os disgwylir i'r gorfforaeth rannu gwybodaeth ag eraill, a yw'n angenrheidiol dileu neu amodi unrhyw gyfyngiadau a allai fel arall ei hatal rhag gwneud hynny?

- 8.6 Yng Ngogledd Iwerddon, mae deddfwriaeth sy'n sefydlu corff corfforaethol fel arfer yn cymhwysu adran 19 o Ddeddf Dehongli (Gogledd Iwerddon) 1954, sy'n cynnwys nifer o ddarpariaethau cyffredinol ynghylch pwerau a gweithdrefnau corfforaethau statudol.

9. Gweithdrefn

- 9.1 A ddylai'r gorfforaeth fod yn rhydd i wneud ei rheolau ei hun i reoleiddio ei gweithdrefn gwneud penderfyniadau, gan gynnwys y cworwm ar gyfer cyfarfodydd? A ddylai fod yn ofynnol iddi wneud rheolau neu reolau sefydlog? A ddylai'r rheolau gael eu cymeradwyo, neu hyd yn oed gael eu gwneud, gan Weinidogion?
- 9.2 A oes angen i unrhyw agweddau ar weithdrefnau'r gorfforaeth gael eu pennu neu eu rheoleiddio gan y ddeddfwriaeth? Er enghraifft, a oes angen rheolau arbennig ynghlŷn â chworwm, er mwyn sicrhau bod gwahanol gategorïau o aelod yn cael eu cynrychioli mewn cyfarfodydd?

10. Pwyllgorau

- 10.1 A yw'r gorfforaeth yn debyg o sefydlu pwyllgorau? A ddylai fod yn ofynnol iddi sefydlu mathau penodol o bwyllgor (e.e. pwyllgorau rhanbarthol, pwyllgorau cynghori)?
- 10.2 A ddylai fod gofynion sy'n ymwneud ag aelodaeth unrhyw un neu ragor o'i phwyllgorau?
- 10.3 A yw pwyllgor, neu'r gorfforaeth ei hun, yn debyg o sefydlu is-bwyllgorau? A ddylai fod unrhyw gyfyngiadau ar yr aelodaeth ar gyfer is-bwyllgorau?
- 10.4 A ddylai pobl nad ydynt yn aelodau o'r corff fod yn gymwys i gael eu penodi i'w bwyllgorau? A ddylai pobl nad ydynt yn aelodau o bwyllgor fod yn gymwys i gael eu penodi i'w is-bwyllgorau? Os caiff personau nad ydynt yn aelodau eu penodi:
- A ddylai fod terfyn ar faint o bersonau nad ydynt yn aelodau y caniateir eu penodi?
 - A gaiff pwyllgor neu is-bwyllgor gynnwys neb ond personau nad ydynt yn aelodau?

- Ar ba delerau y dylai personau nad ydynt yn aelodau gael eu penodi? A chaniateir iddynt gael eu talu?
- A fydd gan bersonau nad ydynt yn aelodau hawl i bleidleisio mewn cyfarfodydd pwyllgor neu is-bwyllgor?

11. Staff

- 11.1 A fydd angen staff ar y gorfforaeth statudol? A fydd yn cyflogi ei staff ei hun? A gaiff ei staffio gan weision sifil a ddarperir gan yr adran neu'r weinyddiaeth sy'n ei noddi? A gaiff staff eu secondio i'r gorfforaeth statudol o sefydliadau eraill?
- 11.2 A ddylai fod yn ofynnol i'r gorfforaeth gael prif weithredwr (neu unrhyw swyddi eraill)? A ddylai'r prif weithredwr gael ei benodi gan y gorfforaeth ei hun? A ddylai fod rhaid i'r penodiad gael ei gymeradwyo gan Weinidogion? A ddylai'r penodiad cyntaf gael ei wneud gan Weinidogion?
- 11.3 A ddylai'r gorfforaeth fod yn rhydd i benderfynu ar ba delerau ac amodau y caiff y staff eu cyflogi (gan gynnwys eu tâl cydnabyddiaeth), ynteu a ddylai'r telerau ac amodau gael eu cymeradwyo neu eu pennu gan Weinidogion?
- 11.4 A ddylai'r gorfforaeth gael pŵer i wneud trefniadau pensiwn ar gyfer y staff, ynteu dyletswydd i wneud hynny? A ddylai fod yn rhydd i ddewis a fyddai'n gweithredu ei chynllun pensiwn ei hun, gwneud taliadau i mewn i gynllun arall, ynteu darparu pensiynau mewn rhyw ffordd arall? A ddylai fod yn ofynnol i'w threfniadau pensiwn gael cymeradwyaeth Weinidogol?
- 11.5 A ddylai fod gan y staff hawl i ymuno â phrif gynllun pensiwn y gwasanaeth sifil? (Mae hynny'n dilyn yn awtomatig pan fo pobl sy'n cael eu cyflogi gan y gorfforaeth yn weision sifil; fel arall gall fod yn angenrheidiol diwygio'r ddeddfwriaeth berthnasol: gweler yr Atodiad.)
- 11.6 A ddylai'r gorfforaeth statudol fod yn esempt rhag y rhwymedigaeth i gael yswiriant atebolrwydd cyflogwr mewn cysylltiad ag anaf neu glefyd y mae ei chyflogeion wedi dioddef?

12. Dirprwyo

- 12.1 A ddylai fod gan y gorfforaeth statudol bŵer (neu a ddylai fod arni ddyletswydd) i ddirprwyo gwaith arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau? Gallai fod gan y gorfforaeth, er enghraifft, bŵer i ddirprwyo swyddogaethau i un neu ragor o'r canlynol:
- pwyllgorau neu is-bwyllgorau
 - aelodau unigol o'r gorfforaeth
 - aelodau o'r staff.
- 12.2 Pan fo pŵer i ddirprwyo i bwyllgor neu is-bwyllgor, a ddylai ganiatáu dirprwyo i neb ond pwyllgor neu is-bwyllgor sy'n bodloni gofynion penodol ynghylch aelodaeth (neu ofynion eraill)? A ddylai pŵer i ddirprwyo i aelodau'r gorfforaeth neu i'w staff fod yn gyfyngedig i fathau penodol o aelod?
- 12.3 A ddylai unrhyw swyddogaethau gael eu heithrio o bŵer cyffredinol i ddirprwyo, fel bod rhaid iddynt gael eu harfer gan y gorfforaeth ei hun, er enghraifft oherwydd eu pwysigrwydd?
- 12.4 A ddylai'r gorfforaeth statudol gadw'r pŵer i arfer swyddogaeth y mae wedi ei dirprwyo? Ynteu ai'r dirprwy yn unig a gaiff arfer y swyddogaeth ddirprwyedig?
- 12.5 A ddylai pwyllgor allu is-ddirprwyo swyddogaethau sydd wedi eu dirprwyo iddo, er enghraifft i is-bwyllgor neu aelod unigol o'r pwyllgor?
- 12.6 A ddylai unrhyw ddirprwyad arall rhwng rhannau o'r gorfforaeth statudol fod yn bosibl?

13. Cwblhau a dilysu dogfennau

- 13.1 Os oes gan y gorfforaeth sêl ar gyfer cwblhau gweithrediadau (y mae ei hangen yn gyffredinol ar gyfer trafodiadau tir yn unig), a ddylai fod unrhyw ofyniad i lofnod aelodau neu gyflogeion penodol y gorfforaeth gyd-fynd â'r defnydd o'r sêl? A ddylid gadael hyn i'r gorfforaeth ei benderfynu drosti hi ei hun?

- 13.2 A ddylai fod rhagdybiaeth bod dogfen wedi ei llofnodi a'i selio'n briodol, fel na fyddai unrhyw angen am brofi ei dilysrwydd (yn yr ychydig achosion pan fyddai hynny'n ofynnol gan gyfraith Cymru a Lloegr neu Ogledd Iwerddon)?
- 13.3 Yn yr Alban, nid oes angen darpariaeth am y materion hyn, gan fod Deddf Gofynion Ysgrifennu (Yr Alban) 1995 yn mynd i'r afael â hwy; yng Ngogledd Iwerddon, efallai fod adran 19(1)(c) o Ddeddf Dehongli (Gogledd Iwerddon) 1954 yn ddigon.

14. Arian

- 14.1 A ddylai'r gorfforaeth statudol gael taliadau (neu "grantiau") oddi wrth Weinidogion? (Ni fyddai hyn yn briodol i gorff Albanaidd sydd i ffurfio rhan o Weinyddiaeth yr Alban.) A ddylai fod yn bosibl i'r taliadau gael eu gwneud yn ddarostyngedig i amodau (gan gynnwys amodau a allai olygu bod rhaid i'r arian gael ei ad-dalu)?
- 14.2 A ddylai fod gan y gorfforaeth statudol bŵer i gael benthg arian? A ddylai allu cael benthg oddi wrth unrhyw roddwr benthgiadau, ynteu oddi wrth Weinidogion yn unig? A ddylai fod unrhyw derfyn ar faint y caniateir iddi gael benthg? A ddylid cael cymeradwyaeth Gweinidogion ar gyfer cael benthgiadau?
- 14.3 A gaiff Gweinidogion ddarparu unrhyw fathau eraill o gymorth ariannol (megis gwarantau neu indemniadau)?
- 14.4 A ddylai'r gorfforaeth allu derbyn rhoddion, hyd yn oed os yw'r eiddo'n debyg o gael ei ddal dros y tymor hir ac efallai y byddai angen gwario arian i'w gynnal a chadw?
- 14.5 A ddylai'r gorfforaeth statudol allu codi ffioedd am ddarparu gwasanaethau neu gyflawni unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau? A ddylai fod yn rhydd i benderfynu faint i'w godi, ynteu a ddylai fod yn ofynnol i'r ffioedd gael cymeradwyaeth Gweinidogion neu gael eu pennu ganddynt?
- 14.6 A ddylai fod yn ofynnol i'r gorfforaeth dalu unrhyw symiau y mae'n eu cael i Weinidogion neu i'r Gronfa Gyfunol berthnasol?

- 14.7 A ddylai'r gorfforaeth gael pŵer i roi grantiau, rhoi benthg arian neu roi cymorth ariannol arall? A ddylai allu rhoi cymorth yn ddarostyngedig i amodau?
- 14.8 A ddylai fod unrhyw gyfyngiadau ar ei bwerau i roi cymorth ariannol, megis gofynion bod cymorth yn cael ei roi at ddibenion penodol neu ar delerau penodol yn unig, neu ofyniad i gael cytundeb Gweinidogion?

15. Cynlluniau, amcangyfrifon ac adroddiadau

- 15.1 A ddylai fod yn ofynnol i'r gorfforaeth statudol lunio amcangyfrif o incwm a gwariant ar gyfer pob blwyddyn ariannol (ac eithrio ei blwyddyn ariannol gyntaf)?
- 15.2 A ddylai fod yn ofynnol iddi baratoi cynllun ar gyfer pob blwyddyn ariannol, neu ar gyfer cyfnod hwy, gan nodi sut y mae'n bwriadu cyflawni ei gweithgareddau yn ystod y cyfnod? Ambell dro mae'n ofynnol cael cynlluniau blynyddol a rhai hirdymor, neu mae'n ofynnol bod cynlluniau blynyddol yn cynnwys amcangyfrifon ariannol.
- 15.3 A ddylai fod yn ofynnol i'r gorfforaeth statudol lunio adroddiadau blynyddol ar sut y mae wedi arfer ei swyddogaethau yn ystod pob blwyddyn ariannol?
- 15.4 Os yw unrhyw un neu ragor o'r dogfennau hyn yn ofynnol:
- Pryd y mae rhaid i'r gorfforaeth statudol baratoi'r ddogfen? Ystyrier pa gyfnod y mae rhaid i'r amcangyfrif, cynllun neu adroddiad cyntaf ei gwmpasu, a phryd y mae rhaid ei baratoi.
 - A oes unrhyw faterion penodol y mae rhaid i amcangyfrif, cynllun neu adroddiad ymdrin â hwy, neu unrhyw feini prawf neu safonau y mae rhaid iddo eu cymhwyso?
 - A ddylai fod unrhyw ofyniad i ymgynghori wrth baratoi'r ddogfen?
 - A ddylai'r ddogfen gael ei chyflwyno i Weinidogion? A ddylai fod gofyniad (ar y gorfforaeth neu'r Gweinidogion) i'w gosod gerbron y ddeddfwrfa berthnasol, neu iddi gael ei chyhoeddi?

15.5 Yn achos amcangyfrif neu gynllun:

- A ddylai fod yn ofynnol i'r ddogfen gael cymeradwyaeth Gweinidogion? A ddylent allu ei haddasu?
- A ddylai fod yn ofynnol i'r gorfforaeth arfer ei swyddogaethau yn unol â'i chynllun? A ddylai fod yn ofynnol i Weinidogion ddarparu cyllid yn unol â chynllun neu amcangyfrif?

16. Cyfrifon ac archwilio

16.1 Os oes gofynion cyfrifyddu ac archwilio, dylent ymddangos yn y ddeddfwriaeth sy'n sefydlu'r gorfforaeth statudol. (Ond ar gyfer cyrff Albanaid, dibynnwch ar adrannau 19, 21 a 22 o Ddeddf Cyllid Cyhoeddus ac Atebolrwydd (Yr Alban) 2000 os ydynt yn gymwys.)

16.2 Mae'r ffurf arferol ar ddarpariaeth gyfrifyddu yn ei gwneud yn ofynnol i'r gorfforaeth gadw cyfrifon a chofnodion cyfrifyddu priodol, ac i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â chyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion (neu Drysorlys ei Mawrhydi).

16.3 A oes angen rheolau arbennig ynglŷn â phenodiad, hunaniaeth neu gyfrifoldebau swyddog cyfrifyddu'r gorfforaeth? Er enghraifft, a yw'n angenrheidiol ei gwneud yn ofynnol bod y cyfrifon yn cael eu llofnodi gan y swydd-ddeiliad statudol, neu i alluogi Gweinidogion i benodi'r swyddog cyfrifyddu neu bennu ei gyfrifoldebau?

16.4 Nodweddion safonol darpariaethau archwilio yw:

- Bod rhaid i'r cyfrifon gael eu cyflwyno i'r Archwilydd Cyffredinol perthnasol.
- Bod rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio ac ardystio'r cyfrifon ac adrodd arnynt.
- Bod rhaid i'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gael eu gosod gerbron y ddeddfwrfa berthnasol.

16.5 Ystyrier:

- p'un a ddylai'r cyfrifon gael eu cyflwyno i'r Archwilydd perthnasol gan y gorfforaeth statudol ei hun ynteu gan Weinidogion

- p'un a ddylid pennu dyddiad erbyn pryd y mae rhaid i'r cyfrifon gael eu cyflwyno (mae 31 Awst a 30 Tachwedd yn ddyddiadau cyffredin) ynteu rhoi pŵer i Weinidogion wneud hynny
- p'un a ddylai'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gael eu gosod gerbron y ddeddfwrfa berthnasol gan yr Archwilydd ynteu gan Weinidogion
- p'un a ddylid pennu cyfnod o fewn pryd y mae rhaid i'r cyfrifon ardystiedig a'r adroddiad gael eu gosod (mae 4 mis o ddyddiad cyflwyno'r cyfrifon yn gyffredin).

16.6 Ambell dro mae'n ofynnol i gorfforaethau statudol sefydlu pwyllgorau archwilio. Os yw pwyllgor archwilio i fod yn ofynnol, pa swyddogaethau ac aelodaeth y dylai eu cael?

16.7 A ddylai fod gan yr Archwilydd Cyffredinol perthnasol bŵer i gynnal ymchwiliadau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y modd y mae'r gorfforaeth statudol yn defnyddio neu wedi defnyddio ei hadnoddau? Os felly:

- A oes angen i'r pŵer eithrio unrhyw gwestiynu ynghylch y polisiau a ddilynir gan y gorfforaeth?
- A ddylai fod dyletswydd i ymgynghori ag unrhyw un cyn arfer y pŵer?
- A ddylai fod gan yr Archwilydd ddyletswydd ynteu pŵer yn unig i lunio adroddiad ar ganlyniadau'r ymchwiliad?
- A ddylai adroddiadau gael eu cyhoeddi, ynteu cael eu cyflwyno i'r Gweinidogion neu'r ddeddfwrfa berthnasol?

16.8 Mae cyfrifon yn ymwneud fel arfer â blynyddoedd ariannol sy'n rhedeg o 1 Ebrill tan 31 Mawrth, ond pan fo corfforaeth wedi ei sefydlu ar ddyddiad ac eithrio 1 Ebrill bydd angen penderfynu beth ddylai ei chyfnod cyfrifyddu cyntaf fod.

17. Rheolaeth gan Weinidogion neu'r ddeddfwrfa

17.1 A ddylai fod gan Weinidogion bŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau i'r gorfforaeth statudol mewn perthynas ag arfer ei swyddogaethau? A ddylai fod eithriadau?

- 17.2 A ddylai fod yn ofynnol i'r gorfforaeth gydymffurfio â cheisiadau gan Weinidogion am roi gwybodaeth neu gyngor iddynt?
- 17.3 A ddylai fod dyletswydd gyffredinol ar y gorfforaeth i roi sylw i ganllawiau Gweinidogol wrth arfer ei swyddogaethau?
- 17.4 A ddylai fod unrhyw weithdrefn ar gyfer rhoi cyfarwyddiadau neu ddyroddi canllawiau (megis gofyniad i ymgynghori â'r gorfforaeth)? A oes rhaid iddynt gael eu cyhoeddi?
- 17.5 Fel arall, a yw natur y corff neu'r swydd yn golygu na chaiff fod yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd neu reolaeth Gweinidogion?
- 17.6 Os felly, a ddylai fod yn ddarostyngedig i unrhyw ffurf arbennig ar oruchwyliaeth gan y ddeddfwrfa yn lle hynny?

18. Deddfwriaeth arall ynglŷn â dyletswyddau cyrff cyhoeddus a chraffu arnynt

- 18.1 A ddylai deddfwriaeth rhyddid gwybodaeth fod yn gymwys i'r gorfforaeth, fel bod hawl gyffredinol i gael mynediad i'r wybodaeth y mae'n ei dal?
- 18.2 A ddylai cofnodion y gorfforaeth statudol fod yn gofnodion cyhoeddus y mae rhaid eu rheoli a'u rhoi ar gael yn unol â deddfwriaeth cofnodion cyhoeddus?
- 18.3 A ddylai'r gorfforaeth fod yn ddarostyngedig i ymchwiliad gan Ombwdsmon pan fo cwyn am gamweinyddu?
- 18.4 A ddylai fod yn ofynnol i'r gorfforaeth gydymffurfio â deddfwriaeth ynglŷn â chydarddoldeb yn y sector cyhoeddus?
- 18.5 A ddylai'r gorfforaeth fod yn ddarostyngedig i adolygiad neu ymchwiliad gan Gomisiynwyr eraill sy'n ynwneud â phlant, pobl hŷn, etc.?
- (Mae'r Atodiad yn rhestru'r ddeddfwriaeth sy'n ymdrin â'r materion hyn.)

19. Ad-drefnu cyrff cyhoeddus sy'n bodoli eisoes

- 19.1 A fwriedir i'r gorfforaeth statudol newydd ddisodli, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, un neu ragor o gyrff sy'n bodloni eisoes?
- 19.2 A ddylai'r gorfforaeth newydd ysgwyddo unrhyw un neu ragor neu'r cyfan o'r swyddogaethau sy'n cael eu harfer gan gorff sy'n bodloni eisoes? Pa swyddogaethau a ddylai gael eu trosglwyddo iddi?
- 19.3 A ddylai'r gorfforaeth newydd gael ei rhoi yn safle'r corff presennol, fel bod modd iddi barhau ag unrhyw beth yr oedd y corff hwnnw yn ei wneud adeg y trosglwyddo? (A ddylai hynny ddigwydd pan na fo swyddogaethau sy'n bodloni eisoes yn cael eu trosglwyddo ond bod y gorfforaeth newydd yn cael swyddogaethau sy'n debyg i rai corff rhagflaenol?)
19. A ddylai'r gorfforaeth newydd ysgwyddo unrhyw un neu ragor neu'r cyfan o eiddo, hawliau a rhwymedigaethau corff sy'n bodloni eisoes?
- 19.5 A ddylai fod gan y Gweinidogion bŵer i benderfynu pa eiddo, hawliau a rhwymedigaethau sydd i'w trosglwyddo? Y dull arferol o wneud hyn yw trwy lunio cynllun trosglwyddo. Ystyrier a oes materion penodol y caiff neu y mae rhaid i'r cynllun eu cynnwys.
- 19.6 A ddylai unrhyw drosglwyddiad gynnwys eiddo, hawliau neu rhwymedigaethau na ellid eu trosglwyddo fel arall (er enghraifft am ei bod yn ofynnol cael cydsyniad rhywun arall i'w trosglwyddo)? A ddylai gynnwys rhwymedigaethau troseddol, neu hawliau a rhwymedigaethau nad ydynt wedi codi hyd yn hyn?
- 19.7 A fydd staff yn cael eu trosglwyddo o gorff sy'n bodoli eisoes i'r gorfforaeth statudol newydd? Bydd angen cyngor cyfreithiol ynghylch a fydd Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 yn gymwys i'r trosglwyddiad staff, fel bod contractau cyflogi yn cael eu parhau³. Os nad yw Rheoliadau 2006 yn gymwys, bydd angen gwneud darpariaeth gyfatebol os yw'r polisi yn gofyn am barhad cyflogaeth⁴.

³ Mae Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (TUPE) yn gwneud darpariaeth ynghylch trin staff pan gaiff busnesau a gwasanaethau penodol eu trosglwyddo o'r naill gyflogwr i'r llall.

⁴ Gweler, yn benodol, y polisiau a'r canllawiau yn Natganiad Ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar Drosglwyddo Staff yn y Sector Cyhoeddus (diwygiwyd yn 2013) a Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Faterion y Gweithlu (diwygiwyd ym mis Mehefin 2014).

- 19.8** A ddylai fod gan staff sydd wedi eu trosglwyddo o gorff sy'n bodoli eisoes hawl i barhau i fod yn aelodau actif o'u cynllun pensiwn presennol?
- 19.9** A allai fod angen ar y gorfforaeth newydd gael hawl mynediad i eiddo neu wybodaeth a ddelir gan gorff sy'n bodoli eisoes, ynteu i'r gwrthwyneb? A allai fod angen i berchnogaeth ar eiddo gael ei rhannu?
- 19.10** A ddylid trosglwyddo unrhyw eiddo, hawliau neu rhwymedigaethau corff sy'n bodoli eisoes i berson ac eithrio'r gorfforaeth newydd, megis Gweinidogion?
- 19.11** Os yw corff presennol yn cael ei ddirwyn i ben, ystyrier pa ddarpariaeth y mae angen ei gwneud ynglŷn â'i adroddiad blynyddol a chyfrifon terfynol. Ar bwy y dylid gosod dyletswydd i'w paratoi (er enghraifft, y corff olynol ynteu Gweinidogion)? Pa weithdrefn y dylid ei chymhwyso i'r broses o'u paratoi ac i'r archwiliad o'r cyfrifon terfynol?

20. Pŵer i ddiddymu'r gorfforaeth statudol newydd

- 20.1** A ddylai fod pŵer i'r Gweinidogion ddod â bodolaeth y gorfforaeth i ben? Gall hyn fod yn briodol:
- pan fo'r gorfforaeth statudol wedi ei bwriadu i gyflawni set benodedig o dasgau neu i gael oes gyfyngedig
 - pan ellir rhag-weld amgylchiadau pan na fyddai angen i'r gorfforaeth fodoli mwyach, er enghraifft am ei bod wedi cyflawni ei nodau
 - pan fo grŵp o awdurdodau yn cael ei sefydlu ac y gall fod angen iddo gael ei ad-drefnu yn y dyfodol.
- 20.2** Gall pŵer i ddefnyddio is-ddeddfwriaeth er mwyn diddymu corff a sefydlwyd drwy ddeddfwriaeth sylfaenol fod yn ddadleuol.

Engbreiffiau o'r datrysiad deddfwriaethol

Deddfau Senedd y DU

- *Deddf Adeiladau Seneddol (Adfer ac Adnewyddu) 2019* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2019/27/contents), adran 2 ac Atodlen 1 (Y Corff sy'n Noddi Gwaith ar Adeiladau Seneddol)
- *Y Ddeddf Cyfarwyddyd Ariannol a Hawliadau 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2018/10/contents), adrannau 1 i 5 ac Atodlen 1 (un corff cyfarwyddyd ariannol)
- *Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/29/contents), adrannau 1 a 2 ac Atodlen 1 (Y Swyddfa Fyfyrrwyr) ac adrannau 91 a 92 ac Atodlen 9 (Ymchwil ac Arloesi y Deyrnas Unedig)
- *Deddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/16/contents), adran 36 ac Atodlen 3 (Social Work England)
- *Deddf Ynni 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2016/20/contents) (Yr Awdurdod Olew a Nwy)
- *Deddf Menter 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2016/12/contents), Rhan 1 (Comisiynydd Busnesau Bach) a Rhan 4 (Y Sefydliad dros Brentisiaethau)
- *Deddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2015/26/contents), adran 41 ac Atodlen 1 (Dyfarnwr Cod Tafarnau)
- *Deddf Gofal 2014* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/23/contents), Rhan 5 (Addysg Iechyd Lloegr, Yr Awdurdod Ymchwil Iechyd)
- *Deddf Diwygio Cyfraith Amddiffyn 2014* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/20/contents), adran 13 ac Atodlen 4 (Swyddfa Rheoliadau Ffynhonnell Sengl)

Deddfau Senedd Cymru

- *Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020* (www.legislation.gov.uk/cy/asc/2020/1/contents), Rhan 4 (Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol)
- *Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2019/3/contents)
- *Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/contents/enacted/welsh), Rhan 2 (Awdurdod Cyllid Cymru)
- *Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/2/contents/enacted/welsh), Rhan 3 (Gofal Cymdeithasol Cymru)
- *Deddf Cymwysterau Cymru 2015* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/5/contents/enacted/welsh)
- *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh), Rhan 3 (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru)
- *Deddf Addysg (Cymru) 2014* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/5/contents/enacted/welsh), Rhan 2 (Cyngor y Gweithlu Addysg)

Deddfau Senedd yr Alban

- *Deddf Consumer Scotland 2020* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2020/11/contents)
- *Deddf Comisiynydd Biometreg yr Alban 2020* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2020/8/contents)
- *Deddf South of Scotland Enterprise 2019* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2019/9/contents)
- *Deddf Nawdd Cymdeithasol (Yr Alban) 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2018/9/contents), Rhan 1 (Comisiwn yr Alban ar Nawdd Cymdeithasol)
- *Deddf Tlodi Plant (Yr Alban) 2017* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2017/6/contents) (Y Comisiwn ar Dlodi ac Anghydraddoldeb)
- *Deddf Diwygio Tir (Yr Alban) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2016/18/contents), Rhan 2 (Comisiwn Tir yr Alban)
- *Deddf Comisiwn Cyllidol yr Alban 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2016/17/contents)
- *Deddf Cyfiawnder Cymunedol (Yr Alban) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2016/10/contents) (Cyfiawnder Cymunedol yr Alban)
- *Deddf Bwyd (Yr Alban) 2015* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2015/1/contents), Rhan 1 (Safonau Bwyd yr Alban)

Deddfau Cynulliad Gogledd Iwerddon

- *Deddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2016/21/contents), Rhan 2 (Ombwdsmon Carchardai Gogledd Iwerddon)
- *Deddf Cwynion Cyfreithiol a Rheoleiddio (Gogledd Iwerddon) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2016/14/contents), Rhan 1 (Comisiynydd Goruchwyllo Gwasanaethau Cyfreithiol Gogledd Iwerddon)
- *Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Gogledd Iwerddon) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2016/4/contents) (Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon)
- *Deddf Addysg (Gogledd Iwerddon) 2014* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2014/12/contents) (Yr Awdurdod Addysg)

Yr Atodiad: deddfwriaeth arall ynglŷn â chyrrff cyhoeddus

Mae'r ddeddfwriaeth a grybwyllir isod yn rhestru'r cyrrff cyhoeddus neu'r categorïau o gorff y mae'n gymwys iddynt, a chan hynny, gall fod angen ei diwygio i fod yn gymwys i gorfforaeth statudol newydd. Gwiriwch y ddeddfwriaeth o dan sylw i weld sut y mae'n disgrifio'r mathau o gorff y mae'n gymwys iddynt.

Goruchwyllo penodiadau

- Goruchwyliaeth gan Gomisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ar benodiadau gan Weinidogion y Goron neu Weinidogion Cymru: Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor ar Benodiadau Cyhoeddus 2015
- Goruchwyliaeth gan Gomisiynydd Penodiadau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon ar benodiadau gan Adrannau Gogledd Iwerddon: Gorchymyn Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus (Gogledd Iwerddon) 1995
- Goruchwyliaeth gan Gomisiynydd Safonau Moesegol mewn Bywyd Cyhoeddus yn yr Alban ar benodiadau gan Weinidogion yr Alban: Deddf Penodiadau Cyhoeddus a Chyrrff Cyhoeddus etc. (Yr Alban) 2003

(Os yw penodiadau i gorff i gael eu monitro gan Gomisiynydd y DU neu Gomisiynydd Gogledd Iwerddon, dylai'r corff gael ei restru yn y Gorchymyn nesaf yn y Cyfrin Gyngor sy'n disodli neu'n diwygio'r Gorchymyn cyfredol.)

Anghymhwysio rhag aelodaeth o ddeddfwrfa

- Tŷ'r Cyffredin: Deddf Anghymhwysio Tŷ'r Cyffredin 1975
- Cynulliad Gogledd Iwerddon: Deddf Anghymhwysio Cynulliad Gogledd Iwerddon 1975
- Senedd Cymru: adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (os yw aelodau neu gyflogaethion i gael eu anghymhwysio, dylid gwneud hyn drwy ddiwygio Rhan 2 o Atodlen 1A i Ddeddf 2006 neu drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 16, gan ddibynnu a ydynt i gael eu anghymhwysio rhag sefyll mewn etholiad neu dim ond rhag ymgymryd â'r swydd os cânt eu hethol).
- Senedd yr Alban: Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 15 o Ddeddf yr Alban 1998

Pensiynau'r gwasanaeth sifil

- Y DU: Deddf Blwydd-daliadau 1972 a Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013
- Gogledd Iwerddon: Gorchymyn Blwydd-daliadau (Gogledd Iwerddon) 1972 a Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus (Gogledd Iwerddon) 2014

Rhyddid gwybodaeth

- Awdurdodau cyhoeddus y DU, Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon: Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Awdurdodau cyhoeddus yr Alban: Deddf Rhyddid Gwybodaeth (Yr Alban) 2002

Cofnodion cyhoeddus

- Cofnodion adrannau a chyrrff nodedig Llywodraeth y DU: Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958
- Cofnodion cyhoeddus Cymru: Deddf Llywodraeth Cymru 2006, adrannau 146-8 (ond hyd nes y gwneir gorchymyn o dan adran 147, Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958 sy'n gymwys)
- Cofnodion cyrrff cyhoeddus yr Alban: Deddf Cofnodion Cyhoeddus (Yr Alban) 2011
- Cofnodion Gogledd Iwerddon: Deddf Cofnodion Cyhoeddus (Gogledd Iwerddon) 1923

Ombwdsmyrn

- Adrannau Llywodraeth y DU a chyrrff eraill sy'n arfer swyddogaethau sydd heb eu datganoli: Deddf y Comisiynydd Seneddol 1967
- Cymru: Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019
- Yr Alban: Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban 2002
- Gogledd Iwerddon: Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Gogledd Iwerddon) 2016

Deddfwriaeth gydraddoldeb y sector cyhoeddus

- Prydain Fawr: Deddf Cydraddoldeb 2010, Rhan 11 (dyletswydd gydraddoldeb gyffredinol y sector cyhoeddus a dyletswyddau penodol a osodir gan Weinidog y Goron, Gweinidogion Cymru neu Weinidogion yr Alban)
- Gogledd Iwerddon: Deddf Gogledd Iwerddon 1998, adrannau 75 a 76 (dyletswydd gydraddoldeb gyffredinol y sector cyhoeddus a gwaharddiad rhag gwahaniaethu ar sail crefydd)

Adolygiadau ac ymchwiliadau gan Gomisiynwyr eraill

Cymru:

- Adolygiad gan Gomisiynydd Plant Cymru o effaith y modd y mae corff yn arfer ei swyddogaethau ar blant: Deddf Safonau Gofal 2000, Rhan 5
- Adolygiad gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru o effaith y modd y mae corff yn arfer ei swyddogaethau ar bobl hŷn: Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006
- Y posibilrwydd y byddai'n ofynnol i gorff gydymffurfio â safonau'r Gymraeg a orfodir gan Gomisiynydd y Gymraeg: Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ymgymryd â datblygu cynaliadwy, yn ddarostyngedig i archwiliad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ac adolygiad gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Yr Alban:

- Gofyniad i gorff lunio cod ymddygiad i'w aelodau, a phŵer i Gomisiynydd Safonau Moesegol mewn Bywyd Cyhoeddus yn yr Alban ymchwilio i doriadau honedig o'r cod: Deddf Safonau Moesegol mewn Bywyd Cyhoeddus etc. (Yr Alban) 2000

Gogledd Iwerddon:

- Adolygiad gan Gomisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon o'r trefniadau a wnaed gan awdurdodau ac ymchwiliad i gwynion eu bod wedi tresmasu ar hawliau plentyn neu berson ifanc neu wedi effeithio'n andwyol ar ei fuddiannau: Gorchymyn Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc (Gogledd Iwerddon) 2003
- Adolygiad gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Gogledd Iwerddon o'r trefniadau a wnaed gan awdurdodau ac ymchwiliad i gwynion eu bod wedi effeithio'n andwyol ar fuddiannau person hŷn: Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Gogledd Iwerddon) 2011.

3 Strategaethau

Mae'r datrysiad deddfwriaethol hwn yn ymwneud â'i gwneud yn ofynnol i berson lunio strategaeth mewn perthynas ag amcan penodol.

Disgrifiad o'r datrysiad deddfwriaethol

Gallai cyrraedd nod penodol neu gyflawni tasg benodol, neu fynd i'r afael â phroblem neu her benodol, fod yr amcan y mae strategaeth yn ymwneud ag ef.

Pam cael strategaeth?

Yn y pen draw, cwestiwn polisi yw a ddylid mynd i'r afael â phroblem drwy ddeddfu ar gyfer strategaeth. Gallai fod llawer o resymau dros fwrw ymlaen fel hyn. Rhoi cyfeiriad neu ffocws i weithgaredd mewn maes penodol? Cael gwahanol asiantaethau i gyd-dynnu? Sbarduno gweithgaredd mewn perthynas â gwerth neu nod cymdeithasol newydd? Gwneud y ffordd y mae person yn gweithio yn dryloyw? Cyflawni rhywfaint o atebolrwydd "meddal", yn yr ystyr bod dogfen sy'n peri bod atebolrwydd gwleidyddol hyd yn oed os nad oes unrhyw sancsiynau cyfreithiol am beidio â'i gyflawni?

Mae ystyried y cwestiynau hyn yn rhan ganolog o benderfynu a yw strategaeth yn ddewis polisi cywir ac os ydyw, beth y mae angen i'r ddarpariaeth ei gynnwys.

Mae darpariaethau strategaeth yn boblogaidd, ond maent yn arwain at faich gweinyddol parhaol. Gall fod yn anodd codi'r baich hwn hyd yn oed os yw pwysigrwydd y materion y mae'r strategaeth yn ymwneud â hwy wedi lleihau gryn dipyn lawer o flynyddoedd wedyn.

Elfennau'r datrysiad deddfwriaethol

1. Dyletswydd i lunio strategaeth

- 1.1 Y syniad yn ei hanfod: gofyniad i berson lunio strategaeth mewn perthynas ag amcan.
- 1.2 Mae angen disgrifio'r amcan: h.y. beth yw'r hyn sydd i'w gyflawni, neu a gynorthwyir i'w gyflawni, gan y strategaeth? Gall fod yn eithaf penodol (e.e. cyrraedd targed) neu'n fwy cyffredinol (e.e. cyflawni nod neilltuol neu hyrwyddo diben hirdymor neilltuol).
- 1.3 Mae angen disgrifio nod y strategaeth mewn perthynas â'r amcan, e.e.:
 - ei gyflawni
 - cynorthwyo i'w gyflawni.
- 1.4 Mae angen dweud pwy sydd i lunio'r strategaeth. Os oes mwy nag un person, mae angen dweud sut, yn gyfreithiol, y maent i weithio mewn perthynas â llunio'r strategaeth.
- 1.5 Mae angen dweud camau pwy sydd i'w rheoleiddio gan y strategaeth.
- 1.6 Mae angen disgrifio cynnwys y strategaeth, e.e.:
 - sut y caiff yr amcan ei gyflawni neu ei hyrwyddo
 - pa gamau y bwriedir eu cymryd yn unol â chyflawni'r amcan
 - sut y mae cynnydd i'w fesur.
- 1.7 Mae angen disgrifio camau pwy sydd i fod yn destun y strategaeth: ai'r person sy'n llunio'r strategaeth ynteu rhywun arall? Y ddau?

- 1.8 Ar gyfer pa gyfnod y mae'r strategaeth:
- Cyfnod penodedig, e.e. 3 blynedd neu 5 mlynedd?
 - Cyfnod amhenodol?

1.9 Gall yr ateb fan hyn ddibynnu ar natur y strategaeth.

2. Fformat y strategaeth

- 2.1 Sut y mae'r strategaeth i gael ei hymgorffori:
- Gofyniad syml i gael strategaeth?
 - Ynteu gofyniad i ymgorffori'r strategaeth mewn dogfen?
- 2.2 Os yw'r strategaeth i'w nodi mewn dogfen, a ddylid gwneud y ddogfen yn gyhoeddus mewn unrhyw ffordd (e.e. ei chyhoeddi, ei hanfon at bersonau penodol, ei gosod gerbron y ddeddfwrfa)?

3. Llundio'r strategaeth

- 3.1 Sut y mae'r strategaeth i gael ei llunio?
- 3.2 A oes gofyniad i ymgynghori â phobl benodol? Os felly, a yw'r ymgynghoriad yn un cyffredinol ynteu'n ymgynghoriad ynghylch drafft o'r strategaeth?
- 3.3 A oes gofyniad i roi sylw i faterion penodol, anghenion penodol neu wybodaeth benodol?
- 3.4 Os na chaiff ei pharatoi gan Weinidogion, a oes gofyniad i'w cynnwys yn y broses? Weithiau mae rhaid cyflwyno strategaeth ar ffurf drafft i Weinidogion ei chymeradwyo. Os felly, a ddylai'r Gweinidogion allu ei diwygio? Beth sydd i ddigwydd os bydd y Gweinidogion yn ei gwrthod?
- 3.5 A oes gofyniad i sicrhau cytundeb personau sy'n ddarostyngedig i'r strategaeth cyn cynnwys deunydd amdanynt?

4. Canlyniadau cyfreithiol y strategaeth

- 4.1 A fydd unrhyw ganlyniad cyfreithiol mewn perthynas â'r strategaeth?
- Nid yw hynny ddim bob amser yn hanfodol. Mae bodolaeth y strategaeth yn arwain at rywfaint o atebolrwydd gwleidyddol.

- 4.2 Weithiau mae canlyniadau cyfreithiol yn cael eu gosod mewn perthynas â chyflawni amcan y strategaeth, e.e.:
- gofyniad, neu i ymdrechu, i'w gyflawni
 - adrodd ar gynnydd i'w gyflawni.
- 4.3 Mewn achosion o'r fath, mae'n debyg nad oes angen creu canlyniadau cyfreithiol mewn perthynas â'r strategaeth hefyd.
- 4.4 Fel arall, gellir (ond fel a nodir uchod, nid oes angen) creu canlyniadau cyfreithiol mewn perthynas â'r strategaeth, e.e.:
- Gellir mynd mor bell â gofyniad i ryw berson "ddilyn" y strategaeth neu i "weithredu'n unol â" hi.
 - Mae dewisiadau eraill yn cynnwys gofyniad i ryw berson "roi sylw" i'r strategaeth.
- 4.5 Mae'r dewisiadau fan hyn yn dibynnu ar natur yr amcan, e.e. —
- Mewn achos o amcan penodol fel cyrraedd targed, gall fod yn fwy priodol creu canlyniadau cyfreithiol mewn perthynas â'r amcan. Er enghraifft, gallai dileu allyriadau carbon fod yn amcan. Yr hyn sydd o bwys fan hyn yw'r methiant i wneud hynny, nid methiant i ddilyn y strategaeth.
 - Os yw'r amcan yn un mwy amhendant fel "hyrwyddo" rhyw fater cymdeithasol, gall fod yn fwy priodol creu canlyniadau cyfreithiol mewn perthynas â'r strategaeth. Er enghraifft, gallai fod rhwymedigaeth i gael strategaeth sy'n hyrwyddo byw bywydau carbon isel. Yr hyn sy'n bwysig yw dilyn y strategaeth (neu roi sylw iddi).
- 4.6 Gellir gosod rhwymedigaethau ar y person y mae'r strategaeth yn eiddo iddo, neu ar bersonau eraill.
- 4.7 Gellir rhoi pwerau i'r Gweinidogion gyfarwyddo personau i gymryd camau i weithredu'r strategaeth.

5. Newid y strategaeth

5.1 Pa gyfle a ddylai fod ar gyfer newid y strategaeth?

- Dim?
- Bod yn rhydd i'w diwygio yn ôl y dymuniad?
- Gofyniad i adolygu ynteu gweithredu yn ôl gwybodaeth benodol i ddiwygio?
- Gall y gofyniad i adolygu fod yn barhaus (h.y., i “adolygu'n gyson”) neu i wneud hynny ar adegau gosodedig neu cyn iddynt ddirwyn i ben.

5.2 Beth ddylai'r weithdrefn fod ar gyfer newid y strategaeth?

- Fel arfer, mae'n cyfateb i'r gofynion ar gyfer paratoi'r strategaeth yn y lle cyntaf.
- Weithiau mae'r drefn yn cael ei llacio pan na fydd y newidiadau arfaethedig yn newid y strategaeth yn sylweddol.

5.3 Os newidir y strategaeth, a ddylai fod unrhyw ofynion i gyhoeddi'r newid?

- Fel arfer, mae'n cyfateb i'r gofynion i wneud y strategaeth yn gyhoeddus yn y lle cyntaf.
- Weithiau mae'r gofynion hynny'n cael eu llacio pan na fydd y newidiadau arfaethedig yn newid y strategaeth yn sylweddol.

Materion cysylltiedig

Mae strategaeth fel y'i disgrifiwyd uchod yn ymwneud â chamau sy'n unol ag amcan penodol. Yn yr ystyr cul, gellir gwahaniaethu rhyngddi a rhwymedigaeth i nodi'r amcan ei hun. Yn aml mae'r amcan hwnnw wedi ei ddatgan yn y ddeddfwriaeth. Serch hynny, mae'n hollol bosibl gosod rhwymedigaethau ar berson i nodi amcanion ac i gyfleu'r camau sydd i'w cymryd er mwyn eu cyflawni. Pwynt dadleuol mewn achos o'r fath yw a yw'n iawn disgrifio'r ddogfen sy'n deillio o hynny fel “strategaeth”, ond yn sicr mae enghreifftiau pan fo rhwymedigaethau o'r fath, sy'n cynnwys y ddwy elfen, yn cael eu galw'n strategaethau. Gall drafftwy'r gynghori ynglŷn â'r ieithwedd orau i'w defnyddio mewn achosion unigol.

Gellir gwahaniaethu hefyd rhwng strategaeth a rhwymedigaeth i berson i nodi sut y bydd yn cyflawni swyddogaethau penodol heb unrhyw gysylltiad â chyflawni amcanion penodol. Efallai fod rhwymedigaethau o'r fath yn bellach i ffwrdd o strategaeth ei hun a gallai fod yn fwy priodol eu crynhoi mewn “cynllun”. Unwaith eto, fodd bynnag, mae'r ieithwedd orau i'w defnyddio yn fater y gall drafftwy'r gynghori arno.

Sut bynnag y caiff y ffurfiau cysylltiedig hyn ar rwymedigaethau eu nodweddu a'u disgrifio, bydd llawer o'r elfennau uchod yn gymwys mewn perthynas â hwy.

Engbreiffiau o'r datrysiaid deddfwriaethol

- *Deddf Comisiynydd Biometreg yr Alban 2020* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2020/8/contents), adran 28
- *Deddf Banc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban 2020* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2020/3/contents), adrannau 13 a 15
- *Deddf Adeiladau Seneddol (Adfer ac Adnewyddu) 2019* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2019/27/contents), adran 5
- *Deddf Trafnidiaeth (Yr Alban) 2019* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2019/17/contents), Rhan 1 (Strategaeth Drafnidiaeth Genedlaethol)
- *Deddf Tlodi Tanwydd (Targedau, Diffiniad a Strategaeth) (Yr Alban) 2019* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2019/10/contents), adran 6
- *Deddf Ystad y Goron Yr Alban 2019* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2019/1/contents), adran 22
- *Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2019/4/contents/enacted/welsh), adran 2
- *Deddf Ynysoedd (Yr Alban) 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2018/12/contents), adran 3
- *Deddf Nawdd Cymdeithasol (Yr Alban) 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2018/9/contents), adran 8
- *Deddf Coedwigaeth a Rheoli Tir (Yr Alban) 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2018/8/contents), adrannau 3 i 7
- *Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/29/contents), adrannau 99 a 100
- *Deddf Tlodi Plant (Yr Alban) 2017* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2017/6/contents), adran 3 (cynllun cyflawni)
- *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017* (www.legislation.gov.uk/anaw/2017/2/contents/enacted/welsh), Rhannau 2 ac 8
- *Deddf Mewnfudo 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2016/19/contents), adrannau 2 a 5
- *Deddf Gofalwyr (Yr Alban) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2016/9/contents), Rhan 5
- *Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2015/30/contents), adran 42
- *Deddf Seilwaith 2015* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2015/7/contents), adran 3 ac Atodlen 2
- *Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015* (www.legislation.gov.uk/anaw/2015/3/contents/enacted/welsh), adrannau 3 i 8, 12 a 13
- *Deddf Masnachu Pobl a Chamfanteisio ar Bobl (Cyfiawnder Troseddol a Chefnogaeth i Ddiodefwyr) (Gogledd Iwerddon) 2015* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2015/2/contents)
- *Deddf Tai (Cymru) 2014* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/7/contents/enacted/welsh), adrannau 50 a 52

4 Cydweithredu

Mae'r datrysiad hwn wedi ei gynllunio i osod dyletswyddau penodol ar ddau neu ragor o bartïon i weithio gyda'i gilydd os caiff meini prawf penodol eu bodloni.

Disgrifiad o'r datrysiad deddfwriaethol

Gall hyn olygu bod parti yn dirprwyo swyddogaethau i gorff arall, bod parti yn arfer swyddogaethau ar ran corff arall, bod parti yn cynorthwyo corff arall i gyflawni ei swyddogaethau, bod corff yn cydgyssylltu swyddogaethau ar gyfer corff arall neu fod dau barti'n arfer swyddogaethau ar y cyd. Mae gweithgareddau eraill yn bosibl.

Efallai mai diben trefniadau cydweithredu o'r fath yw cynyddu effeithlonrwydd, ond gellir pennu dibenion gwahanol.

Mae'r datrysiad hwn yn rhan o gategori o ddatrysiadau deddfwriaethol sy'n ymwneud â chydweithredu a chydweithio. Gweler isod i gael disgrifiad o rai o'r datrysiadau eraill hyn.

Datrysiadau deddfwriaethol cysylltiedig

Mae'r datrysiad hwn yn rhan o gategori o ddatrysiadau deddfwriaethol sy'n ymwneud â chyrrff yn gweithio gyda'i gilydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Y datrysiad cydweithredu cyffredinol**, sef pan fo cyrrff yn cael eu gosod o dan ddyletswydd gyffredinol i gydweithredu â'i gilydd.
- **Y datrysiad cydweithio**, sydd fel arfer yn rhywle rhwng y datrysiad cydweithredu cyffredinol a'r datrysiad cydweithredu o ran pa mor ddwys yw'r ddyletswydd.
- **Y datrysiad dyletswydd anghymesur**, sef pan fo'n ofynnol i gorff wneud dim mwy na darparu cymorth neu adnoddau i gorff arall. Gwneir hyn drwy ddefnyddio dyletswyddau syml ond gall sicrhau'r un effaith â chydweithrediad (megis arbedion effeithlonrwydd etc.).

Elfennau'r datrysiad deddfwriaethol

1. Diffinio'r trefniadau cydweithredu

1.1 Pa fath o drefniadau cydweithredu a ragwelir?

- Er enghraifft, efallai mai'r cyfan a fyddai'n ofynnol i'r partion ei wneud yw cynorthwyo yn y broses o arfer swyddogaethau'r partion eraill. Mae hon yn drefn gymharol ysgafn.
- Fodd bynnag, mae llawer o drefniadau cydweithredu yn golygu naill ai:
 - bod y partion yn cyflawni swyddogaethau ar y cyd, neu
 - fod un parti yn cyflawni swyddogaethau ar ran parti arall.
- Yn ychwanegol, gall ffocws y cydweithredu fod ar swyddogaethau 'swyddfa gefn' neu ar swyddogaethau gweithredol (byddai cydweithrediad fel arfer yn peidio â mynd mor bell ag uniad llawn).

1.2 Mae goblygiadau gwahanol, y mae angen eu hystyried, i bob ffurf ar gydweithredu. Er enghraifft, os dylai un parti allu cyflawni swyddogaethau parti arall, mae angen ystyried y pwyntiau a ganlyn:

- Pwy ddylai fod yn gyfrifol am arfer y swyddogaethau?
- A yw'n ofynnol cael pwerau dirprwyo i roi'r cydweithredu ar waith?
- A ddylai'r parti sy'n arfer y swyddogaethau allu codi ffi am ddarparu'r gwasanaeth?
- A ddylai'r trefniant fod yn gymesur (sy'n golygu bod pob parti'n gallu arfer swyddogaethau'r llall) ynteu'n anghymesur (sy'n golygu bod un parti'n gallu arfer swyddogaethau un arall, ond nid i'r gwrthwyneb)?

2. A oes angen deddfwriaeth?

- 2.1 Yn dibynnu ar y math o gydweithredu sydd yn yr arfaeth, mae cwestiwn ynghylch a oes angen deddfwriaeth i sicrhau hynny. Bydd angen cyngor cyfreithiol i ateb y cwestiwn hwn.

3. Nodi'r partion

- 3.1 Pwy sydd i fod yn destun y trefniadau cydweithredu? Er enghraifft, gallai dau neu ragor o gategoriâu cyrff cyhoeddus fod o dan sylw. Mae hyn yn ofyniad sylfaenol.
- 3.2 A ddylai fod yn bosibl i bartion amhenodedig ychwanegol gael rhan yn y trefniadau? Er enghraifft, gallai fod yn ddymunol caniatáu i contractiwr fod yn barti i'r trefniadau os yw'n bosibl y byddai'r contractiwr yn cyflawni mewn gwirionedd y swyddogaethau o dan sylw. Mae hynny'n caniatáu ar gyfer mwy o hyblygrwydd.

4. Nodi'r swyddogaethau

- 4.1 Pa swyddogaethau a ddylai fod yn ddarostyngedig i'r cytundeb cydweithredu?
- Ai'r cyfan ynteu rhai o swyddogaethau'r partion o dan sylw?
 - Os dim ond rhai o'r swyddogaethau, a yw'r llinell derfyn rhwng y swyddogaethau hynny a swyddogaethau eraill y corff yn ddigon clir?
- 4.2 A oes angen gwahaniaethu rhwng swyddogaethau "gweithredol" a rhai "swyddfa gefn"? Mewn rhai achosion, yr amcan yw caniatáu i swyddogaethau swyddfa gefn gael eu huno heb effeithio ar swyddogaethau gweithredol. Enghraifft benodol yw'r cydweithredu rhwng y gwasanaethau brys.

5. Diffinio'r diben

- 5.1 A ddylid diffinio'r diben o ymrwymo yn y trefniadau cydweithredu? Er enghraifft, gellid cydweithredu er mwyn:
- gwneud y broses o arfer swyddogaethau'r partion yn fwy effeithlon
 - gwneud y broses o arfer swyddogaethau'r partion yn fwy effeithiol, neu
 - hyrwyddo'r defnydd ar wasanaeth neu gynnyrch penodol a ddarperir gan y partion.
- 5.2 Os caiff diben ei ddiffinio, gellir defnyddio hwnnw fel ystyriaeth berthnasol ar gyfer y partion. Er enghraifft, os yw parti yn ystyried a ddylai ymrwymo mewn trefniadau cydweithredu, gallai fod yn ofynnol i'r corff i ystyried a fyddai'r trefniadau er budd effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd.

6. Y broses o ymrwymo mewn trefniadau cydweithredu

- 6.1 A ddylai fod yn ofynnol i'r partion ystyried yn gyson a ddylent ymrwymo mewn trefniadau cydweithredu â'i gilydd? Gall hyn fod yn ddefnyddiol os oes pryder na fyddai'r partion fel arall yn ystyried ymrwymo mewn trefniadau o'r fath.
- 6.2 A ddylai fod gweithdrefn ar gyfer sut y gellir dod i benderfyniad ar y trefniadau? Dyma enghraifft o weithdrefn bosibl:
- Gallai Parti A ystyried ei bod er budd ei effeithiolrwydd i gydweithredu â Pharti B.
 - Mae Parti A yn hysbysu Parti B am hyn.
 - Mae Parti B yn ystyried a fyddai er budd ei effeithiolrwydd ei hun i gydweithredu â Pharti A.
 - Os yw Parti B yn dod i'r casgliad y byddai, rhaid i Barti A a Pharti B ymrwymo mewn trefniadau cydweithredu.

6.3 Beth yw'r mecanwaith i'r partïon gytuno ar:

- y swyddogaethau a fydd yn destun y trefniadau, a
- sut y maent i'w harfer (p'un ai ar y cyd ynteu gan un parti ar ran un arall)?

6.4 A ddylai fod gofyniad i ymgynghori, ac os felly, â phwy y dylid ymgynghori a sut y dylid ymgynghori â hwy? Yn dibynnu ar y partïon o dan sylw, gall fod yn ddymunol cael gofynion ymgynghori er mwyn i sylwadau'r rhanddeiliaid gael eu hystyried.

6.5 A ddylai fod yn bosibl i'r cydweithredu gael ei osod ar bartïon drwy gyfarwyddyd gan Weinidogion (neu adran Gogledd Iwerddon)? Gall fod angen hyn os bernir na fyddai'r partïon efallai yn gweithio gyda'i gilydd fel arall.

7. Cyfyngiadau

7.1 A ddylai fod unrhyw eithriadau i'r gofyniad i gydweithredu?

Er enghraifft, efallai fod gan un o'r partïon swyddogaeth arbennig o sensitif na ddylai fod yn ddarostyngedig i'r trefniadau.

7.2 A oes angen rhoi sylw i ystyriaethau arbennig wrth ystyried a ddylid cydweithredu? Unwaith eto, gall fod gan barti swyddogaethau sensitif y dylid rhoi sylw penodol iddynt cyn cydweithredu.

7.3 A oes angen gofynion ymgynghori arbennig ar gyfer unrhyw un neu ragor o'r partïon? Er enghraifft, mae rhai cyrff yn cael eu goruchwyllo gan eraill a gallai fod yn briodol i'r parti hwnnw ymgynghori â'r goruchwylwr cyn ymrwmo mewn trefniadau (er enghraifft, mae rhai heddluoedd yn cael eu goruchwyllo gan gomisiynwyr heddlu a throseddu neu gan fyrdau plismona).

8. Effaith trefniadau cydweithredu

8.1 Ystyrier a yw'r swyddogaethau sy'n destun y cytundeb cydweithredu i'w harfer ar sail pwerau cyfredol y partïon, ynteu a yw'n ofynnol cael pwerau newydd. Er enghraifft, mae'n bosibl nad oes gan rai o'r partïon bwerau digonol i ddirprwyo swyddogaethau.

- Efallai mai diben y polisi yw sicrhau bod gan y partïon, yn syml, ddigon o bwerau i roi effaith i'r cydweithredu. Os felly, mae'n bosibl bod angen pŵer cyffredinol i ganiatáu i'r partïon wneud unrhyw beth "angenrheidiol neu hwylus" mewn perthynas â'r cydweithredu. Fodd bynnag, os y polisi yw peidio â rhoi unrhyw bwerau newydd sylweddol i'r partïon, gall fod angen amodi pŵer o'r fath drwy gyfeirio at unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol eraill a osodir ar y partïon.

8.2 Os yw Parti A yn arfer swyddogaethau Parti B o dan y trefniadau cydweithredu, a ddylai Parti B allu arfer y swyddogaethau hynny o hyd? Ynteu a ddylai Parti B beidio â gallu arfer y swyddogaethau hynny?

8.3 A ddylai dyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i roi effaith i'r cydweithredu gael ei gosod ar y partïon? Efallai y credir bod angen i'r partïon gael eu hannog ymhellach i gydweithredu pan fo'r trefniadau yn eu lle.

9. Materion ychwanegol i'w hystyried

9.1 Bydd angen ystyried y materion a ganlyn:

- **Taliadau:** A ddylid caniatáu i'r partion wneud taliadau i'w gilydd yn unol â'r cytundeb cydweithredu? Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn achosion pan fo corff yn arfer swyddogaethau corff arall.
 - **Gofynion ffurfiol:** A yw'r cydweithredu i'w gynnwys mewn dogfen? A ddylid ei chyhoeddi? A ddylid hysbysu Gweinidogion (neu un o adrannau Gogledd Iwerddon)?
 - **Sanctsiwn:** A ddylai fod sanctsiwn penodol ar gyfer unrhyw fethiant i gydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r dyletswyddau sy'n berthnasol i'r broses o ymrwymo mewn trefniadau cydweithredu? Dewis arall yw dibynnu ar adolygiad barnwrol os cyrff cyhoeddus yw'r unig bartion i'r cytundeb.
 - **Terfynu cydweithredu:** Sut, ac o dan ba amgylchiadau, y mae'r cydweithredu i gael (neu, y caniateir iddo gael) ei ddwyn i ben? Gall terfyn amser fod yn enghraifft, ond opsiwn arall fyddai caniatáu i'r partion dynnu'n ôl o'r trefniadau os nad yw'r cydweithredu'n ateb ei ddiben (megis effeithlonrwydd) mwyach.
- **Amrywio:** Ystyrier sut, ac o dan ba amgylchiadau, y caiff y partion amrywio eu trefniadau cydweithredu.
 - **Rhannu gwybodaeth:** Ystyrier a yw'n ofynnol cael unrhyw bwerau i rannu gwybodaeth, ac os felly, a oes angen dweud unrhyw beth am ddefnyddio gwybodaeth a rennir.
DS: gall fod yn ofynnol cael cyngor cyfreithiol ynglŷn â rhannu gwybodaeth a diogelu data.
 - **Canllawiau:** A ddylai fod pŵer neu ddyletswydd i ddarparu canllawiau am drefniadau cydweithredu ar gyfer y partion?
 - **Datganoli:** Os bydd y cydweithredu yn cynnwys cyrff ar draws awdurdodaethau, a oes unrhyw ystyriaethau arbennig? Er enghraifft, a yw darpariaethau technegol yn ofynnol i wneud i hyn weithio? Bydd angen cyngor cyfreithiol ar y pwynt hwn.
 - **Datrys anghydfodau:** A oes angen mecanwaith i fynd i'r afael â sefyllfaoedd lle y mae cydweithrediad yn diffygio neu'n bygwth diffygio?
 - **Craffu/atebolrwydd:** A oes angen cael mecanwaith sy'n caniatáu ar gyfer craffu ar y cydweithredu? Er enghraifft, gallai gofyniad i'r partion gyflwyno adroddiad fod o gymorth yn hyn o beth.

Engbreiffiau o'r datrysiad deddfwriaethol

- *Deddf Trafnidiaeth (Yr Alban) 2019* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2019/17/contents), adran 36 (yn diwygio Deddf Trafnidiaeth (Yr Alban) 2001 parthed cynllunio partneriaeth)
- *Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2019/3/contents/enacted/welsh), Rhan 6
- *Deddf Plismona a Throseddau 2017* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/3/contents), Rhan 1, Pennod 1 (cydweithredu ar draws y gwasanaethau brys)
- *Deddf Pwerau Ymchwilio 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2016/25/contents), adrannau 78 i 80
- *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/3/contents/enacted/welsh), adrannau 14, 15 a 46
- *Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/2/contents/enacted/welsh), Rhan 9
- *Deddf Cyrff Cyhoeddus (Cydweithio) (Yr Alban) 2014* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2014/9/contents)
- *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents/enacted/welsh), adrannau 12 a 160 a Rhan 9
- *Deddf Llywodraeth Leol (Gogledd Iwerddon) 2014* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2014/8/contents), adrannau 7(1)(b) a 9, ynghyd â Deddf Llywodraeth Leol (Gogledd Iwerddon) 1972, Rhan 104
- *Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2013/1/contents/enacted/welsh), adrannau 5 a 12
- *Mesur Addysg (Cymru) 2011* (www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/7/contents/enacted/welsh), adran 3 (dyletswydd corff addysg i gydlafurio)
- *Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/40/contents/enacted), adran 166
- *Deddf Argyfyngau Sifil 2004* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2004/36/contents) adrannau 15, 15A a 15B (cydweithredu trawsffiniol)
- *Deddf Addysg 2002* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2002/32/contents), adran 26 (cydweithredu rhwng ysgolion)
- *Deddf Dysgu a Sgiliau 2000* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/21/contents), adran 33K (cyflawni hawliau mewn perthynas â chwricwlwm lleol; cydweithredu)
- *Deddf yr Heddlu (Gogledd Iwerddon) 2000* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/32/contents), adran 56 (enghraifft brin o gydweithredu â chorff penodol y tu allan i'r DU)
- *Deddf yr Heddlu 1996* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/16/contents), adrannau 22A i 23I (cytundebau cydweithredu)

5 Dynodi cyrff

Mae'r datrysiad deddfwriaethol hwn yn caniatáu i gorff gael ei nodi i gyflawni swyddogaethau penodol sy'n aml yn rhai arbenigol. Er enghraifft, gallai rheoleiddiwr addysg uwch ddymuno bod gwaith asesu safonau darparwyr addysg uwch yn cael ei wneud gan gorff asesu arbenigol.

Disgrifiad o'r datrysiad deddfwriaethol

Mae'r datrysiad hwn yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd o ran pwy sy'n cyflawni swyddogaeth, a gall sicrhau bod swyddogaethau yn cael eu cyflawni'n annibynnol a chan arbenigwyr.

Gall y datrysiad gyfyngu ar y math o gyrff y gellir eu dynodi. Mewn llawer o achosion, rhaid i'r corff fod naill ai'n gynrychiadol o sector neu fel arall yn addas i'w ddynodi i gyflawni'r swyddogaethau. Mae angen ystyried telerau'r dynodiad.

Mae'r datrysiad yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd, yn gallu sicrhau bod swyddogaethau yn cael eu cyflawni'n annibynnol a chan arbenigwyr, a hefyd mae'n gallu cyfyngu ar y math o gyrff y caniateir eu dynodi.

DS: Mewn rhai statudau, defnyddir iaith "cydnabod" yn hytrach na "dynodi".

Datrysiadau deddfwriaethol cysylltiedig

Gellid defnyddio'r datrysiad **corfforaeth statudol** i sefydlu corff neu berson, a allai ddod yn ddynodedig o dan y datrysiad hwn.

Elfennau'r datrysiad deddfwriaethol

1. Nodi'r swyddogaethau sydd i'w dynodi

- 1.1 Beth yw'r swyddogaethau a fydd yn ofynnol i'r corff dynodedig eu cyflawni?
 - A ydynt yn swyddogaethau y mae'r corff eisoes yn eu harfer?

- Ynteu a ydynt yn swyddogaethau y bydd angen i'r corff eu harfer yn ychwanegol at ei swyddogaethau cyfredol?
 - Os felly, a fydd angen cael pwerau pellach?

1.2 Mewn rhai achosion, bydd y swyddogaethau dynodedig yn swyddogaethau Gweinidogol sy'n bodloni eisoes⁵ a'r polisi yw y byddai corff allanol mewn lle gwell i gyflawni'r swyddogaethau hynny.

1.3 Mewn achosion eraill, y polisi fydd bod swyddogaethau newydd i gael eu cyflawni gan gorff – os felly, bydd angen nodi'r swyddogaethau newydd.

2. Nodi'r math o gorff

2.1 A ddylai'r corff dynodedig fod yn gorff cyhoeddus ynteu'n gorff preifat (a fyddai efallai yn cyflawni swyddogaethau cyhoeddus)? Os yw'n gorff preifat, gall fod goblygiadau o ran sut i orfodi unrhyw ddyletswyddau (megis drwy ddefnyddio gwaharddebau).

2.2 A ddylai'r corff fod yn gorff corfforaethol? Efallai na fydd hynny'n angenrheidiol ac yn dibynnu ar y swyddogaethau dynodedig, gellid eu cyflawni gan unigolyn neu gymdeithas anghorfforedig.

2.3 A ddylai'r corff fod wedi ei leoli yn y DU? Gall greu anhyblygrwydd i bennu hynny.

⁵ Yng Ngogledd Iwerddon, mae cyfeiriadau at Weinidogion i'w darllen fel cyfeiriadau at un o adrannau Gogledd Iwerddon.

3. Y broses o gadarnhau dynodiad

- 3.1 Mae'r broses o gadarnhau pa gorff y dylid ei ddynodi, a pha swyddogaethau y dylai eu cyflawni, yn bwysig. Er hynny, gall y ddeddfwriaeth fod yn fwy manwl neu'n llai gan ddibynnu ar y polisi a'r amgylchiadau.
- 3.2 Ffordd lai manwl o ddynodi corff yw gadael y mater, yn syml, i ddisgresiwn Gweinidog neu i ba awdurdod perthnasol bynnag sydd â phŵer i ddynodi. Gellid defnyddio is-ddeddfwriaeth hefyd. Fodd bynnag, dylid nodi pwy sy'n gwneud y dynodi.
- 3.3 Gallai ffordd fanylach o ddynodi corff fod fel a ganlyn. Mae hyn yn rhagdybio bod gan awdurdod (megis rheoleiddiwr) bŵer i ddynodi.
 - Cyn argymell dynodiad, mae'r awdurdod yn cynnal ymgynghoriad â'r rhanddeiliaid perthnasol.
 - Wedi'r ymgynghoriad, mae'r awdurdod yn penderfynu a fydd yn argymell bod y corff yn cyflawni'r swyddogaethau.
 - Mae'r awdurdod yn hysbysu'r corff (a Gweinidogion os dymunir) am ei benderfyniad.
 - Mae'r corff wedyn yn cael ei ddynodi (yn ddarostyngedig i gytundeb Gweinidogion os dymunir hynny). Gellid defnyddio gweithdrefn seneddol, megis hysbysu Senedd y DU neu ddefnyddio is-ddeddfwriaeth.
- 3.4 Ym mhob un o'r camau hyn, gallai'r pwerau fod yn ddyletswyddau.

4. Addaswydd y corff dynodedig

- 4.1 Nid yw'n arferol i gorff gael ei ddynodi ond os yw'n addas. Cwestiwn polisi yw a fydd hynny wedi ei ddiffinio ynteu a fydd yn ymhlyg.
- 4.2 Os yw addaswydd wedi ei ddiffinio, gellid ystyried y pwyntiau a ganlyn:
 - A ddylai fod gofyniad i'r corff fod yn gynrychiadol o'r sector? Os felly, beth sydd ei eisiau yn hyn o beth?

- A ddylai fod gofyniad bod y corff yn gallu cyflawni'r swyddogaethau dynodedig yn briodol? Os felly, beth sydd ei eisiau yn hyn o beth?
- I'r graddau bod y pynciau uchod yn faterion barn, pwy sydd i farnu a yw'r meini prawf wedi eu bodloni?
- A yw'r corff wedi cytuno neu wedi gwneud cais i gyflawni'r swyddogaethau dynodedig?

5. Effaith dynodi

- 5.1 Pan fo dynodiad yn ei le, dylid ystyried y pethau a ganlyn:
 - Os yw'r corff dynodedig yn cyflawni swyddogaethau corff arall, a ddylai'r corff arall hwnnw allu parhau i arfer y swyddogaethau hynny?
 - A oes unrhyw ddyletswyddau ychwanegol, megis dyletswyddau adrodd neu rannu gwybodaeth, a ddylai fod yn gymwys i'r corff dynodedig?
 - A oes unrhyw swyddogaethau y dylid atal y corff dynodedig rhag eu cyflawni tra bo'r dynodiad yn ei le? Gallai hynny fynd i'r afael â phwyntiau gwrthdaro buddiannau.
 - Hefyd, os nad oes unrhyw gorff dynodedig, pwy sydd i arfer y swyddogaethau?

6. Goruchwylio a thynnu'n ôl

- 6.1 Yn gysylltiedig ag effaith y dynodiad, bydd angen mynd i'r afael â goruchwylio'r corff dynodedig. Dylid ystyried y canlynol:
 - A ddylai'r corff dynodedig ddarparu gwybodaeth i'r awdurdod a wnaeth y dynodiad ynteu i unrhyw un arall?
 - A ddylai'r corff dynodedig ddarparu adroddiad blynyddol?
 - Os felly, pa ofynion cysylltiedig sydd? Er enghraifft, amseriad yr adroddiad a sut y dylid ei gyhoeddi.
 - A ddylai fod yn ofynnol i'r awdurdod gynnal adolygiadau o'r corff dynodedig bob ychydig o flynyddoedd?

- Os felly, pa ofynion cysylltiedig sydd? Er enghraifft, amseriad yr adolygiad a sut y dylid ei gyhoeddi.
- A ddylai fod yn ofynnol i'r awdurdod hysbysu unrhyw un os oes ganddo bryderon ynghylch perfformiad y corff dynodedig?
- A ddylai'r awdurdod allu rhoi cyfarwyddiadau i'r corff dynodedig?

6.2 Mae hyn yn arwain at ystyried yr amgylchiadau pan ddylid tynnu'r dynodiad yn ôl. Gallai'r amgylchiadau hyn gynnwys:

- pan fo'r corff dynodedig yn tanberfformio
- pan fo'r corff dynodedig a'r awdurdod yn cytuno, neu
- pan fydd terfyn amser penodedig ar gyfer y dynodiad wedi dod i ben.

7. Materion ariannol

- 7.1** A ddylai fod yn bosibl talu'r corff dynodedig am gyflawni'r swyddogaethau dynodedig?
- 7.2** A ddylai'r corff dynodedig allu codi ffioedd am ei wasanaethau?

Engbreiffiau o'r datrysiad deddfwriaethol

- *Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/29/contents), adrannau 27 a 66 (corff a ddynodwyd i arfer swyddogaethau asesu)
- *Deddf Plismona a Throseddau 2017* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/29/contents), adrannau 25 i 27 (a fewnosododd adrannau 29A i 29C yn Neddf Diwygio'r Heddlu 2002, gan ganiatáu i gorff dynodedig wneud uwchgwynion)
- *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/3/contents/enacted/welsh), adran 44 (corff cynghori)
- *Gorchymyn Ansolfedd (Gogledd Iwerddon) 1989 Erthyglau 350 a 350A, fel y'u hamnewidiwyd/mewnosodwyd gan Ddeddf Ansolfedd (Diwygio) (Gogledd Iwerddon) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2016/2/contents), adran 14
- *Deddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2015/26/contents), adrannau 144 i 146 (rheoleiddiwr ymarferwyr ansolfedd)
- *Deddf Diwygio Rheoleiddio (Yr Alban) 2014* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2014/3/contents), Rhan 2
- *Deddf Tai (Cymru) 2014* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/7/contents/welsh), adran 3 (awdurdod trwyddedu – dewis dynodi un awdurdod i Gymru, neu wahanol awdurdodau ar gyfer gwahanol ardaloedd yng Nghymru)
- *Deddf Gwasanaethau Ariannol (Diwygio Bancio) 2013* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2013/33/contents), adran 68 (corff cynrychiadol dynodedig i wneud cwynion)
- *Deddf Gwasanaethau Ariannol 2012* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2012/21/contents), adran 43 (cyrff defnyddwyr dynodedig i wneud uwchgwynion). Gweler adran 234C o Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000, a fewnosodwyd gan adran 43 o Ddeddf 2012
- *Deddf Addysg Uwch 2004* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2004/8/contents), adrannau 13–18 (gweithredwr cynllun cwynion myfyrwyr)
- *Deddf Cyfathrebiadau 2003* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2003/21/contents), adrannau 368B a 368D (yr awdurdod rheoleiddio priodol)
- *Deddf Menter 2002* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2002/40/contents), adran 11 (corff defnyddwyr penodedig i wneud uwchgwynion i'r CMA)

6 Cynlluniau Trwyddedu

Mae'r datrysiad deddfwriaethol hwn yn golygu gwneud cyflawni gweithgaredd, sydd fel arall yn gyfreithlon, yn anghyfreithlon, oni chaiff y gweithgaredd hwnnw ei gyflawni'n unol (ac yn gyson) â thrwydded. Gan hynny, mae'n offeryn a ddefnyddir i reoleiddio a monitro gweithgaredd penodol – neu, mewn geiriau eraill, i benderfynu sut y dylid ei gyflawni.

Disgrifiad o'r datrysiad deddfwriaethol

Caniateir i bŵer i roi trwyddedau gael ei roi i ran o'r llywodraeth neu i gorff neu berson arall.

Mae cyfundrefnau trwyddedu yn amrywio o'r rhai syml iawn (e.e. trwydded gi neu drwydded deledu i'r rhai cymhleth (e.e. caniatâd cynllunio neu drwyddedu cyflenwi trydan).

Datrysiadau deddfwriaethol cysylltiedig

Cyfundrefn hysbysu

Perthynas agos i'r datrysiad deddfwriaethol hwn yw cyfundrefn hysbysu, h.y. cyfundrefn sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson hysbysu rheoleiddiwr am ei fwriad i gyflawni math arbennig o weithgaredd, a'r rheoleiddiwr yn meddu ar bwerau penodol mewn perthynas â chyflawni'r gweithgaredd. Mae enghraifft o hyn i'w chael yn Rhan 2 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (sy'n rheoleiddio rhai darparwyr penodol gwasanaethau cyfathrebu electronig etc.).

Cyfundrefn gofrestru

Perthynas agos arall yw cyfundrefn gofrestru, h.y. cyfundrefn sy'n darparu mai dim ond os yw enw person yn ymddangos ar gofrestr a gedwir gan awdurdod y caiff y person hwnnw gyflawni gweithgaredd.

O ran sylwedd, mae fel arfer llai o seiliau (neu ddim o gwbl), o gymharu â thrwydded, dros wrthod cais am gofrestru, ac ychydig o ddisgresiwn neu ddim o gwbl ynghylch gwneud hynny. Ond gall cyfundrefnau cofrestru cymhleth ddarparu ar gyfer cymwysterau i gofrestru, i amodau gael eu gosod ac i enwau personau sydd wedi cofrestru gael eu tynnu oddi ar y gofrestr os bodlonir amodau penodol (h.y. cofrestru meddygon gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol). Mewn achosion o'r fath, gall fod ychydig iawn o wahaniaeth rhwng trwyddedu a chofrestru.

Elfennau'r datrysiad deddfwriaethol

1. Y gweithgaredd sydd i'w reoleiddio

- 1.1 Beth yw'r gweithgaredd sydd i fod yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn drwyddedu?
 - DS: mae cysylltiad pwysig fan hyn â'r mater gorfodi a ystyrir isod – mae cyflawni'r gweithgaredd heb drwydded yn cael ei droseiddoli bron yn ddieithriad, ac felly mae rhaid i'r gweithgaredd gael ei ddiffinio'n ddigon clir i ffurfio sylfaen trosedd.
- 1.2 A ddylai fod unrhyw eithriadau, h.y. unrhyw bersonau y caniateir iddynt gyflawni'r gweithgaredd heb drwydded neu unrhyw achosion eraill lle y gellir cyflawni'r gweithgaredd heb drwydded?
 - Er enghraifft, os yw'r gweithgaredd yn rhywbeth y caiff awdurdod cyhoeddus ei gyflawni, a ddylai fod yn ofynnol i'r awdurdod cyhoeddus feddu ar drwydded? A oes angen dweud unrhyw beth am hyn er mwyn sicrhau'r canlyniad cywir⁶?

⁶ Golyga rheolau dehongli gwahanol ar gyfer deddfwriaeth San Steffan a deddfwriaeth ddatganoledig y gall tawelwch ynghylch awdurdodau cyhoeddus, yn achos unrhyw rai sy'n gyrrff y Goron, arwain at ganlyniadau gwahanol.

2. Yr awdurdod trwyddedu

- 2.1 Pa gorff neu berson arall sydd i roi trwyddedau?
- 2.2 A oes corff unigol ar gyfer y gyfundrefn ynteu nifer o gyrff lleol, e.e. cynghorau (neu gymysgedd o'r ddau)?
- 2.3 Os yw cyrff lleol i ddyroddi trwyddedau: a yw'r trwyddedau i fod yn rhai sydd mewn cysylltiad ag ardal pob corff yn unig, ynteu a ydynt i gael effaith yn gyffredinol? Os yr olaf, beth yw'r goblygiadau o ran gorfodi? A gaiff cyrff lleol weithredu ar y cyd a dyroddi trwydded ar y cyd neu drwyddedau lleol cyfochrog?

3. Ceisiadau am drwyddedau

- 3.1 Pwy a gaiff wneud cais am drwydded (unrhyw un, ynteu mathau penodol o berson yn unig)?
- 3.2 A ddylai trwydded awdurdodi neb ond y person cyfreithiol y rhoddir y drwydded iddo, ynteu a ddylai awdurdodi hefyd weithgareddau personau eraill? Os yr olaf, a oes angen dweud unrhyw beth am hyn er mwyn sicrhau'r canlyniad cywir?
- Er enghraifft, a ddylai trwydded a roddir i gwmni awdurdodi cyflogaion a/neu asiantau o'r cwmni? Neu os yw'r drwydded yn ymwneud â gweithgaredd ar dir, a ddylai trwydded a roddir i berchennog y tir awdurdodi'r gweithgaredd ar y tir, ni waeth pwy sy'n ei gyflawni?
- 3.3 A ddylai fod yn bosibl rhoi trwydded ar y cyd i ddau neu ragor o bobl (pan fo hyn yn gwneud synnwyr o ran y gweithgaredd sydd i'w reoleiddio)?
- Er enghraifft, os yw'r drwydded yn ymwneud â gweithgaredd ar dir neu mewn adeilad, beth sydd i ddiwydd pan fo cyd-berchnogion ar y tir neu'r adeilad?
- 3.4 A oes unrhyw gyfyngiadau i fod ar yr amgylchiadau y caniateir gwneud ceisiadau ynddynt?

4. Rhoi neu wrthod cais am drwydded

- 4.1 A ddylai fod disgrisiwn i roi trwydded, ynteu dyletswydd i'w rhoi (ac eithrio mewn achosion penodol)?
- Os disgrisiwn, a fydd angen bodloni unrhyw amodau er mwyn i drwydded gael ei rhoi? A ydynt yn faterion ffaith ynteu'n faterion barn?
 - Os dyletswydd, beth yw'r achosion pan na fo unrhyw ddyletswydd i roi trwydded? A ydynt yn achosion pan fo dyletswydd i wrthod y cais, ynteu a oes disgrisiwn o hyd i roi trwydded?
- 4.2 Pa fathau o weithgaredd y dylai trwydded eu hawdurdodi mewn gwirionedd, ac i ba raddau y dylai'r gweithgaredd gael ei awdurdodi? Er enghraifft, a ddylai trwydded awdurdodi:
- ystod gyfan y gweithgaredd a reoleiddir,
 - is-set benodol o'r gweithgaredd hwnnw (e.e. gyrru mathau penodol o gerbyd yn unig, neu ymrwymo mewn mathau penodol o gytundeb credyd yn unig), neu enghraifft benodol o'r gweithgaredd (e.e. trwydded ar gyfer cerbyd penodol neu i fangre benodol gael ei defnyddio fel tŷ amlfeddiannaeth)?
- 4.3 Am ba gyfnod y dylai trwydded bara?
- 4.4 A ganiateir i amodau gael eu gosod ar gyflawni'r gweithgaredd? Os felly:
- Pa fathau o amodau?
 - A ddylai'r holl amodau a ganiateir gael eu nodi yn y ddeddfwriaeth (fel bod modd, neu fod rhaid, i'r person sy'n rhoi'r drwydded ddewis rhyngddynt), ynteu a ddylai fod disgrisiwn ehangach i osod amodau y mae ef ei hun wedi eu llunio (os felly, rhodder rhai enghreifftiau o amodau)?
 - A ddylai amod allu rhoi disgrisiwn i berson (e.e. drwy gyfeirio at bethau a gymeradwyir neu a bennir gan y person)?
 - A ddylai fod amodau "safonol" y mae rhaid eu cynnwys yn y drwydded, neu a gynhwysir yn awtomatig oni fydd yr awdurdod yn penderfynu fel arall?

4.5 Beth yw'r weithdrefn ar gyfer ceisiadau?

Yn benodol:

- A ddylai fod hawl gan y ceisydd i gael hysbysiad ymlaen llaw am wrthodiad arfaethedig? Ynteu i gael gwrandawriad pan fo bwriad i wrthod y cais?
- A ddylid caniatáu neu ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod trwyddedu ymgynghori ag eraill ynghylch rhoi trwydded?

Gweler adran 12 isod ar gyfer pwyntiau i'w hystyried os yw'n bosibl bod ga drydydd partïon fuddiant.

5. Diwygio trwyddedau

5.1 A ddylai diwygiadau i drwyddedau fod yn bosibl? Os felly, ystyrier y canlynol.

5.2 A ddylai'r trwyddedai (h.y. deiliad y drwydded) allu gwneud cais am ddiwygiad?

5.3 A ddylai'r awdurdod trwyddedu allu diwygio'r drwydded ar ei liwt ei hun?

5.4 A ddylai fod gan rywun heblaw'r trwyddedai neu'r awdurdod trwyddedu y gallu i wneud cais iddi gael ei diwygio?

5.5 O ran unrhyw gais am ddiwygio:

- A ddylai fod unrhyw gyfyngiadau ar wneud ceisiadau?
- A oes angen i unrhyw amodau gael eu bodloni er mwyn i'r drwydded gael ei diwygio?
- A ddylai'r pŵer i ddiwygio fod yn anghyfyngedig ynteu a ganiateir i'r drwydded gael ei diwygio mewn ffyrdd penodol a/neu mewn amgylchiadau penodol yn unig?
- Beth yw'r weithdrefn ar gyfer ystyried ceisiadau am ddiwygio trwyddedau (gweler y cwestiynau uchod ynghlŷn â'r weithdrefn ar gyfer ceisiadau am drwyddedau)?

5.6 Mae cwestiynau tebyg yn codi ynghlŷn â'r awdurdod trwyddedu yn gwneud diwygiadau ar ei liwt ei hun. Cwestiynau ychwanegol (ynghlŷn â'r weithdrefn) mewn achos o'r fath yw:

- A ddylai fod gofyniad i hysbysu'r trwyddedai am ddiwygiad arfaethedig?
- A ddylai fod gofyniad i roi cyfle i'r trwyddedai gyflwyno sylwadau am y diwygiad arfaethedig?

6. Trosglwyddo trwyddedau

6.1 A ddylai fod yn bosibl i drwydded gael ei throsglwyddo o un person i un arall?

Os felly:

- A ddylai fod yn bosibl i gais gael ei wneud am drosglwyddo'r drwydded?
- A ddylai fod unrhyw gyfyngiadau ar wneud ceisiadau o'r fath?
- A ddylai unrhyw amodau gael eu bodloni er mwyn i'r drwydded gael ei throsglwyddo?
- Gweler y cwestiynau uchod am y weithdrefn ar gyfer ystyried ceisiadau am drwyddedau.

6.2 A oes angen dweud unrhyw beth am sefyllfaoedd pan fo eiddo person yn cael ei drosglwyddo drwy weithredu'r gyfraith, e.e. ansolfedd neu farwolaeth/diddymiad y trwyddedai?

7. Atal dros dro/dirymu/ildio trwyddedau

7.1 A ddylai'r awdurdod trwyddedu allu atal y drwydded dros dro?

Os felly:

- A ddylai allu gwneud hynny ar seiliau penodol yn unig (os felly, pa rai ydynt)?
- A ddylai fod unrhyw gyfyngiadau ar y cyfnod y caniateir i drwydded gael ei hatal dros dro (os felly, a ellir estyn y cyfnod ac os felly, sut)?
- Beth yw'r weithdrefn ar gyfer atal y drwydded dros dro? Yn benodol, a oes angen rhoi hysbysiad am ataliad dros dro arfaethedig ac a oes angen rhoi cyfle i'r trwyddedai i gyflwyno sylwadau am yr ataliad dros dro neu'r ataliad dros dro arfaethedig?

- A ddylai fod modd i ataliad dros dro gael ei ddiddymu (ac eithrio ar ddiwedd unrhyw cyfnod atal dros dro penodedig), ac os felly, sut?
- Beth ddylai effaith yr ataliad dros dro fod (e.e. a ddylai'r drwydded gael ei thrin fel pe na bai'n bodoli at bob diben, neu os yw ffioedd yn daladwy o bryd i'w gilydd, a ddylent fod yn daladwy o hyd)?

7.2 A ddylai'r awdurdod trwyddedu allu dirymu'r drwydded?

Os felly:

- A ddylai allu gwneud hynny ar seiliau penodol yn unig (os felly, pa rai ydynt)?
- Beth yw'r weithdrefn ar gyfer dirymu'r drwydded? Yn benodol, a ddylai fod gofyniad i roi hysbysiad am ddirymiad arfaethedig ac a ddylid rhoi cyfle i'r trwyddedai i gyflwyno sylwadau am y dirymiad arfaethedig?
- A oes angen unrhyw ddarpariaeth drosiannol os bydd dirymiad (e.e. ynglŷn â gweithgaredd sydd eisoes yn mynd rhagddo pan fydd y drwydded wedi ei dirymu ac nad oes modd hawdd rhoi terfyn arno)?

7.3 A ddylai ataliad dros dro rhannol neu ddirymiad rhannol fod yn bosibl?

- Os bwriedir i ddirymiad rhannol fod yn bosibl, ystyrier y posibilrwydd o orgyffwrdd rhwng hynny a'r awdurdod trwyddedu yn diwygio trwydded ar ei liwt ei hun.

7.4 Pa iawndal fydd angen ei dalu pan fo trwydded yn cael ei dirymu neu ei hatal dros dro?

7.5 A ddylai'r trwyddedai allu ildio'r drwydded? Os felly:

- A fydd unrhyw gyfyngiadau ar hyn?
- Beth yw'r weithdrefn ar gyfer ildio trwydded?
- Os oes ffi drwydded, a oes gan y trwyddedai hawl i gael ad-daliad pro rata?

8. Adnewyddu trwyddedau

8.1 Os yw trwydded yn ddilys am gyfnod penodol, a ellir ei hadnewyddu?

8.2 Os felly, ym mha ffyrdd (os o gwbl) y dylai'r broses adnewyddu fod yn wahanol i'r broses o wneud cais am drwydded?

8.3 A oes angen dweud unrhyw beth am barhad y drwydded tra bo'r cais am ei hadnewyddu yn cael ei brosesu (ynteu ai'r syniad yw y dylai unrhyw adnewyddiad ddigwydd cyn diwedd y cyfnod y mae'r drwydded yn ddilys ar ei gyfer)?

9. Ffioedd

9.1 A oes ffioedd yn daladwy? Os oes, mae'r materion a ganlyn hyn yn codi.

9.2 A ydynt yn daladwy mewn cysylltiad â cheisiadau a/neu apelau?

9.3 A ydynt yn daladwy mewn cysylltiad â thrwyddedau? Os ydynt, a godir tâl untro ynteu a oes ffi'n daladwy mewn cysylltiad â phob cyfnod (e.e. bob blwyddyn), cyhyd â bod y drwydded mewn grym?

9.4 Sut y mae'r ffioedd i'w pennu?

- Os mewn deddfwriaeth sylfaenol, a ddylai fod pŵer i'w diwygio?
- Os mewn is-ddeddfwriaeth, beth fydd y weithdrefn?
- Os pennir hwy mewn modd llai ffurfiol, a ddylai fod cyfyngiadau ar y pŵer? A ddylai fod dyletswydd (a) i ymgynghori cyn pennu'r ffi (b) i gyhoeddi polisi pennu ffioedd yr awdurdod trwyddedu (c) i gyhoeddi swm y ffi?

9.5 A ddylai fod yn bosibl pennu ffioedd gwahanol ar gyfer achosion gwahanol (os felly, rhowch enghreifftiau)?

9.6 Beth yw canlyniadau peidio â thalu ffi (e.e. os yw ffi flynyddol yn daladwy, a ddylai'r drwydded gael ei hatal dros dro neu ei dirymu? Os felly, a ddylai hyn ddigwydd yn awtomatig, ynteu a ddylai fod yn sail dros atal dros dro/dirymu?)

9.7 A oes unrhyw gyfyngiadau mewn deddfwriaeth arall o ran swm y ffi, ac os felly, a oes angen dweud unrhyw beth am hyn?

10. Apelau

10.1 A fydd hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad? Os felly, gweler y datrysiad deddfwriaethol mewn perthynas ag **apelio yn erbyn penderfyniadau gweinyddol**.

11. Ceisiadau ac apelau: cynnwys, ffurf etc

11.1 Pa ofynion sydd eu heisiau o ran cynnwys a ffurf y ceisiadau a'r apelau, a'r ffordd y mae rhaid eu gwneud?

11.2 A ddylai fod yn ofynnol i geiswyr ddarparu copïau o ddogfennau?

11.3 Pa ddarpariaeth sydd i'w rhoi mewn deddfwriaeth sylfaenol, pa ddarpariaeth mewn is-ddeddfwriaeth, a pha ofynion sydd i'w gosod yn fwy anffurfiol (e.e. drwy roi cyfarwyddyd cyffredinol)?

11.4 A ddylai'r corff trwyddedu allu ei gwneud yn ofynnol i geisydd ddarparu rhagor o wybodaeth/dogfennau? Os felly, a ddylai methiant i gydymffurfio â hynny roi hawl i'r corff trwyddedu beidio â bwrw ymlaen â'r cais a/neu ei wrthod?

11.5 A ddylai fod yn ofynnol i'r awdurdod trwyddedu brosesu ceisiadau o fewn terfyn amser? Os felly, sut y mae'r gofyniad hwnnw i gael ei orfodi?

12. Ceisiadau ac apelau: buddiannau trydydd partïon

12.1 A oes gan drydydd partïon fuddiant mewn penderfyniad ynghylch a roddir y drwydded a/neu mewn unrhyw amodau trwydded?

- Cymharer, er enghraifft, drwydded deledu â thrwydded i hylogsi gwastraff ar sail fasnachol.

12.2 Os yw'n bosibl bod gan drydydd partïon fuddiant, ystyrier:

- a ddylid, a sut y dylid, hysbysu partïon penodol a chanddynt fuddiant neu'r cyhoedd yn gyffredinol pan fydd ceisiadau a/neu apelau'n cael eu gwneud (e.e. a ddylai fod dyletswydd i gyhoeddi hysbysiad am y cais/yr apêl)

- a ddylid rhoi cyfle i bartïon a chanddynt fuddiant i gyflwyno sylwadau mewn perthynas ag unrhyw gais neu apêl
- a ddylai unrhyw barti a chanddo fuddiant allu apelio yn erbyn rhoi trwydded (neu mewn cysylltiad ag amodau trwydded).

12.3 Gweler hefyd y cwestiynau uchod ynglŷn â'r awdurdod trwyddedu yn ymgynghori ag eraill a'r datrysiad deddfwriaethol mewn perthynas ag **apelio yn erbyn penderfyniadau gweinyddol**.

13. Gorfodi

13.1 Sut y mae'r gwaharddiad ar ymgymryd â'r gweithgaredd heb drwydded i gael ei orfodi?

13.2 A oes angen unrhyw bwerau i gael mynediad, i chwilio neu i arolygu? (Gweler y datrysiad deddfwriaethol mewn perthynas â **phwerau mynediad, archwilio, chwilio ac ymafael**.)

13.3 A oes angen unrhyw bwerau i arestio neu gadw person?

13.4 A ddylai fod trosedd? (Gweler y datrysiad deddfwriaethol mewn perthynas â **throseddu**.) Os felly, a ddylai fod yn drosedd, yn syml, i ymgymryd â'r gweithgaredd heb drwydded, ynteu a fyddai gweithredu felly yn sail dros ddyroddi hysbysiad gorfodi neu hysbysiad cydymffurfio (y byddai ei dorri yn drosedd)? (Gweler y datrysiad deddfwriaethol mewn perthynas â sancsiynau sifil.)

13.5 Os dylai fod trosedd, ai caniatáu hysbysiadau cosb benodedig yw'r polisi? (Gweler y datrysiad deddfwriaethol mewn perthynas ag **hysbysiadau cosb benodedig**.)

13.6 Dewis arall yw cyfundrefn cosbau sifil ariannol. (Gweler y datrysiad deddfwriaethol mewn perthynas â **sancsiynau sifil**.)

13.7 Os yw'r awdurdod i gael pŵer i osod amodau fel rhan o'r drwydded, sut y dylai'r amodau hynny gael eu gorfodi? (Trosedd? Sail dros ddirymu'r drwydded?)

14. Cyhoeddusrwydd

- 14.1 A oes angen unrhyw beth i alluogi'r cyhoedd i wybod a oes gan berson drwydded (e.e. gofyniad i arddangos y drwydded mewn man busnes neu i ddatgan rhif y drwydded mewn dogfennaeth fusnes)?
- 14.2 A fwriedir cael cofrestr drwyddedau, ac os felly, beth y mae i'w gynnwys a phwy a gaiff fynediad iddi?

15. Amcanion/canllawiau

- 15.1 A oes dymuniad i nodi amcanion a fydd yn llywio'r holl system? Os felly, a ddylent gael eu nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth, ynteu cael eu dyroddi'n fwy anffurfiol?
- 15.2 A ddylai fod gan rywun bŵer neu ddyletswydd i ddyroddi canllawiau ynglŷn â gweithredu'r system drwyddedu? Os felly, a ddylai fod dyletswydd i ymgynghori cyn dyroddi canllawiau? A oes angen dyletswydd i gyhoeddi canllawiau?

Engbreiffiau o'r datrysiad deddfwriaethol

- *Deddf Trafnidiaeth (Yr Alban) 2019* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2019/17/contents), Rhan 7 (cynlluniau trwyddedau parcio gweithleoedd)
- *Deddf Diwydiant y Gofod 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2018/5/contents), adrannau 3 ac 8 i 15 ac Atodlen 1 (gweithgareddau hedfan i'r gofod)
- *Deddf Ynysoedd (Yr Alban) 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2018/12/contents), adrannau 24 a 25 (trwyddedu ardaloedd morol)
- *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/2/contents/enacted/welsh), Rhan 4 (trwyddedu personau sy'n cyflawni aciwbigo, tyllu'r corff etc.)
- *Deddf Tai Amlfeddiannaeth (Gogledd Iwerddon) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2016/22/contents), Rhannau 2 a 3
- *Deddf Arfau Aer a Thrwyddedu (Yr Alban) 2015* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2015/10/contents), Rhan 1 (tystysgrifau ar gyfer arfau aer) a Rhan 3 (tacsis etc., delwyr metel etc.)
- *Deddf Tai Cymru 2014* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/7/contents/enacted/welsh), Rhan 1 (tai'r sector preifat; system cofrestru a thrwyddedu)
- *Deddf Trwyddedu Caffis Palmant (Gogledd Iwerddon) 2014* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2014/9/contents)
- *Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2013/10/contents)
- *Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2013/6/contents/welsh), Rhan 2
- *Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2012/7/contents), Pennod 3 o Ran 3 (darparwyr gwasanaethau iechyd)
- *Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2009/23/contents), Rhan 4 (trwyddedu morol)
- *Deddf Ynni 2008* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2008/32/contents), Penodau 2 a 3 o Ran 1 (nwy)
- *Deddf Tacsis (Gogledd Iwerddon) 2008* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2008/4/contents) (gyrwy, cerbydau a gweithredwyr)
- *Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/36/contents), Rhan 2
- *Deddf Gamblo 2005* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2005/19/contents)
- *Deddf Trwyddedu (Yr Alban) 2005* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2005/16/contents) (alcohol)
- *Deddf Meinweoedd Dynol 2004* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2004/30/contents), adran 16 ac Atodlen 3 (post-mortem etc.)
- *Deddf Meistri Gangiau (Trwyddedu) 2004* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2004/11/contents)
- *Deddf Trwyddedu 2003* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2003/17/contents) (alcohol etc.)

7 Pwerau mynediad, archwilio, chwilio ac ymafael

Mae'r datrysiad hwn yn rhoi, ac yn rheoleiddio, pŵer i fynd i mewn i fangreoedd ac i'w harchwilio neu i'w chwilio, gan ymafael o bosibl mewn eitemau a geir yno a'u symud oddi yno. Fel arfer – ond nid bob amser – mae pwerau o'r fath yn cael eu harfer er mwyn darganfod a oes trosedd wedi ei chyflawni.

Disgrifiad o'r datrysiad deddfwriaethol

Gall y pŵer i fynd i mewn i fangreoedd gael ei roi i gwnstablau neu i swyddogion cyhoeddus eraill (megis cyflogeion Adran, awdurdod lleol neu gorff statudol).

Mae Cod Ymarfer y Swyddfa Gartref am Bwerau Mynediad (*Home Office Code of Practice on Powers of Entry*) (www.gov.uk/government/publications/powers-of-entry-code-of-practice) a ddyroddwyd o dan adrannau 47 i 53 o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 yn rhoi rhagor o wybodaeth a chanllawiau ynghylch pwerau mynediad sydd heb eu datganoli ("non-devolved") (gweler adran 47 o'r Ddeddf i gael y manylion ynglŷn â beth yw ystyr "non-devolved" fan hyn). Rhaid i bersonau perthnasol, fel y diffinnir "relevant persons" yn yr adrannau hynny, roi sylw i'r canllawiau.

Elfennau'r datrysiad deddfwriaethol

1. A oes angen pwerau mynediad newydd?

1.1 Dau fater cychwynnol yw:

- Beth yw diben unrhyw bŵer newydd arfaethedig (er enghraifft, i ymchwilio i drosedd ynteu i hwyluso arfer rhyw swyddogaeth arall)?
- A yw pŵer newydd yn angenrheidiol? Efallai fod y pwerau presennol yn ddigon i fodloni bwriad y polisi.

1.2 Mae'r pwerau mynediad a ganlyn yn gymwys yn gyffredinol:

- Yng Nghymru a Lloegr, ac yn ôl pob tebyg yng Ngogledd Iwerddon, ceir pŵer o dan y gyfraith gyffredin i gwnstablau fynd i mewn i fangreoedd i ddelio â thor heddwch neu i'w atal. Yn yr Alban mae

gan yr heddlu rai pwerau mynediad o dan y gyfraith gyffredin (a) pan fyddant yn ymlid yn agos rywun y maent yn credu ei fod wedi cyflawni, neu ar fin cyflawni, trosedd ddifrifol; (b) pan fyddant yn anfon aflonyddwch; neu (c) pan fyddant yn clywed cri am gymorth neu gri o drallod.

- Yng Nghymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon, pŵer i gwnstablau sydd â gwarant fynd i mewn i fangreoedd mewn cysylltiad ag ymchwilio i droseddau ditiadwy: gweler adran 8 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 ("Deddf PACE") ac erthygl 10 o Orchymyn yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (Gogledd Iwerddon) 1989 ("Gorchymyn PACE").
- Yng Nghymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon, pŵer i gwnstablau sydd heb warant fynd i mewn i fangreoedd at nifer o ddibenion penodedig, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud ag arestio personau am droseddau penodol neu ail-ddal personau sy'n rhydd yn anghyfreithlon (gweler adran 17 o Ddeddf PACE ac erthygl 19 o Orchymyn PACE).
- Yng Nghymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon, pŵer i gwnstablau sydd heb warant fynd i mewn i unrhyw fangre a feddiennir neu a reolir gan berson sydd wedi ei arestio am drosedd ddiadwy, os oes gan y cwnstabl seiliau rhesymol dros amau bod yno dystiolaeth sy'n ymwneud â'r drosedd honno neu drosedd ddiadwy arall (gweler adran 18 o Ddeddf PACE ac Erthygl 20 o Orchymyn PACE).
- Yng Nghymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon, pan fo person wedi ei arestio am drosedd ddiadwy, pŵer i gwnstablau sydd heb warant fynd i mewn i unrhyw fangre lle'r oedd y person pan oedd yn cael, neu'n union cyn iddo gael, ei arestio, er mwyn chwilio am

dystiolaeth sy'n ymwneud â'r drosedd (gweler adran 32 o Ddeddf PACE ac erthygl 34 o Orchymyn PACE).

- 1.3 Ym mhob achos bydd angen penderfynu, yng ngoleuni'r gyfraith gyffredin a'r pwerau statudol sy'n bodoli eisoes (p'un a ydynt wedi eu rhestru uchod ai peidio), a yw darpariaeth newydd yn angenrheidiol. Pan fo pŵer cyfraith gyffredin yn bodoli eisoes, gellid disodli'r pŵer hwnnw â phŵer statudol os bernid y byddai'n ddymunol gwneud hynny (er enghraifft, er mwyn cael eglurder neu i ddiweddarau'r gyfraith), er nad yw hynny'n hollol angenrheidiol.
- 1.4 Sylwer hefyd fod adrannau 15 ac 16 o Ddeddf PACE ac Erthyglau 17 a 18 o Orchymyn PACE yn darparu gwahanol ddulliau diogelu gweithdrefnol ar gyfer y modd y mae cwnstablau i ddefnyddio pwerau i fynd i mewn a chwilio o dan warantau (p'un a ydynt yn rhai o dan y Ddeddf honno neu'r Gorchymyn hwnnw ynteu o dan ddeddfwriaeth arall). Pan gaiff pŵer newydd ei roi i gwnstablau, caiff rhai o'r cwestiynau a ystyrir isod eu hateb gan yr adrannau/ Erthyglau hynny. (Sylwch nad yw "cwnstabl", yng Nghymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon, wedi ei gyfyngu i gwnstablau heddlu; yn achos Gogledd Iwerddon, gweler adran 43A o Ddeddf Dehongli (Gogledd Iwerddon) 1954.)
- 1.5 Mae Atodlen 5 i Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015 yn cynnwys set gyffredinol o bwerau ymchwilio ar gyfer gorfodi troseddau y gellid eu cyflawni gan (mewn termau bras) fasnachwyr neu'r sawl sy'n darparu gwasanaeth busnes i'r cyhoedd (fel asiantau tai). Mae'r pwerau ar gael i'r awdurdodau gorfodi sy'n gyfrifol am orfodi'r troseddau hynny – er enghraifft, cynghorau dosbarth yn Lloegr neu Ogledd Iwerddon, neu awdurdodau pwysau a mesurau lleol ym Mhrydain Fawr. Efallai na fydd angen darpariaeth newydd os yw'n briodol dibynnu ar y pwerau hynny (neu, o bosibl, os gellid amrywio neu ategu'r pwerau hynny mewn rhai agweddau yn ôl y gofyn).
- 1.6 Ceir rhai amgylchiadau pan fo deddfwriaeth eisoes yn darparu ar gyfer set o bwerau ymchwilio mewn rhai mathau penodol o achosion – er enghraifft, y rheini mewn perthynas â rheoli llygredd yn adran 108 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.

2. Os oes angen pŵer mynediad newydd, sut y bydd yn arferadwy: dim ond â gwarant, ynteu hebdo?

- 2.1 Dim ond os yw gwarant wedi ei sicrhau y mae rhai pwerau mynediad yn arferadwy. Mae rhai eraill yn arferadwy heb y gofyniad hwn. Os yw pŵer newydd i gael ei roi, a ddylai fod yn arferadwy drwy warant yn unig?
 - Ni chlywyd erioed bron fod pŵer i fynd i mewn i anheddau preifat yn arferadwy heb warant.
 - Gall y ffactorau canlynol droi'r fantol ym maes polisi o blaid gwneud gwarant yn ofynnol:
 - caniateir i bwerau ymafael gael eu harfer ar ôl mynd i mewn
 - diben mynd i mewn yw caniatáu chwiliad i ganfod a yw trosedd wedi ei chyflawni
 - caniateir i rym gael ei ddefnyddio i lwyddo i fynd i mewn
 - mae'r pwerau yn arferadwy gan bersonau ac eithrio cwnstablau neu swyddogion gorfodi cyfraith eraill.
 - Weithiau holltir pŵer yn ddau, fel y bydd yn arferadwy gyda gwarant yn unig mewn rhai amgylchiadau ond hebdo mewn amgylchiadau eraill. Gweler yr holltau rhwng adrannau 239 a 240 o Ddeddf Tai 2004 a rhwng adrannau 62A a 62D o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (ar y naill law) ac adrannau 62B a 62E o'r Ddeddf honno (ar y llaw arall).
- 2.2 P'un a yw'r pŵer i fod yn arferadwy gyda gwarant neu hebdo, pa amodau (sylwedddol a gweithdrefnol) y bydd angen eu bodloni cyn arfer y pŵer?
 - Os yw gwarant i fod yn ofynnol, bydd angen i'r materion canlynol gael eu datrys:
 - y seiliau dros ddyroddi'r warant (hynny yw, y seiliau dros fynd i mewn)
 - pwy sy'n dyroddi'r warant
 - pwy a gaiff wneud cais am y warant

- pwy a gaiff weithredu'r warant (hynny yw, pwy a gaiff arfer y pŵer)
- ffurf a chynnwys y cais
- cynnwys y warant.

Bydd angen pennu'r rhan fwyaf neu'r cyfan o'r rhain yn y statud.

- Pan fo wedi ei benderfynu bod y pŵer mynediad i fod yn arferadwy heb warant, bydd angen i'r statud perthnasol bennu:
 - y seiliau dros arfer y pŵer mynediad
 - pwy a gaiff arfer y pŵer.

2.3 Er mwyn darparu dulliau diogelu priodol yn absenoldeb gwarant farnwrol, mae pwerau sy'n arferadwy heb warant yn ddarostyngedig hefyd fel arfer i un neu ragor o amodau eraill cyn iddynt gael eu harfer, megis:

- awdurdodiad gan uwch-swyddog (dull diogelu nad yw'n cyrraedd safon cymeradwyaeth farnwrol)
- rhoi hysbysiad i berchennog neu feddiannydd y fangre.

2.4 Ymdrinnir isod â phob un o'r materion hyn isod o dan benawdau ar wahân.

3. Cwestiynau sy'n codi ynglŷn â phwerau gwarant

3.1 Beth yw'r seiliau i fod dros ddyroddi'r warant?

- Bydd dewis y seiliau ar gyfer dyroddi gwarant yn dibynnu ar y polisi.
- Mae'n digwydd yn aml fod dau fath gwahanol o sail yn cael eu nodi, a bod angen bodloni'r ddau.
- Mae'r math cyntaf o sail yn ymwneud â'r rheswm pam y mae'n ofynnol cael mynediad o gwbl. Mae'n bosibl bod seiliau rhesymol dros amau bod gofyniad wedi ei dorri a bod tystiolaeth berthnasol yn y fangre, neu fod trosedd yn cael ei chyflawni yn y fangre. Neu y gallai fod angen cael mynediad er mwyn archwilio rhyw weithgaredd neu sefyllfa ar y fangre, neu ymchwilio i'r

gweithgaredd hwnnw neu'r sefyllfa honno hyd yn oed os nad amheuir bod unrhyw ddyrgioni.

- Mae'r ail fath o sail yn ymwneud â'r rheswm pam y mae cyfiawnhad i'r warant (gyda'r elfen o orfodaeth sy'n cyd-fynd â hi). Yn fyny, y rhain yw: bod cais am fynd i mewn i'r fangre wedi ei wneud ac wedi ei wrthod, neu'n debygol o gael ei wrthod os câi ei wneud; nad oes modd dod o hyd i'r perchennog neu'r meddiannydd; y byddai gofyn am gael mynd i mewn yn tanseilio diben y mynediad (megis drwy roi cyfle i'r meddiannydd i ddinistrio tystiolaeth).
- Y prawf arferol yw bod rhaid i'r person sy'n dyroddi'r warant gael ei "fodloni" bod y seiliau'n bodoli. Yn aml mae prawf penodol o resymoldeb. Gallai'r prawf fod bod rhaid i'r dyroddwr gael ei fodloni ei bod yn "rhesymol ofynnol" i gael mynediad at un neu ragor o'r dibenion a restrir. Neu gallai'r prawf fod a rhaid cael seiliau rhesymol dros gredu bod sefyllfa yn bodoli.

3.2 Pwy sydd i ddyroddi'r warant?

- Yn y mwyafrif helaeth o achosion, mae'r warant i'w dyroddi gan y canlynol (a'r cais i'w gyflwyno iddo): yng Nghymru a Lloegr, ynad heddwch; yn yr Alban, siryf, siryf diannod⁷ neu ynad heddwch; yng Ngogledd Iwerddon, ynad lleyg.
- Mewn rhai achosion eithriadol, mae'r pŵer i ddyroddi warant wedi ei freinio mewn barnwr uwch.

3.3 Pwy a gaiff wneud cais am y warant ac i bwy y caiff ei dyroddi?

- A ddylai'r statud bennu pwy sydd i wneud cais am warant? Gall y person sy'n arfer y pŵer mynediad fod yr un person â'r sawl sy'n gwneud y cais am y warant neu'n berson gwahanol. Mae rhai statudau yn ei gwneud yn glir y caiff y ceisydd a'r gweithredwr fod yn unigolion gwahanol, yn yr un modd â phan y caiff gwarant y gwnaed cais amdani gan un swyddog i gorff statudol gael ei gweithredu gan unrhyw swyddog arall iddo.
- Mae rhai statudau'n pennu'r person y mae'r warant i'w dyroddi iddo, ond nid y person sydd i'w gweithredu. Yn absenoldeb unrhyw

⁷ Rhoes llawer o statudau y swyddogaeth hon i ynad cyflogedig. Mae'r swydd hon wedi ei disodli bellach gan swydd siryf diannod: gweler adrannau 5 a 128 o Ddeddf Diwygio'r Llysoedd (Yr Alban) 2014 ac Atodlen 5 iddi.

awgrym i'r gwrthwyneb, y goblygiad mewn achosion o'r fath, yn ôl pob tebyg, yw bod rhaid i'r gwarant gael ei gweithredu gan y person y mae wedi ei dyroddi iddo (a chan neb arall). Ond mae'n well peidio â gadael unrhyw amheuaeth am y mater. Gweler ymhellach isod o dan “...pwy a fydd yn gallu arfer y pŵer?”.

3.4 Beth yw ffurf a chynnwys y cais am warant?

- A ddylai'r ddeddfwriaeth esbonio'n fanylach beth y mae rhaid i'r cais ei gynnwys? Yn benodol, a fydd yn ofynnol i'r cais gael ei ategu gan ddeunydd penodol neu gan dystiolaeth o fath penodol?
- Yr arfer cyffredinol – ond nid hollgyffredinol – yw pennu rhyw ofynion ffurfiol ynghylch sut y mae'r cais i gael ei ategu:
 - Yn achos Cymru a Lloegr, mae hyn fel arfer drwy “wybodaeth ysgrifenedig”, drwy “wybodaeth [a roddir] ar lw”, neu drwy “wybodaeth ysgrifenedig ar lw”.
 - Yn achos yr Alban, defnyddir pob un o'r ymadroddion uchod, (sef “information in writing”, “information [given] on oath” a “sworn information in writing”) yn ogystal â thystiolaeth ar lw (“evidence on oath”).
 - Yn achos Gogledd Iwerddon, mae hyn drwy gŵyn ar lw (“complaint on oath”), drwy gŵyn ysgrifenedig (“complaint in writing”) neu drwy gŵyn ysgrifenedig [ac] wedi ei chadarnhau ar lw (“complaint in writing [and] substantiated on oath”).

3.5 Pa wybodaeth y dylai'r warant ei chynnwys?

- A ddylai'r ddeddfwriaeth esbonio beth sydd i'w gynnwys yn y warant (megis enw'r ceisydd, dyddiad ei dyroddi, y fangre sydd i'w chwilio a'r eitemau a geisir)?

3.6 Am ba mor hir y dylai'r warant fod yn ddilys? A fydd yn awdurdodi mynediad ar fwy nag un achlysur?

- A ddylid pennu cyfnod ar gyfer cael mynediad (h.y., am ba mor hir y mae'r warant i fod yn ddilys)? Mae llawer o ddarpariaethau yn ei gwneud yn ofynnol i warant gael ei gweithredu cyn pen mis. Mae rhai yn darparu ei bod i barhau'n ddilys am dri mis. Ambell dro, mae statudau'n darparu bod gwarant i barhau mewn grym hyd nes y bydd wedi ei gweithredu.

- A yw'r warant yn caniatáu mynediad ar fwy nag un achlysur? Nid yw'r gyfraith ar y pwynt hwn yn hollol eglur, ond o safbwynt drafftio, mae'n ymddangos mai'r unig ffordd ddiogel yw rhagdybio mai canlyniad distawrwydd fydd caniatáu dim ond un mynediad. Os y polisi yw bod mwy nag un mynediad i fod yn bosibl o dan un warant, bydd angen geiriau clir i'r perwyl hwnnw.

4. Cwestiynau sy'n codi ynglŷn â phwerau sy'n arferadwy heb warant

4.1 Beth yw'r seiliau dros arfer y pŵer i fod?

- Hyd yn oed pan fo pŵer yn arferadwy heb warant, mae nodi rhai seiliau dros ei arfer yn elfen hanfodol. Bydd y rhain yn aml yn debyg i'r rhai a drafodwyd uchod (o dan y pennawd cyfatebol ar gyfer pwerau sy'n seiliedig ar warant), ac eithrio wrth gwrs na fyddant yn cael eu mynegi fel materion y mae rhaid i ddyroddwr y warant gael ei fodloni arnynt. Yn lle hynny, fe'u mynegir naill ai fel meini prawf gwrthrychol neu fel materion y mae rhaid i'r person sy'n arfer y pŵer gael ei fodloni arnynt.

4.2 A ddylai awdurdodiad gan uwch-swyddog fod yn angenrheidiol?

- A ddylid ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n ceisio arfer y pŵer gael awdurdodiad ymlaen llaw gan uwch-swyddog yn ei sefydliad? Mae'r gofyniad hwn yn cael ei ychwanegu weithiau fel dull i ddiogelu rhag defnydd amhriodol o'r pŵer.

4.3 A ddylai fod yn angenrheidiol hysbysu'r perchennog neu'r meddiannydd?

- A ddylai'r ddeddfwriaeth ei gwneud yn ofynnol i hysbysiad ymlaen llaw am arfer y pŵer gael ei roi i berchennog a/neu feddiannydd y fangre? Mae hwn yn ddull diogelw pwysig, ond weithiau gall rhoi hysbysiad danseilio diben arfer y pŵer. Mae hysbysu yn debycach o fod yn ofynnol pan fo'r pŵer yn arferadwy mewn perthynas ag annedd breifat.
- Pan fo hysbysiad yn ofynnol, dylai'r ddeddfwriaeth nodi faint o hysbysiad ymlaen llaw y mae rhaid ei roi. Bydd hyd priodol y cyfnod hysbysu yn amrywio yn ôl yr amgylchiadau. A ddylid ei bennu, ynteu a yw hysbysiad “rhesymol” yn ddigon?

5. Cwestiynau pellach sy'n codi yn y naill achos neu'r llall

5.1 Pwy a ddylai allu arfer y pŵer?

- Bydd angen i statud ddatgan:
 - yn achos pŵer sy'n arferadwy drwy warant, pwy sydd wedi ei awdurdodi i weithredu'r warant
 - yn achos pŵer sy'n arferadwy heb warant, pwy a gaiff arfer pŵer mynediad.
- A ddylai'r pŵer gael ei roi i berson artiffisial (megis corff corfforaethol)? Os felly, rhaid cofio bod rhaid i'r pŵer mynediad gael ei arfer yn y pen draw gan unigolyn. Efallai mai'r ffordd ddoethaf fyddai ei gwneud yn ofynnol i'r warant gael ei dyroddi i "swyddog" neu "aelod [o staff]" y corff, neu hyd yn oed bod y warant i'w dyroddi i unigolyn a enwir ynnddi. Os yw i gael ei dyroddi i swyddog (neu aelod staff), a gaiff fod yn unrhyw swyddog (neu aelod staff) ynteu a oes rhaid ei bennu neu ei awdurdodi i gyflawni'r swyddogaeth hon ar ran y corff? Os felly, pwy a ddylai gael awdurdodi hyn? A ddylai'r ddeddfwriaeth ddarparu y gellir dirprwyo gwaith arfer y pŵer i rywun arall (e.e., os dyroddir y warant yn enw'r corff, neu i swyddog ond heb ei enwi, a ganiateir iddi gael ei gweithredu gan swyddog arall)?
- Pan fo gwarant i fynd i mewn a chwilio wedi ei dyroddi i gwnstabl, y safbwynt diofyn yw y caniateir i'r warant gael ei gweithredu gan unrhyw gwnstabl (nid yn unig y cwnstabl y dyroddwyd hi iddo); gweler adran 16(1) o Ddeddf PACE ac Erthygl 18(1) o Orchymyn PACE. Pan fo pŵer newydd sy'n arferadwy drwy warant i'w roi i gwnstabl yng Nghymru a Lloegr neu Ogledd Iwerddon, a ddylai'r safbwynt diofyn hwn gael ei newid?

5.2 A ddylai'r person a awdurdodir i arfer y pŵer allu mynd â phersonau eraill gydag ef?

- A ddylai fod yn bosibl i bersonau eraill fynd gyda'r person sy'n arfer y pŵer mynediad? Yn absenoldeb darpariaeth ddatganedig, mae'n annhebygol y byddai pŵer i'r person fynd â phersonau eraill gydag ef yn bŵer ymhlyg oni bai bod eu presenoldeb yn rhan angenrheidiol o arfer y pŵer neu ei fod fel arall yn amlwg wedi ei rag-weld gan y pŵer.

- Os yw personau sy'n dod ynghyd i gael eu caniatáu, beth yw eu rôl i fod? I ba raddau yn dylid manylu ar hyn? Yn benodol, a ddylai fod yn ofynnol i bersonau sy'n dod ynghyd fod yn bersonau o fath penodol (e.e., cwnstablau neu fathau penodol o arolygydd), ynteu a allant fod yn unrhyw un y mae'r person sy'n arfer y pŵer yn meddwl ei fod yn briodol? Pan fo'r pŵer i fod yn arferadwy drwy warant, a ddylai fod yn wir mai dim ond os yw wedi ei awdurdodi i wneud hynny gan y warant y caiff y person sy'n arfer y pŵer ddod â phobl eraill gydag ef (ac a ddylai fod rhaid i'r warant enwi'r person, neu'r math o berson, a gaiff ddod gydag ef)?

5.3 Pa eiddo (pa fangreoedd) y dylai'r pŵer ei rychwantu (eu rychwantu)?

- Os yw'r pŵer i fod yn arferadwy mewn perthynas â "mangreoedd", a oes angen dweud unrhyw beth am ystyr y gair hwnnw yn ei gyd-destun penodol? Gall fod angen rhoi sylw penodol i'r cwestiwn a ddylid cynnwys cerbydau neu gychod neu longau.
- Yn benodol, a fwriedir cael unrhyw reolau arbennig mewn perthynas ag anheddau preifat (neu fathau penodol eraill o fangreoedd sy'n berthnasol i'r cyd-destun)? A ddylai'r pŵer gwmpasu eiddo'r Goron?
- Yn achos gwarant, a ddylai fod ar gyfer mangreoedd penodedig ynteu a ddylai (yn eithriadol) fod ar gyfer "pob mangre" (gweler adran 8(1A) o Ddeddf PACE ac Erthygl 10(1A) o Orchymyn PACE)?
- A ddylai fod unrhyw gyfyngiadau daearyddol ar y pŵer mynediad (e.e., a yw pŵer a roddwyd i awdurdod lleol i fod yn arferadwy mewn perthynas â mangreoedd yn ardal yr awdurdod yn unig)?

5.4 Ar ba amser o'r dydd y dylai'r pŵer fod yn arferadwy?

- A ddylai'r pŵer fod yn arferadwy ar unrhyw amser? Ynteu ar adeg resymol yn unig? Neu ar adeg resymol *onid* yw'n ymddangos y gallai diben y mynediad gael ei lesteirio os câi ei arfer ar adeg resymol?

5.5 A ddylai fod dyletswydd i ddangos y warant neu dystiolaeth arall am yr awdurdod ar gyfer arfer y pŵer?

- Yn achos pŵer sy'n arferadwy drwy warant, a ddylai fod dyletswydd i ddangos y warant neu gopi ohoni a/neu ddogfennaeth arall i feddiannydd y fangre? Os felly, ai dim ond pan fydd cais am ddangos un neu ragor o'r rhain y mae'r ddyletswydd honno i godi (ynneu, i'r gwrthwyneb, hyd yn oed yn absenoldeb cais)?
- Yn achos pŵer sy'n arferadwy heb warant, a ddylai fod gofyniad i ddangos dogfennaeth (megis awdurdod ysgrifenedig i arfer y pŵer, neu ddull adnabod)? Os felly, ai dim ond pan fydd cais am ei dangos y dylai'r ddyletswydd hon godi?

5.6 A ddylid caniatáu i rym gael ei ddefnyddio wrth arfer y pŵer?

- A ddylai unrhyw beth gael ei ddweud am ddefnyddio grym (gan gofio bod y gyfraith yn aneglur ynghylch a ganiateir grym yn absenoldeb geiriau i'r perwyl hwnnw)?
- Yn achos gwarantau, ai dim ond os yw hynny wedi ei grybwyll yn y warant y dylid awdurdodi defnyddio grym? Ynteu a ddylid awdurdodi defnyddio grym (drwy eiriau yn y statud) ar sail gwarant sy'n dweud dim amdano?

5.7 A ddylai fod pŵer datganedig i ganiatáu cymryd cyfarpar i'r fangre?

- Pa gyfarpar a allai fod yn angenrheidiol neu'n ddymunol at y diben y mae angen cael y mynediad ar ei gyfer?
- A oes angen dweud unrhyw beth i ganiatáu dod â'r cyfarpar hwnnw i'r fangre? (Nid yw hynny'n debyg o fod yn angenrheidiol ac eithrio os gallai'r pŵer mynediad olygu defnyddio cyfarpar sylweddol a fyddai'n amharu'n sylweddol ar hawliau'r meddiannydd uwchlaw'r hyn a fyddai fel arfer yn gysylltiedig â mynediad o'r fath.)

5.8 A ddylai fod unrhyw bwerau cysylltiedig, megis pŵer i'w gwneud yn ofynnol i'r meddiannydd ddangos dogfennau neu eitemau eraill, neu ei gwneud yn ofynnol i faterion gael eu hesbonio, neu i ganiatáu ymfael mewn eiddo?

A oes angen darpariaeth ddatganedig am unrhyw un neu ragor o'r canlynol:

- Pŵer i archwilio/mesur/samplu unrhyw "eitemau" neu "bethau".
- Pŵer i archwilio "dogfennau" (neu "gofnodion", os yw hynny'n ychwanegu unrhyw beth) a chymryd copïau neu ddyfyniadau ohonynt.
- Pŵer i "ymafael" mewn eitemau neu bethau (a "mynd â hwy ymaith"? a'u "cadw"?).
- Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i eraill ddarparu esboniad am ddogfennau (neu unrhyw beth arall).
- Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i eraill roi cymorth.
- Y modd y mae unrhyw un neu ragor o'r bwerau uchod yn gweithredu mewn perthynas â chyfrifiaduron a chyfarpar TG (gan gynnwys yr angen posibl am bŵer i'w gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth gael ei throsi i ffurf weladwy a darllenadwy, a'i gwneud yn bosibl i fynd â hi ymaith).

5.9 Os oes pŵer i chwilio am ddeunydd neu i ymfael ynddo, a ddylai unrhyw ddeunydd gael ei eithrio rhag yr arfer o'r pŵer hwnnw?

- Er enghraifft, a ddylai'r pŵer eithrio deunydd sydd (yng Nghymru a Lloegr neu Ogledd Iwerddon) yn ddarostyngedig i fraint broffesiynol gyfreithiol neu (yn yr Alban) yn ddeunydd y gellid cynnal hawliad cyfrinachedd cyfathrebu mewn cysylltiad ag ef?

5.10 Os dylai fod yn bosibl ymfael mewn eiddo, beth sydd i ddigwydd iddo?

- Pan roddir pŵer i ymfael mewn eitemau ychwanegir bron yn ddieithriad ryw ddarpariaeth am beth sydd i ddigwydd iddynt wedyn.
- Llywodraethir eiddo y mae'r heddlu wedi ymfael ynddo, yng Nghymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon, gan adran 22 o Ddeddf PACE ac Erthygl 24 o Orchymyn PACE a chan Ddeddf yr Heddlu (Eiddo) 1897 ac, yn yr Alban, gan y gyfraith gyffredin (gweler hefyd adran 3l o Ddeddf Dioddefwyr a Thystion (Yr Alban) 2014).
- Pan fo personau ac eithrio'r heddlu wedi ymfael mewn eiddo, gwneir fel arfer ddarpariaeth ddatganedig sy'n atgynhyrchu o leiaf rywfaint o effaith adran 22 o Ddeddf PACE ac erthygl 24 o Orchymyn PACE.

- Un posibilrwydd yw darpariaeth “y caniateir i unrhyw beth yr ymafaelwyd ynddo neu yr eir ag ef ymaith o dan [y pŵer hwn] gael ei gadw am gyhyd ag y bo angen o dan yr holl amgylchiadau”.
- Mae darpariaethau eraill yn cyfeirio’n bendant at ddefnydd fel tystiolaeth mewn treial am drosedd berthnasol a/neu archwiliad fforensig neu ar gyfer ymchwiliad mewn cysylltiad â throsedd berthnasol.
- Mae hyn wedi ei gyfuno’n aml ag amod pan na fo angen yr eitem ei hun, er enghraifft: “ni chaniateir i unrhyw eitem gael ei gadw at [y dibenion hynny] os byddai ffotograff neu gopi yn ddigon [atynt]”.
- Fel arall, gall fod dyletswydd amodol i ddychwelyd eitemau.
- Ambell dro, mae pŵer i ddistrywio pethau yr ymafaelwyd ynddynt, (e.e. nwyddau darfodus), er bod rhaid cymryd gofal fan hyn i sicrhau cydweddoldeb â’r hawliau yn y ECHR.

5.11 A ddylai fod rhwymedigaeth i ailddiogelu’r fangre rhag tresmaswyr?

- A ddylai’r ddeddfwriaeth gynnwys darpariaeth sy’n ei gwneud yn ofynnol i fangre heb ei meddiannu gael ei gadael “wedi ei diogelu yr un mor effeithiol rhag tresmaswyr [neu fynediad anawdurdodedig] ag yr oedd pan aeth y person sy’n arfer y pŵer iddi” (neu eiriau eraill ag effaith debyg)?
- Gellir trin y ffaith bod y rhwymedigaeth hon wedi ei chynnwys fel mynegiant bod caniatâd i rym gael ei ddefnyddio wrth arfer y pŵer (oherwydd os nad oes angen grym i fynd i mewn i eiddo, nid yw’n ddiogel rhag tresmaswyr). Os y polisi yw na chaniateir i rym gael ei ddefnyddio i arfer pŵer penodol, yna dylid cynnwys y ddarpariaeth hon gyda gofal (os dylid ei chynnwys o gwbl).
- Bron yn ddieithriad, dim ond pan fydd y fangre yn wag adeg mynd i mewn iddi y gosodir y rhwymedigaeth. (Mae hyn yn awgrymu mai ei diben yw atal mynediad pellach gan bersonau anawdurdodedig yn hytrach na digolledu perchennog yr eiddo am ddifrod i’r eiddo.)

5.12 A ddylai fod sancsiwn am rwystro pŵer mynediad (neu bwerau cysylltiedig) rhag cael ei arfer (eu harfer)?

- Pa sancsiwn, os o gwbl, y dylai meddiannydd mangre ei wynebu am rwystro pŵer mynediad rhag cael ei arfer neu fethu â chydymffurfio â gofynion sy’n gysylltiedig â phŵer o’r fath? Bydd angen i hyn gael ei ystyried ochr yn ochr â’r cwestiwn a ganiateir i rym gael ei ddefnyddio wrth arfer y pŵer (oherwydd os na chaniateir grym, efallai mai’r unig ddull o sicrhau bod y pŵer yn effeithiol yw’r sancsiwn am rwystro).
- Pan fo’r pŵer mynediad wedi ei roi i gwnstabl, nid oes angen unrhyw ddarpariaeth arbennig: mae’n drosedd ym mhob awdurdodaeth yn y DU i rwystro cwnstabl yn fwriadol wrth iddo gyflawni ei ddyletswydd, neu berson sy’n cynorthwyo cwnstabl wrth iddo gyflawni ei ddyletswydd.
- Mae rhai pwerau a roddir i bersonau ac eithrio cwnstablau yn cynnwys darpariaethau sy’n ei gwneud hi’n drosedd i rwystro’r personau hynny wrth iddynt arfer y pŵer.
- Mae nifer o ddarpariaethau statudol yn rhoi i rywun sy’n mynd i mewn i fangre bŵer i’w gwneud yn ofynnol i bersonau yn y fangre eu cynorthwyo mewn amryw o ffyrdd. Mewn achosion o’r fath, bydd angen ystyried a ddylai unrhyw sancsiwn cyffredinol am “rwystro” pŵer rhag cael ei arfer fod yn gymwys i wrthodiad i roi’r cymorth y gofynnwyd amdano ac, os na, a ddylai fod sancsiwn ar wahân am fethu â rhoi’r cymorth y gofynnwyd amdano.

5.13 A ddylid dweud unrhyw beth am effaith methiant gan y person sy’n arfer pŵer i gydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o’r gofynion ynglŷn â’i arfer?

- Bydd mynediad i fangre nad yw wedi ei awdurdodi drwy warant neu ddarpariaeth statudol (neu drwy gydsyniad y perchennog/ meddiannydd) yn anghyfreithlon ac yn dresmasiad cyfreithadwy.
- Ond pan fo mynediad i bob golwg wedi ei awdurdodi drwy warant neu statud, beth petai toriad o un neu ragor o’r gofynion statudol – er enghraifft, os nad yw’r weithdrefn ar gyfer gwneud cais am warant wedi ei dilyn yn gywir, neu fod tystiolaeth am awdurdodiad heb ei dangos i’r meddiannydd? A ddylai hynny wneud yr holl broses o arfer y pŵer yn anghyfreithlon?

- Ni ellir rhagfynegi'n hyderus sut y byddai'r llysoedd yn ymdrin â deddfwriaeth sy'n dweud dim am y pwynt, ac felly mae'n bosibl y byddai gwneud darpariaeth ddatganedig ynglŷn â chanlyniadau torri unrhyw un neu ragor o'r gofynion yn arwain at fwy o sicrwydd. Ond mae angen bod yn ofalus ynghylch ehangder unrhyw ddarpariaeth ddatganedig sy'n dilysu rhywbeth a fyddai fel arall yn afreolaidd.

5.14 A oes angen dweud unrhyw beth arall?

Er enghraifft, ynghylch:

- Gwneud a chadw cofnodion sy'n ymwneud â'r mynediad.
- Dychwelyd y warant i'r llys a'i dyroddodd. Mae rhai darpariaethau yn ei gwneud yn ofynnol i'r warant gael ei dychwelyd i'r llys a'i dyroddodd pan fydd wedi dirwyn i ben neu wedi ei gweithredu, er nad yw diben y math hwn o ddarpariaeth yn hollol eglur.
- Digollediad pan fo tir neu eiddo wedi ei ddifrodi wrth arfer y pŵer (onid yw'r difrod efallai yn ganlyniad i weithredoedd y perchennog neu'r meddiannydd).

Engbreiffiau o'r datrysiad deddfwriaethol

- *Deddf Gemau'r Gymanwlad Birmingham 2020* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2020/10/contents), adran 20 ac Atodlen 3 (yn cymhwyso Atodlen 5 i Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015, ac yn ei haddasu)
- *Deddf Refferenda (Yr Alban) 2020* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2020/2/contents), Atodlen 4 (pwerau ymchwilio y Comisiwn Etholiadol – sy'n ymwneud yn bennaf â dogfennau a gwybodaeth)
- *Deddf Pencampwriaethau Ewropeaidd UEFA (Yr Alban) 2020* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2020/1/contents), adrannau 17 i 29
- *Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020* (www.legislation.gov.uk/cy/asc/2020/2/contents/enacted/welsh), yr Atodlen
- *Deddf Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau 2019* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2019/24/contents), yr Atodlen
- *Deddf Arfau Ymosodol 2019* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2019/17/contents), adran 64 (yn cymhwyso Atodlen 5 i Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015)
- *Deddf Ffioedd Tenantiaid 2019* (<https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2019/4/contents>), adrannau 6, 7 a 26(9) a (10) (yn cymhwyso Atodlen 5 i Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015)
- *Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch y Ffin 2019* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2019/3/contents), adran 13 (a fewnosododd adran 56A i Ddeddf Gwrthderfysgaeth 2008) ac Atodlen 3, Rhan 1
- *Deddf Trafnidiaeth (Yr Alban) 2019* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2019/17/contents), adrannau 85 i 88, ac adran 110 (a fewnosodd adrannau 18A i 18F i Ddeddf Trafnidiaeth (Yr Alban) 2005)
- *Deddf Ifori 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2018/30/contents), adrannau 14 i 33 ac Atodlen 2
- *Deddf Diogelu Data 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2018/12/contents), Atodlen 15
- *Deddf Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Yr Alban) 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2018/3/contents), Atodlen 1
- *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2018/5/contents/enacted/welsh), adrannau 13 i 20
- *Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/29/contents), adran 61 ac Atodlen 5
- *Deddf Eiddo Diwylliannol (Gwrthdaro Arfog) 2017* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/6/contents), adrannau 23 i 27
- *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/2/contents/enacted/welsh) Rhannau 3 i 5
- *Deddf Tai a Chynllunio 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2016/22/contents), Rhan 7
- *Deddf Sylweddau Seicoweithredol 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2016/2/contents), adrannau 36 i 54 ac Atodlen 3
- *Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/contents/enacted/welsh), Rhan 4, Penodau 4 a 5
- *Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/2/contents/enacted/welsh), Rhan 1, Pennod 3
- *Deddf Tai Amlfeddiannaeth (Gogledd Iwerddon) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2016/22/contents), adrannau 78 i 80
- *Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2015/15/contents), Atodlen 5
- *Deddf Cyllid yr Alban a Phwerau Trethi 2014* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2014/16/contents), Rhan 7
- *Deddf Tai (Yr Alban) 2014* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2014/14/contents), adrannau 53 i 56

8 Troseddau

Mae'r datrysiad deddfwriaethol hwn yn creu trosedd i gosbi gweithgarwch penodol neu fethiant i wneud rhywbeth.

Disgrifiad o'r datrysiad deddfwriaethol

Mae'r datrysiad yn cynnwys gwneud gweithred, anwaith neu batrwm o ymddygiad penodol yn gosbadwy mewn llys troseddol.

Efallai mai nod y polisi yw:

- gwrthannog ymddygiad penodol drwy ei wneud yn gosbadwy fel trosedd;
- annog ymddygiad penodol drwy ddarparu bod methiant i wneud hynny yn gosbadwy fel trosedd.

Mae i ddarpariaeth sy'n creu trosedd bedair elfen allweddol:

- disgrifiad penodol o'r ymddygiad gwaharddedig (gweithred, anwaith neu batrwm o ymddygiad, a all hefyd gynnwys disgrifiad o'r hyn oedd ym meddwl y sawl a'i cyflawnodd);
- datganiad bod yr ymddygiad gwaharddedig yn drosedd;
- datganiad am y gosb am gyflawni'r drosedd;
- datganiad am y llys lle y gellir rhoi'r drosedd ar brawf (dull treial).

Gall hefyd gynnwys pumed elfen: amddiffyniad. Mae amddiffyniad yn disgrifio'r amgylchiadau lle nad yw person yn euog o drosedd er iddo gyflawni'r ymddygiad gwaharddedig.

Yn hytrach na chreu trosedd gwbl newydd, efallai mai nod y polisi yw addasu trosedd sy'n bodoli eisoes neu ychwanegu elfennau eraill ati, er enghraifft drwy addasu'r gosb neu roi pwerau gwahanol neu ychwanegol i lys ar ôl euogfarnu person am y drosedd.

Mae'r fersiwn hon o'r datrysiad hwn wedi ei hanelu'n benodol at swyddogion Llywodraeth Cymru, ac mae'n adlewyrchu'r graddau cyfyngedig y mae'r system gyfiawnder troseddol wedi ei datganoli yng Nghymru iddynt.

Cymhwysedd deddfwriaethol a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Gall Deddf gan y Senedd greu trosedd newydd, addasu trosedd sy'n bodoli eisoes, pennu'r gosb a rhoi pwerau i'w gorfodi. Fodd bynnag, nid oes gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaeth gyffredinol ynglŷn ag ymchwilio i droseddau, achosion troseddol na dedfrydu ac ni all ychwaith addasu'r rheolau cyfreithiol cyffredinol sy'n gymwys yn gyffredinol i droseddau yng Nghymru a Lloegr.

Er mwyn bod o fewn cymhwysedd mae'n rhaid i Ddeddf gan y Senedd hefyd fod yn gyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Gall cynigion ar gyfer troseddau newydd gysylltu ag Erthyglau gwahanol y Confensiwn, yn enwedig mewn perthynas ag Erthyglau 6 (yr hawl i wrandawriad teg) a 7 (dim cosb heb gyfraith).

Gall cyfreithwyr gynghori ynghylch a yw'r troseddau arfaethedig a'r darpariaethau cysylltiedig sy'n dilyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol.

Effaith ar y system gyfiawnder

Mae diwygio trosedd sy'n bodoli eisoes neu greu trosedd newydd yn debygol o effeithio ar y system gyfiawnder. Bydd y drosedd nid yn unig yn effeithio ar y personau a gyhuddir o'r drosedd, ond bydd hefyd yn effeithio ar y cyrff sy'n debygol o ymchwilio i'r drosedd, y personau sy'n debygol o'i hamddiffyn a'i herlyn, y llysoedd sy'n debygol o ddelio â'r drosedd a'r rhai sy'n gyfrifol am oruchwylio dedfrydau. Felly, bydd angen ystyried effaith debygol y ddarpariaeth newydd a'r costau cysylltiedig, ac ymgynghori yn unol â hynny.

Datrysiadau deddfwriaethol cysylltiedig

Cyn penderfynu mai trosedd newydd yw'r datrysiad priodol, ystyriwch a allai opsiwn gorfodi sifil (er enghraifft, cosbau ariannol sifil) fod yn ffordd fwy cost-ffeithiol a chyflymach o ymdrin â'r ymddygiad y bwriedir i'r drosedd arfaethedig fynd i'r afael ag ef. Gweler y datrysiad deddfwriaethol sy'n ymwneud â **sanctsiynau sifil**.

Ystyriwch hefyd y datrysiad deddfwriaethol sy'n ymwneud â thrwyddedu. Ffordd arall o ddelio â'r gweithgarwch yw darparu mai dim ond yn unol â thrwydded y gellir ymgymryd â gweithgarwch. Gellir rheoleiddio'r gweithgarwch yn hytrach na'i wahardd yn gyfan gwbl; ond bydd rhaid cael dull i orfodi'r gyfundrefn drwyddedu lle mae gweithgareddau yn cael eu cyflawni heb drwydded neu'n groes i drwydded, a all olygu creu troseddau neu greu sanctsiynau eraill (megis sanctsiynau sifil).

Gellir hefyd ategu trosedd newydd gan ddefnyddio datrysiadau deddfwriaethol eraill: gweler y datrysiadau sy'n ymwneud â hysbysiadau cosb benodedig a phwerau mynediad, archwilio, chwilio ac atafaelu.

Elfennau'r datrysiad deddfwriaethol

1. Y strategaeth orfodi

- 1.1 Sut y bwriedir i'r drosedd gyd-fynd â'r strategaeth gyffredinol ar gyfer ymdrin â'r ymddygiad sydd i'w gwneud yn drosedd?
- 1.2 A fwriedir i'r drosedd fodoli ochr yn ochr â phŵer statudol sydd yn ei gwneud yn ofynnol i berson wneud rhywbeth neu beidio â gwneud rhywbeth (er enghraifft, pŵer i roi hysbysiad, lle mae'r drosedd yn ymdrin ag achosion o fynd yn groes i'r hysbysiad hwnnw)?
- 1.3 A fwriedir sefydlu cyfundrefn o sanctsiynau sifil mewn rhai achosion o'r ymddygiad gwaharddedig, gyda'r ymddygiad ond yn drosedd erlynadwy o dan amgylchiadau penodol, er enghraifft, pan fydd yr ymddygiad yn cael ei ailadrodd neu pan fydd yn ddifrifol? (Noder y gall fod angen darpariaeth i osgoi'r posibiliad o allu cosbi person drwy gosb sifil a chosb droseddol am yr un ymddygiad.)

- 1.4 A yw'r ymddygiad i fod yn gosbadwy drwy drosedd, ond y gall y person osgoi atebolrwydd troseddol drwy dalu cosb?

2. A oes angen trosedd newydd?

- 2.1 Dim ond pan fo hynny'n ymateb cymesur ac angenrheidiol i'r broblem a nodwyd y dylid creu trosedd newydd.
- 2.2 Ystyriwch pa droseddau cyfraith gyffredin neu droseddau statudol sy'n bodoli eisoes i gosbi'r ymddygiad. A oes trosedd sy'n bodoli eisoes sy'n ymdrin â'r ymddygiad, neu ag elfennau o'r ymddygiad?
- 2.3 Dylid osgoi trosedd newydd sy'n gwahardd ymddygiad sydd eisoes yn drosedd. Os yw trosedd sy'n bodoli eisoes yn ymdrin â'r un math o ymddygiad ond nad yw'n hollol addas, pam ystyrir hi'n annigonol? Er enghraifft, mae nifer o droseddau cyffredinol sy'n bodoli eisoes sy'n ei gwneud yn drosedd i wneud datganiadau anwir:
 - adran 2 o **Ddeddf Twyll 2006** (www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/35/contents) (ymhoni'n anwir drwy anonestrwydd), adran 3 o'r Ddeddf honno (methu â datgelu gwybodaeth yn anonest), neu adran 11 o'r ddeddf honno (cael gwasanaethau'n anonest);
 - adran 3 o **Ddeddf Ffugiadau a Drwgfathu 1981** (www.legislation.gov.uk/ukpga/1981/45/contents) (defnyddio offeryn sy'n ffug, gyda'r bwriad o gymell rhywun i'w dderbyn fel rhywbeth dilys);
 - adran 17 o **Ddeddf Dwyn 1968** (www.legislation.gov.uk/ukpga/1968/60/contents) (ffugio'n anonest ddogfen sy'n angenrheidiol at ddiben cyfrifyddu);
 - adran 5 o **Ddeddf Anudon 1911** (gwneud datganiad anwir yn ymwybodol ac o fwriad mewn dogfen y mae'n ofynnol ei wneud o dan Ddeddf Seneddol). Ceir hefyd ystyriaethau o ran cymhwysedd deddfwriaethol os bwriedir creu neu addasu trosedd sy'n gorgyffwrdd â throsedd o dan Ddeddf Anudon 1911.
- 2.4 A pham mai trosedd newydd yw'r datrysiad a ffefrir? A fyddai diwygio trosedd sy'n bodoli eisoes yn cyflawni'r nod polisi? Neu ddiwygio'r gosb am drosedd sy'n bodoli eisoes?

3. Pa ymddygiad y dylid ei gwneud yn drosedd?

3.1 Pa fath o ymddygiad yn union rydych yn bwriadu ei wneud yn drosedd? Mae'n rhaid i'r ymddygiad sy'n gyfystyr â throsedd gael ei ddisgrifio mor benodol â phosibl. Gallai unrhyw ansicrwydd yn y disgrifiad o'r ymddygiad achosi risg o anghyfiawnder: mae angen i bobl allu gwybod sut i reoli eu hymddygiad er mwyn osgoi cyflawni trosedd; mae angen i ddiffynyddion a'r rhai sy'n eu hamddiffyn allu deall natur y drosedd y maent wedi cael eu cyhuddo ohoni; ac mae angen i swyddogion ymchwilio, erlynwyr a llysoedd fod yn glir ynglŷn â'r ymddygiad sy'n gyfystyr â throsedd.

3.2 Meddyliwch am yr amgylchiadau lle y byddai'r drosedd yn cael ei chyflawni:

- os mai gweithred untro yw'r drosedd, a yw'r ymddygiad sy'n gyfystyr â throsedd yn gymharol hawdd ei adnabod?
- os yw'r drosedd yn cynnwys peidio â gwneud rhywbeth (er enghraifft, peidio â chydymffurfio â gofyniad statudol), pryd y bydd y diffyg gweithredu yn gyfystyr â chyflawni trosedd? Ai dim ond ar ôl i gyfnod o amser ddod i ben, er enghraifft cyfnod a roddwyd i gydymffurfio â gofyniad mewn hysbysiad, y bydd yr ymddygiad yn mynd yn drosedd?
- os yw'r drosedd yn cynnwys patrwm o ymddygiad, pryd y bydd yr ymddygiad yn gyfystyr â throsedd? Ai dim ond ar ôl nifer penodol o achosion y bydd yr ymddygiad yn drosedd?

3.3 A yw'r drosedd hefyd wedi'i bwriadu i ddal pobl nad ydynt yn cyflawni'r gweithredoedd niweidiol dan sylw eu hunain ond sy'n cymryd rhan mewn rhyw ffordd arall, megis pobl sydd "yn achosi neu'n caniatáu" i weithred niweidiol ddigwydd?

3.4 Pan fydd y drosedd yn ymwneud â chydymffurfiaeth â gofynion neu waharddiadau, a fwriedir i unrhyw achos o'u torri fod yn gyfystyr â throsedd? Os bwriedir i'r drosedd fod wedi'i chadw ar gyfer achosion "difrifol" neu "mynych", pryd y bydd yr ymddygiad yn gyfystyr â throsedd?

4. Pa elfen feddyliol (os o gwbl) sy'n angenrheidiol i gyflawni'r drosedd?

4.1 A oes angen elfen feddyliol benodol er mwyn cyflawni'r drosedd? Ystyriwch bob elfen o'r ymddygiad sy'n gyfystyr â'r drosedd a phenderfynwch pa elfen feddyliol ddylai fod yn gysylltiedig â pha elfen. Er enghraifft:

- mae'r person yn ymwybodol o fater penodol;
- mae'r person yn credu bod mater penodol yn wir neu'n amau bod y mater yn wir;
- mae'r person yn bwriadu sicrhau canlyniad penodol;
- mae'r person yn ddi-hid o ran a yw canlyniad penodol yn cael ei sicrhau.

4.2 Gall trosedd gynnwys elfen feddyliol wrthrychol neu oddrychol neu gyfuniad o'r ddau, er enghraifft:

- drwy gyfeirio at yr hyn y byddai person rhesymol wedi'i wneud;
- drwy gyfeirio at yr hyn roedd y sawl a ddrwgdybir yn ei wybod neu y dylai fod wedi'i wybod.

4.3 Efallai y bydd yr elfen feddyliol yn gofyn am elfen o fai yn hytrach na chyflwr meddwl, er enghraifft bod yn ddiotal ynghylch cymryd risg na ellir ei chyfiawnhau neu fethiant i gymryd "camau rhesymol".

4.4 Mae rhai darpariaethau yn cymhwysu trosedd drwy ei gwneud yn amddiffyniad i'r person a gyhuddir ddangos nad oedd yn meddu ar wybodaeth am elfen benodol o'r ymddygiad neu na ellid bod wedi disgwyl iddo feddu ar wybodaeth am elfen benodol o'r ymddygiad. Mewn achosion o'r fath, mae'r elfen feddyliol yn ymddangos yn yr amddiffyniad yn hytrach na bod yn rhan o'r drosedd. Ai hynny sydd ei eisiau? (Gweler paragraff 9 am ragor o wybodaeth am amddiffyniadau).

4.5 Mae deddfwriaeth yn tueddu i gynnwys termau cyffredin a thermau sefydledig am elfennau meddyliol troseddau, er enghraifft, "gan wybod" ("*knowingly*"), "yn anonest" ("*dishonestly*"), "yn ddi-hid" ("*recklessly*"), neu "yn fwriadol" ("*intentionally*"). Mae corff o gyfraith achosion wedi ei ddatblygu ar ddechongli'r termau hyn yn y Saesneg

ac os cânt eu defnyddio mewn trosedd newydd maent yn debygol o gael eu dehongli yng ngoleuni'r achosion hynny. Dylai cyfreithwyr fod mewn sefyllfa i roi cyngor ar hyn.

- 4.6 Ai'r bwriad yw na fydd y drosedd yn cynnwys unrhyw elfen feddyliol (hynny yw, mae'n cael ei chyflawni ni waeth beth mae person yn gwybod neu'n meddwl ei fod yn ei wneud)? Weithiau, gall hyn fod yn briodol ar gyfer troseddau technegol neu reoleiddiol⁸, troseddau sydd â chosbau cymharol fach, neu droseddau lle mae risg i ddiogelwch y cyhoedd.

5. Pwy sydd â'r gallu i gyflawni'r drosedd?

- 5.1 A all unrhyw berson fod â'r gallu i gyflawni'r drosedd? Neu dim ond categorïau penodol o bobl (er enghraifft, deiliaid trwydded, pan fydd y drosedd yn cynnwys gwneud rhywbeth sy'n torri amodau'r drwydded, neu berson sy'n gofalu am blentyn neu am berson sy'n agored i niwed)? A oes categorïau penodol o bobl na allant gyflawni'r drosedd?
- 5.2 A all person o dan 18 oed gyflawni'r drosedd? Os felly, beth yw'r isafswm oedran? (Oedran ieuengaf cyfrifoldeb troseddol yng Nghymru a Lloegr yw 10 oed.)
- 5.3 A yw cwmnïau, partneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig yn gallu cyflawni'r drosedd, neu dim ond unigolion? Os gall corfforaeth gyflawni'r drosedd, mae'n arferol darparu ar gyfer atebolrwydd troseddol cyfarwyddwyr ac uwch-swyddogion eraill y gorfforaeth, fel y gellir eu herlyn yn ogystal â'r gorfforaeth.
- 5.4 Os gall partneriaeth neu gorff anghorfforedig gyflawni'r drosedd, fel arfer, bydd angen darpariaeth benodol i nodi hynny'n glir. Os bwriedir i bartneriaid unigol, neu uwch-swyddogion y gymdeithas anghorfforedig, fod yn atebol am y drosedd yn ogystal â'r bartneriaeth, bydd angen darpariaeth benodol hefyd.

6. Ble y gellir cyflawni'r drosedd?

- 6.1 A oes modd cyflawni'r drosedd y tu allan i Gymru? Ar y cyfan, ni all Senedd Cymru ddeddfu ac eithrio mewn perthynas â Chymru (mae ambell i eithriad cyfyngedig ar gyfer darpariaethau ategol penodol), felly os bydd modd cyflawni trosedd syn cael ei chreu drwy Ddeddf gan Senedd Cymru y tu allan i Gymru, bydd angen ystyried sut i sicrhau bod y drosedd yn ymwneud â Chymru.
- 6.2 Pan fo'r drosedd yn gyfanwaith o nifer o elfennau gwahanol, efallai y bydd angen sicrhau bod rhai neu bob un ohonynt yn digwydd yng Nghymru er mwyn creu'r cysylltiad angenrheidiol.⁹ Mae'n debygol y bydd mwy nag un ffordd o sefydlu perthynas ddigonol â Chymru. Gan mai mater o gymhwysedd deddfwriaethol sydd dan sylw, bydd angen cyngor cyfreithiol i nodi'r opsiynau sydd ar gael.

7. Atebolrwydd eilaidd

- 7.1 Pan gaiff trosedd newydd ei chreu, nid oes angen dweud dim byd rhagor i'w gwneud yn bosibl i gyflawni'r drosedd fel affeithiwr ac nid oes angen cosb ychwanegol.
- 7.2 Pan gyflawnir trosedd, gall person fod yn euog o'r drosedd fel prif droseddwr neu fel affeithiwr. Person sy'n helpu, yn annog, yn cynghori neu'n peri cyflawni trosedd, a oedd yn bwriadu helpu, annog, cynghori neu beri cyflawni'r drosedd ac a oedd yn gwybod am elfennau hanfodol y drosedd yw affeithiwr.
- 7.3 A yw'r posibilrwydd o gyflawni'r drosedd fel affeithiwr wedi'i hepgor? Os felly, unwaith eto, bydd angen darpariaeth benodol.

8. Ymgeisiadau

- 8.1 A oes modd cyflawni'r drosedd pan fydd yr ymddygiad sy'n gyfystyr â throedd yn ymgais ond nad yw wedi'i chyflawni na'i chwblhau?

⁸ Fel arfer, mae trosedd reoleiddiol yn torri dyletswydd a osodwyd mewn gweithgarwch arbenigol. Mae enghreifftiau o'r gweithgareddau'n cynnwys ffermio, lles anifeiliaid, diogelwch bwyd, gwaredu gwastraff, addysg neu drefniadau llywodraethu proffesiynau.

⁹ Gweler er enghraifft adran 2 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 (www.legislation.gov.uk/anaw/2018/5/section/2), O dan y ddeddf honno, y drosedd yw cyflenwi alcohol o fangreoedd yng Nghymru, neu awdurdodi cyflenwi alcohol o fangreoedd yng Nghymru, am bris gwerthu sy'n is na'r isafbris cymwys am yr alcohol. Mae isadran (4) yn darparu ei bod yn "amherthnasol at ddbenion isadran (1)(b) a yw'r awdurdodiad yn digwydd yng Nghymru neu yn rhywle arall".

8.2 Wrth greu trosedd newydd sy'n drosedd neillfordd neu'n drosedd dditiadwy yn unig, fel rheol, ni fydd angen greu trosedd arall o ymgais i gyflawni'r drosedd honno.

8.3 Os mai trosedd ddiannod ydyw, bydd angen darpariaeth benodol. (Gweler paragraff 10 isod am ystyr troseddau "diannod", "neillfordd" a "ditiadwy yn unig".)

9. A fydd unrhyw eithriadau neu amddiffyniadau?

9.1 A oes eisiau amddiffyniad ar gyfer y drosedd? Dylid ei ddisgrifio mor benodol â'r drosedd ei hun. Er enghraifft, pan fydd y drosedd yn ymwneud â thorri dyletswydd benodol, gallai fod yn amddiffyniad i'r person a gyhuddir o gyflawni'r drosedd ddangos iddo gymryd camau rhesymol i osgoi ei thorri. Mae amddiffyniadau cyffredin yn cynnwys y canlynol:

- nid oedd y person yn gwybod ffaith benodol, neu nid oedd yn drwgdybio sefyllfa benodol;
- cymerodd y person bob rhagofal rhesymol;
- arferodd y person ddiwydrwydd dyladwy.

9.2 Fel arall, efallai y bydd eisiau amddiffyniad mwy penodol sy'n unigryw i'r drosedd.

9.3 Noder y bydd amddiffyniadau sydd ar gael yn gyffredinol yn y gyfraith droseddol (megis gorfodaeth neu hunanamddiffyn) hefyd yn gymwys i drosedd newydd lle y bo'n briodol.

9.4 A fydd unrhyw fath o eithriad sy'n darparu nad yw'r drosedd wedi'i chyflawni o dan amgylchiadau penodol?

9.5 Os bydd amddiffyniad neu eithriad i'r drosedd, pwy fydd yn gorfod profi hynny yn y llys? Yr erlyniad neu'r amddiffyniad? Bydd angen ceisio cyngor cyfreithiol ar unrhyw ddarpariaeth sy'n awgrymu ei bod yn ofynnol i'r diffynnydd profi ei fod yn ddieuog.

10. Ym mha lys y caiff y drosedd ei rhoi ar brawf (Dull treial)

10.1 Wrth greu trosedd newydd, bydd yn rhaid penderfynu ar y math o lys lle y bydd y drosedd yn cael ei rhoi ar brawf (dull treial). Yr opsiynau yw greu:

- "trosedd ddiannod", trosedd na ellir ei rhoi ar brawf ond yn y llys ynadon (gyda rhai eithriadau cyfyngedig), a elwir weithiau yn drosedd "ddiannod yn unig" neu'n "drosedd na ellir ei rhoi ar brawf ond yn ddiannod";
- "trosedd dditiadwy yn unig", trosedd na ellir ei rhoi ar brawf ond yn Llys y Goron (gyda rhai eithriadau cyfyngedig);
- "trosedd neillfordd", trosedd y gellir ei rhoi ar brawf naill ai yn y llys ynadon neu yn Llys y Goron, a elwir hefyd yn "drosedd y gellir ei rhoi ei brawf y gellir ei rhoi ar brawf naill ai ar ddiad neu'n ddiannod".

10.2 Ystyr ditiad yw dogfen sy'n cynnwys cyhuddiadau yn erbyn y diffynnydd sy'n sefyll prawf yn Llys y Goron. Ystyr "trosedd dditiadwy" yw trosedd, os y'i cyflawnir gan oedolyn, na ellir ei rhoi ar brawf ond yn Llys y Goron neu drosedd neillfordd (gweler y tabl yn Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 a paragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978).

10.3 Mae'r ystyriaethau allweddol sydd ynghlwm â phenderfynu ar y dull treial cymwys ar gyfer y drosedd yn cynnwys:

- beth fydd y gosb fwyaf a ddymunir ar gyfer y drosedd (a oes gan y llysoedd perthnasol y pŵer i'w gosod? Gweler paragraffau 12 ac 13);
- difrifoldeb y drosedd (ystyrir bod troseddau diannod yn unig yn llai difrifol, bod troseddau neillfordd yn fwy difrifol, ac mai troseddau dditiadwy yn unig yw'r troseddau mwyaf difrifol (megis llofruddiaeth) ac am y rheswm hwnnw eu bod yn brin iawn);
- cymhlethdod y drosedd, yr angen am dystiolaeth arbenigol gymhleth neu'r tebygolrwydd o dreial hir (gall hyn awgrymu y byddai trosedd neillfordd neu drosedd dditiadwy yn fwy priodol);

- a yw treial gerbron rheithgor ar gael am y drosedd? (Dim ond ar gael am droseddau neillffordd a ditiadwy yn unig.)

11. Y gosb am y drosedd – cyffredinol

- 11.1 Mae'n rhaid i'r gosb a ddymunir fod yn gymesur â'r drosedd a dylai fod yn gyson â throseddau tebyg. Y gosb fwyaf cyffredin am drosedd o dan Ddeddf gan Senedd Cymru yw dirwy. Dylai carchar gael ei gadw am y tramgwyddau mwyaf difrifol yn unig.
- 11.2 Mae'r Cod Dedfrydu yn Rhannau 2 i 13 o Ddeddf Dedfrydu 2020 yn cynnwys darpariaethau ynglŷn â'r dedfrydau a'r gorchmynion sydd ar gael yn gyffredinol i lys wrth iddo ymdrin â rhywun sydd wedi cael ei euogfarnu o drosedd. Noder bod mathau penodol o benderfyniadau – er enghraifft gorchmynion cymunedol, neu ddedfrydau gohiriedig – ar gael i lys o dan y Cod, heb fod angen gwneud darpariaeth benodol ar eu cyfer wrth greu trosedd newydd.
- ## 12. Dirwyon
- 12.1 Os bydd y drosedd yn gosbadwy drwy ddirwy, ai dirwy heb derfyn yw honno neu a oes uchafswm dirwy i fod ar gyfer y drosedd?
- 12.2 Os mai trosedd ddiannod yw'r drosedd a bod eisiau lefel uchaf dirwy, gellir disgrifio'r ddirwy fel un nad yw'n fwy na lefel 1, 2, 3 neu 4 ar raddfa safonol dirwyon (gweler adran 122 o'r Cod Dedfrydu ar gyfer uchafswm pob lefel). Mae disgrisiwn o hyd gan y llys wrth benderfynu swm priodol y gosb am yr achos penodol hyd at yr uchafswm ar gyfer pob lefel (a'i fod yn annhebygol o roi'r uchafswm hwnnw).
- 12.3 Os mai trosedd neillffordd yw'r drosedd, a oes unrhyw wahaniaethau rhwng y ddirwy y gellir ei rhoi ar ôl euogfarn yn y llys ynadon a'r ddirwy y gellir ei rhoi ar ôl euogfarn yn Llys y Goron? Nid yw "lefelau" dirwyon yn gymwys i droseddau neillffordd a ddedfrydir yn y llys ynadon na Llys y Goron ond gall darpariaeth ynglŷn â chosb gyfeirio at swm nad yw'n fwy na swm penodol. (Gellir ystyried ychwanegu darpariaeth ategol at ddarpariaeth o'r fath sy'n cynnig modd o addasu'r swm yn y dyfodol.)

- 12.4 Yn anaml, efallai y bydd y polisi yn gofyn am bŵer i osod cosbau dyddiol neu gyfnodol os bydd y drosedd yn parhau (er enghraifft, cosb ychwanegol am bob diwrnod ar ôl euogfarn y mae'r drosedd yn parhau).

13. Carcharu

- 13.1 A yw'r drosedd yn gosbadwy drwy garcharu? Os felly, dylai'r drosedd bennu'r tymor mwyaf sydd ar gael i'r llys wrth iddo ddedfrydu.
- 13.2 O ran trosedd ddiannod neu drosedd neillffordd sy'n cael ei dedfrydu yn y llys ynadon, ai'r tymor mwyaf am y drosedd yw'r tymor mwyaf y gall y llys hwnnw ei roi am unrhyw un drosedd benodol (6 mis ar hyn o bryd)? Neu a fydd y tymor mwyaf yn un byrrach, er enghraifft, tri mis?
- 13.3 Os mai trosedd neillffordd yw'r drosedd, pa wahaniaeth ddylai fod rhwng y cyfnod mwyaf o garchar y gellir ei roi am y drosedd os caiff ei dedfrydu yn y llysoedd ynadon a'r cyfnod mwyaf o garchar y gellir ei roi os caiff ei dedfrydu yn Llys y Goron?

14. Ffactorau perthnasol o ran dedfrydu; opsiynau dedfrydu penodol; effaith euogfarn

- 14.1 A oes angen ychwanegu'r drosedd at unrhyw ddarpariaeth bresennol yn y gyfraith droseddol gyffredinol fel bod yn rhaid i'r llys drin materion penodol fel ffactorau gwaethyngol wrth roi dedfryd am y drosedd? Gweler er enghraifft, o ran **wrth roi dedfryd am y drosedd? Gweler er enghraifft, o ran Cymru a Lloegr, adrannau 67 a 71 o'r Cod Dedfrydu** (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2020/17/group/SECOND/part/4/chapter/3/crossheading/aggravating-factors/enacted) (troseddau a gyflawnir yn erbyn gweithwyr brys a throseddau sy'n ymwneud â chyffuriau a gyflawnir yn agos at ysgolion).
- 14.2 A oes modd amddifadu'r troseddwr o eiddo penodol ar ôl cael ei euogfarnu (gorchmynion fforffedu, amddifadu, dinistrio)? Os felly, a oes modd gwneud hyn o dan y gyfraith bresennol neu a fydd angen pŵer ar wahân? Gweler **adran 153 o'r Cod Dedfrydu ac**

adrannau 160 a 161 o'r Cod Dedfrydu (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2020/17/section/153/enacted).

- 14.3 A ddylai fod modd gosod gorchymyn atafaelu o dan **Ddeddf Enillion Troseddau 2002 os caiff person ei euogfarnu o'r drosedd newydd** (www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/29/contents)? Os felly, ai "trosedd ffordd o fyw" ddylai fod? Yn y Ddeddf honno, gweler adran 75 ac Atodlen 2 (Cymru a Lloegr).
- 14.4 Os caiff person ei euogfarnu o drosedd, a ddylai gael ei anghymhwysu rhag gwneud rhywbeth? Er enghraifft, anghymhwysu fel cyfarwyddwr cwmni (gweler **adrannau 2 a 5 o Ddeddf Anghymhwysu Cyfarwyddwyr Cwmni 1986** (www.legislation.gov.uk/ukpga/1986/46/contents), anghymhwysu rhag dal rolau penodol, anghymhwysu rhag cadw anifeiliaid).
- 14.5 A ddylai euogfarn atal y troseddwr rhag cael mathau penodol o drwydded neu a ddylai'r troseddwr golli trwydded a oedd ganddo? Gweler, er enghraifft, y goblygiadau o dan **Ddeddf Trwyddedu 2003** (www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/17/contents) o gael eich euogfarnu o drosedd a restrir yn Atodlen 4 i'r Ddeddf honno; gweler yn benodol adrannau 113 a 129.

15. Sut y caiff y drosedd ei gorfodi?

- 15.1 Ystyriwch sut y bydd yr heddlu neu awdurdod gorfodi arall (megis awdurdod lleol) yn cael yr wybodaeth sydd ei hangen i fonitro ac ymchwilio a yw trosedd yn cael ei chyflawni. A oes angen pwerau ychwanegol i'w gwneud yn ofynnol i unigolion neu gyrrff penodol ddarparu gwybodaeth?
- 15.2 Ystyriwch bwerau arestio, pwerau mynediad, pwerau chwilio personau neu eiddo neu atafaelu eiddo (gweler y datrysiad deddfwriaethol sy'n ymwneud â **phwerau mynediad, archwilio, chwilio ac atafaelu**). A oes gan yr heddlu neu awdurdod gorfodi arall y pwerau angenrheidiol i orfodi'r drosedd? A fydd angen i'r ddeddfwriaeth ddarparu ar gyfer pwerau gorfodi newydd, neu addasu pwerau presennol?
- 15.3 A oes angen troseddau ychwanegol os na chaiff gwybodaeth na dogfennau eu cyflwyno?

- 15.4 Lle y bo'n berthnasol, ystyriwch a oes angen darpariaeth arbennig er mwyn cymryd camau gorfodi trawsffiniol, neu gamau gorfodi ar y môr neu yn yr awyr.

16. Tystiolaeth

- 16.1 A oes angen unrhyw ddarpariaethau arbennig mewn perthynas â thystiolaeth sydd i'w defnyddio i brofi ffeithiau penodol neu elfennau penodol o'r drosedd yn y llys? Mae rhai deddfiadau treth, er enghraifft, yn gofyn i'r llys drin y swm mewn tystysgrif a baratowyd gan yr awdurdod treth fel tystiolaeth derfynol o'r swm sy'n ddyledus, oni phrofir i'r gwrthwyneb.
- 16.2 Os bydd eisiau darpariaeth o'r fath, pwy sy'n rhoi'r dystysgrif? Pa ffeithiau yn union fydd y dystysgrif yn cyflwyno tystiolaeth yn eu cylch? Ai dim ond rhywbeth y caniateir i'r llys ei drin fel tystiolaeth o rywbeth yw'r dystysgrif, neu a ddylai fod yn ofynnol i'r llys ei thrin fel tystiolaeth ddigonol oni bai bod tystiolaeth i'r gwrthwyneb, neu hyd yn oed ei thrin fel prawf terfynol o'r ffeithiau dan sylw?
- 16.3 A oes eisiau darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i'r llys dybio materion penodol, neu ragdybio materion penodol os cyflwynir tystiolaeth benodedig? Gall rhagdybiaeth fod yn derfynol, neu gall fod modd ei gwrthbrofi drwy dystiolaeth.
- 16.4 A oes ffeithiau penodol nad ydynt yn farnadwy yn y llys troseddol (er enghraifft, materion na ellir penderfynu arnynt ond mewn llys sifil neu dribiwnlys arall)?

17. Erllyn y drosedd

- 17.1 Pwy y disgwylir iddynt erlyn y drosedd? Yng Nghymru a Lloegr, mae gan Wasanaeth Erllyn y Goron y pŵer i erlyn y rhan fwyaf o droseddau ond efallai y bydd y polisi yn gofyn am i'r drosedd gael ei herlyn gan awdurdod erlyn arall, er enghraifft awdurdodau lleol, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol neu awdurdod statudol penodedig.
- 17.2 Os yw'r polisi yn pennu awdurdod erlyn penodol i erlyn y drosedd, a oes angen darpariaeth ychwanegol i wneud i hyn ddigwydd? Er enghraifft, darpariaeth sy'n galluogi trosglwyddo gwybodaeth,

neu ryw addasiad i bŵer yr awdurdod i erlyn, neu pwy all gyflwyno'r achos yn y llys.

17.3 A oes angen darpariaeth ychwanegol i alluogi'r erlynydd i gynnig ffordd amgen o ymdrin â'r drosedd yn lle erlyniad? Er enghraifft, pan fo trosedd yn cael ei chyflawni gan gorff corfforaethol, partneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig, a ddylai fod modd i'r erlynydd ymrwymo i gytundeb erlyn gohiriedig â'r corff hwnnw mewn perthynas â'r drosedd? Gweler **Atodlen 17 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013** (www.legislation.gov.uk/ukpga/2013/22/schedule/17).

17.4 A oes angen unrhyw gydsyniadau cyn y gellir erlyn y drosedd? Mewn achosion prin, efallai y dymunir gosod gofyniad i'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus neu'r Cwnsler Cyffredinol gydsynio i'r erlyniad.

17.5 Noder nad yw creu trosedd newydd yn gwarantu y caiff person ei gyhuddo neu ei erlyn am y drosedd honno pan fo'r person yn cyflawni'r ymddygiad gwaharddedig yn y dyfodol. Mae swyddogion ymchwilio ac erlynwyr yn arfer disgrisiwn wrth benderfynu ar y cyhuddiad priodol ac a ddylid erlyn person am drosedd ai peidio. Wrth arfer y disgrisiwn hwnnw mewn perthynas ag erlyniadau Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i erlynwyr gymhwyso Cod Erlyn Cymru, mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cymhwyso'r Cod i Erlynwyr y Goron ac mae awdurdodau gorfodi eraill yn cymhwyso polisïau gorfodi sy'n cynnwys egwyddorion tebyg.

18. Estyn y terfyn amser ar gyfer erlyn achosn

18.1 O dan adran 127 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1980/43/section/127) y terfyn amser ar gyfer erlyn trosedd ddiannod yn unig yw 6 mis o'r dyddiad y cyflawnwyd y drosedd. A oes eisiau terfyn amser hwy, er enghraifft, i roi amser i geisio cynnig sancsiynau sifil yn gyntaf, neu i gynnal ymchwiliad cymhleth?

18.2 A fydd y terfyn amser yn cynnwys unrhyw amodau a fydd yn sicrhau na chaiff achosion eu hoedi'n ddiangen? Er enghraifft, mae rhai darpariaethau yn caniatáu i achos llys y drosedd gael ei gychwyn o fewn cyfnod o 6 mis yn dechrau â'r dyddiad y daeth yr erlynydd yn ymwybodol o dystiolaeth a oedd yn ddigonol, ym marn yr erlynydd, i gyfiawnhau'r achos llys ond hefyd yn nodi nad oes modd cychwyn achosion fwy na 2 flynedd ar ôl y dyddiad y cyflawnwyd y drosedd.

18.3 Nid oes unrhyw derfyn amser statudol cyffredinol ar gyfer troseddau neillffordd na throseddau ditiadwy yn unig.

19. Pŵer i is-ddeddfwriaeth greu trosedd

19.1 Yn hytrach na darparu ar gyfer trosedd mewn Deddf, ai'r polisi yw cael Deddf i greu pŵer i wneud rheoliadau sy'n creu'r drosedd? Mae hyn yn debygol o fod yn achos eithriadol.

19.2 Os bwriedir nodi'r drosedd mewn rheoliadau, bydd angen cyfiawnhad oherwydd byddai'r Senedd yn annhebygol o graffu ar y drosedd i'r un graddau.

19.3 Dylai pŵer mewn Deddf i wneud rheoliadau sy'n creu trosedd, o leiaf, bennu'r cosbau mwyaf y gall y rheoliadau eu gosod am y drosedd a nodi dull treial am y drosedd. Dylai'r Ddeddf hefyd roi disgrifiad mor dynn â phosibl o'r math o ymddygiad sydd i'w wneud yn drosedd y gall y rheoliadau ei chreu.

19.4 Yn eithriadol, os oes cyfiawnhad penodol dros weithredu yn y fath fodd, efallai y bydd yn briodol darparu mewn Deddf y caiff rheoliadau osod gofynion neu waharddiadau, a nodi yn y Ddeddf y bydd achos o dorri'r gofynion neu'r gwaharddiadau hynny yn drosedd (gweler er enghraifft **adran 33(1)(c) o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974** (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1974/37/section/33)).

19.5 Noder y dylai deddfwriaeth sy'n creu atebolrwydd troseddol fod mor hygyrch â phosibl ac na fyddai gosod elfennau gwahanol o'r drosedd mewn deddfiadau gwahanol yn cyflawni'r nod hwnnw o bosibl.

Engbreiffiau o'r datrysiaid deddfwriaethol

Mae llawer o engbreiffiau o droseddau mewn deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth. Bwriedir i'r engbreiffiau canlynol a ddaw o Ddeddfau'r Senedd a Mesurau'r Cynulliad ddangos darpariaethau troseddol cyffredin.

Troseddau – yr ymddygiad i'w wneud yn drosedd (paragraff 3)

Trosedd sy'n cynnwys anwaith:

- *adran 6(6) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/2/section/6) (methiant i gymryd camau rhesymol i beri i berson sy'n ysmegu yno beidio ag ysmegu)
- *adran 43 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/2/section/43) (methiant i gydymffurfio ag amod cofrestru)

Trosedd a gyflawnir drwy batrwm o ymddygiad:

- *adrannau 2A a 7(3) o Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1997/40/crossheading/england-and-wales) (stelcio – lle mae angen dau ddigwyddiad cyn bod "patrwm o ymddygiad" yn gyfystyr â throsedd)

Trosedd ond os oes achosion mynych o dorri'r gyfraith:

- *adran 12(1) o Ddeddf Ffioedd Tenantiaid 2019* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2019/4/contents) (gellir gosod cosb ariannol am yr achos cyntaf o dorri'r Ddeddf)

Yr elfen feddyliol o'r drosedd (paragraff 4)

Trosedd sy'n gofyn am wybodaeth neu ddihidrwydd:

- *adran 12 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2019/2/section/12)

Trosedd lle mae angen bwriad:

- *adran 44 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/2/section/44) (bwriad o dwyllo)
- *adran 161C o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/section/161C) (rhwystru'n fwriadol)

Trosedd â chyfuniad o elfennau meddyliol gwahanol ar gyfer elfennau gwahanol o'r drosedd:

- *adran 16 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/4/section/16)

Personau a all gyflawni'r drosedd (paragraff 5)

Darparu mai dim ond person penodol neu gategori penodol o berson all gyflawni trosedd:

- *adran 18 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2013/6/section/18) (mae perchennog tir y cyflwynwyd hysbysiad cydymffurfio iddo sydd wedi dod yn weithredol yn cyflawni trosedd)
- *adran 1(1) o Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt a Sycasau (Cymru) 2020* (www.legislation.gov.uk/cy/asc/2020/2/section/1) (gweithredwr sycas deithiol)

Troseddau a gyflawnir gan gorff corfforaethol neu bartneriaeth (paragraff 5)

- *adran 19 o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2013/2/section/19)
- *adran 120 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/2/section/120)

Eithriadau i'r drosedd (paragraff 5 a 9)

Darparu nad yw person yn cyflawni'r drosedd pan fo amgylchiadau penodol yn gymwys

- *adran 114 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/114) (dinistrio neu waredu dogfen ar ôl cyflwyno dogfen mewn cydymffurfiaeth â hysbysiad)

Trosedd o wneud rhywbeth heb esgus rhesymol neu heb gydsyniad

- *adran 9 o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2013/2/section/9) (methiant i arddangos sticer hylendid heb esgus rhesymol)
- *adran 79 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2018/2/section/79) (heb esgus rhesymol yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad mewn cysylltiad â datgelu dogfen)

Amddiffyniadau (paragraff 9)

- *adran 2 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2018/5/contents) (cymryd camau rhesymol ac arfer diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r drosedd)
- *adran 20 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/20) (cred resymol)
- *adran 125D(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/section/125D) (nid oedd yn gwybod ac nid oedd ganddo reswm dros amau)
- *adran 5 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/2/section/5) ((nad oedd y person yn gwybod ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo wybod...))
- *adran 115 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/115) (esgus rhesymol)

Trosedd absoliwt heb amddiffyniad (paragraff 9)

Trosedd atebolrwydd caeth:

- *adran 1 o Ddeddf Anifeiliaid Gwylt mewn Sycrasau 2019* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2019/24/section/1)
- *adran 3 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2019/2/section/3)

Dull treial a chosbau (paragraffau 10, 11, 12 a 13)

Fel arfer, nodir dull treial fel rhan o'r ddarpariaeth ynglŷn â chosb.

- *adran 39(3) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/7/section/39) (trosedd ddiannod, dirwy heb derfyn)
- *adran 24(3) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/2/section/24) (trosedd ddiannod, dirwy nad yw'n uwch na lefel 3)
- *adran 39(6) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010* (www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2010/1/section/39) (trosedd ddiannod, dirwy neu gyfnod o garchar neu'r ddau) *
- *adran 114(6) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/114) (trosedd neillfordd, dirwy ar euogfarn ddiannod, dirwy neu gyfnod o garchar ar ddiad)
- *adran 51 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/2/section/51) (trosedd neillfordd, euogfarn ddiannod = dirwy neu gyfnod o garchar nad yw'n fwy na 6 mis, ar euogfarn ddiannod ar ddiad, dirwy neu gyfnod o garchar nad yw'n fwy na 2 flynedd neu'r ddau)

* noder na ddylai troseddau newydd gyfeirio at ddirwy "lefel 5", "uchafswm statudol" na "swm a ragnodwyd" gan fod y cysyniadau hyn wedi'u diddymu drwy Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy 2012.

Pwerau llys ar ôl euogfarn (paragraff 14)

- *adran 18 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2013/6/section/18) (pŵer i ddiddymu'r drwydded ar gyfer safle carafannau ar euogfarn am ail drosedd)

Erllyn trosedd (paragraff 15, 17, 18)

Angen cydsyniad cyn erlyn:

- *adran 12 o Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2013/5/section/12) (Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus)
- *adran 55 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/2/section/55) (y Cwnsler Cyffredinol)

Gorfodi'r drosedd:

- *adran 10 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2018/5/section/10) (awdurdodau lleol: pŵer i erlyn ac i ymchwilio i droseddau)

Estyn terfynau amser ar gyfer troseddau diannod:

- *adran 13 o Fesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010* (www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2010/3/section/13) (6 mis o ddyddiad penderfyniad yr erlynydd ar ddigonolrwydd y dystiolaeth, nad yw'n fwy na 2 flynedd ar ôl i'r drosedd gael ei chyflawni)
- *adran 55 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/2/section/55) (12 mis o ddyddiad penderfyniad yr erlynydd, nad yw'n fwy na 3 blynedd ar ôl i'r drosedd gael ei chyflawni)

Profi materion yn y llys – tystysgrifau a rhagdybiaethau statudol (paragraff 16)

- *adran 29 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/7/section/29) (tystysgrif nad yw person wedi talu cosb benodedig)
- *adran 3 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/16/section/3) (rhagdybiaeth bod bwyd a ddefnyddir yn gyffredin i'w fwyta gan bobl a geir mewn mangreoedd a ddefnyddir ar gyfer paratoi'r bwyd wedi'i fwriadu i'w fwyta gan bobl)

Rhoi pŵer i greu troseddau drwy reoliadau (paragraff 19)

- *adran 94B o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/1/contents)

9 Hysbysiadau cosb benodedig

Mae'r datrysiad hwn yn awdurdodi person i roi hysbysiad cosb benodedig, sef hysbysiad sy'n rhoi cyfle i'r derbynydd ryddhau ei hun o unrhyw atebolrwydd am euogfarn am drosedd drwy dalu swm arian penodedig o fewn cyfnod penodol.

Disgrifiad o'r datrysiad deddfwriaethol

Mae'r pŵer i ddyroddi hysbysiadau cosb benodedig yn tueddu i gael ei roi mewn cysylltiad â throseddu ar lefel is. Mae dyroddi hysbysiad yn ddewis arall yn lle erlyn y troseddwr.

Mae rhoi hysbysiad cosb benodedig am fân drosedd traffig yn enghraifft nodweddiadol o hyn.

Caniateir i'r pŵer gael ei ddyroddi pan fydd y drosedd o dan sylw wedi ei chreu, neu'n ddiweddarach.

Nid yw'r datrysiad hwn yn ymwneud â hysbysiadau sy'n gosod atebolrwydd sifil ar dderbynydd na honnir ei fod wedi cyflawni trosedd (er bod yr hysbysiadau hynny weithiau'n cael eu galw'n hysbysiadau cosb benodedig).

Datrysiadau deddfwriaethol cysylltiedig

Cosbau sifil ariannol

Opsiwn polisi arall yw creu cynllun ar gyfer cosbau sifil ariannol: gweler y datrysiad deddfwriaethol mewn perthynas â **sancsiynau sifil**.

Bron bob amser, bydd gan berson y rhoddir cosb sifil ariannol iddo hawl i apelio yn ei herbyn, ac mae hyn yn nodwedd allweddol sy'n gwahaniaethu rhwng y cosbau hyn a'r hysbysiadau yr ymdrinnir â hwy yn y datrysiad deddfwriaethol hwn. Yr unig ddewis arall ar wahân i dalu cosb benodedig yw erlyn, gyda'r person yn cyflwyno ei achos gerbron y llys.

Yn achlysurol, mae hysbysiadau sy'n gosod cosbau sifil ariannol wedi cael eu galw'n hysbysiadau cosb benodedig, sy'n gallu peri dryswch.

Troseddau

O ran y drosedd benodol dan sylw, gweler y datrysiad mewn perthynas â **throseddau**.

Yr Alban – dirwyon cyllidol

Yn yr Alban, gall pŵer procuradur cyllidol i ddyroddi dirwy fod yn ddigon (h.y. gall olygu nad oes angen pŵer i roi hysbysiad cosb benodedig) – mae'n fantais bod system ar gyfer casglu arian y gosb yn ei lle. P'un a ddyroddir hysbysiad cosb benodedig ynteu dirwy gyllidol, y safonau arferol ar gyfer erlyn a fyddai'n gymwys.

Elfennau'r datrysiad deddfwriaethol

1. **Mewn cysylltiad â pha droseddau y dylai hysbysiadau cosb benodedig allu cael eu rhoi?**
2. **Pa brawf y dylid ei ddefnyddio ar gyfer rhoi hysbysiad cosb benodedig?**
 - 2.1 Fformiwleiddiad a ddefnyddir yn aml yw bod gan y sawl sy'n rhoi'r hysbysiad "reswm dros gredu" bod person wedi cyflawni trosedd.
 - 2.2 Mae dewisiadau eraill yn cynnwys "sail resymol dros gredu" bod y person wedi cyflawni trosedd, a'i bod yn ymddangos bod "sail ar gyfer cychwyn achos cyfreithiol am drosedd".

3. Pwy a gaiff roi hysbysiad cosb benodedig?

- 3.1 Fel arfer, y rhai sy'n gyfrifol am orfodi'r deddfwriaeth fydd y rhain. Felly, yn achos troseddau cyffredin, gallai fod yn "gwnstabl", ond yn achos troseddau rheoleiddiol, gallai fod yn swyddog awdurdodedig i'r corff – adran, awdurdod lleol etc. – sy'n gyfrifol am orfodi'r cynllun rheoleiddiol.
- 3.2 Os cyfeirir at "swyddog awdurdodedig", beth yw'r dull awdurdodi i fod?

4. Pa ddarpariaeth sydd i'w gwneud am ffurf a chynnwys hysbysiadau cosb benodedig?

- 4.1 Gallai ffurf a chynnwys hysbysiadau gael eu nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol, gallai fod pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth am y materion hyn, neu gymysgedd o'r ddau.
- 4.2 O ran cynnwys, mae'r darpariaethau yn aml yn darparu bod rhaid i'r hysbysiad ddatgan y drosedd a rhoi manylion yr amgylchiadau yr honnir eu bod yn ffurfio'r drosedd, a rhaid iddynt gynnwys y rhan fwyaf neu'r cyfan o'r wybodaeth a ganlyn:
- swm y gosb,
 - y cyfnod ar gyfer talu'r gosb,
 - canlyniadau peidio â thalu'r gosb,
 - y person y mae rhaid ei thalu iddo a'r cyfeiriad lle y mae rhaid ei thalu,
 - y dull talu.

5. Sut y dylai swm y gosb benodedig gael ei benderfynu?

- 5.1 Sut y dylai swm y gosb gael ei benderfynu?
- A yw swm i gael ei bennu?
 - Neu a oes fformiwla i fod ar gyfer cyfrifo swm y gosb benodedig?
 - Neu a yw deddfwriaeth i bennu'r uchafswm (a'r isafswm?), gan adael i roddwr yr hysbysiad gael disgrisiwn ynaglŷn â swm y gosb?
 - Os oes disgrisiwn i fod ynaglŷn â swm y gosb, a ddylai fod pŵer i ddyroddi canllawiau ynaglŷn ag arfer y disgrisiwn, gan ei gwneud yn ofynnol i roddwr yr hysbysiad roi sylw i'r canllawiau?

- 5.2 Os yw swm (p'un ai swm y gosb, ynteu'r uchafswm neu'r isafswm) i gael ei bennu, a ddylid ei bennu mewn deddfwriaeth sylfaenol (ac os felly, a ddylai fod pŵer i roi swm newydd yn lle'r hen un) neu, fel arall, a ddylid ei bennu mewn is-ddeddfwriaeth?

6. Hyd y cyfnod ar gyfer talu'r gosb

- 6.1 A ddylai fod cyfnod penodedig ar gyfer talu, ynteu a ddylai fod isafswm cyfnod (a'r hysbysiad i bennu'r cyfnod gwirioneddol)?
- 6.2 A ddylai hyd (neu isafswm hyd) y cyfnod ar gyfer talu gael ei nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth?

7. Disgownt am dalu'n gynnar

- 7.1 A ddylai fod disgownt am dalu'r cosb benodedig yn gynnar?
- 7.2 Os felly, mae'r cwestiynau uchod am swm y taliad a hyd y cyfnod yn codi fan hyn hefyd, hy sut y mae'r swm gostyngol, a'r cyfnod pryd y mae'r swm gostyngol yn daladwy, i gael eu penderfynu?

8. Beth ddylai fod effaith rhoi hysbysiad cosb benodedig?

- 8.1 Effaith arferol rhoi hysbysiad yw na chaniateir i berson gael ei erlyn am y drosedd yn y cyfnod ar gyfer gwneud y taliad, ac ni chaniateir ei erlyn o gwbl os gwneir y taliad o fewn y cyfnod hwnnw (yn amodol ar dynnu'r hysbysiad yn ôl, a gweler am hynny isod). Ai dyma beth sydd ei eisiau, ynteu a oes eisiau rhywbeth gwahanol?
- 8.2 Mewn rhai achosion, mae gan hysbysiad yr effaith bellach o osod cosb ar y derbynydd os yw'r person yn methu â thalu'r gosb benodedig o fewn y cyfnod ar gyfer talu a hefyd yn methu â nodi ei fod yn dymuno gael ei roi ar brawf am y drosedd (e.e. Deddf Tramgwyddwyr Traffig Ffyrdd 1988 adran 55) – gweler adran 11 isod.
- 8.3 Mae rhai enghreifftiau o'r datrysiad yn darparu y caniateir i dderbynydd yr hysbysiad gael ei erlyn o fewn y cyfnod ar gyfer talu. Maent yn darparu hefyd fod yr hysbysiad mewn achosion o'r fath yn cael ei drin fel un sydd wedi ei dynnu'n ôl. Ai dyma sydd ei eisiau ac, os felly, beth sy'n digwydd os yw'r person eisoes wedi talu'r gosb benodedig? A oes unrhyw angen am y ddarpariaeth hon (oherwydd y gellir sicrhau canlyniad tebyg drwy dynnu'r hysbysiad yn ôl ac yna erlyn)?

9. Pa ddarpariaeth y dylid ei gwneud ynglŷn â thalu'r gosb benodedig?

- 9.1 I bwy y dylai unrhyw gosb benodedig gael ei dalu?
- 9.2 A ddylai unrhyw beth gael ei ddweud am y ffordd y dylid gwneud taliadau (e.e. ei gwneud yn ofynnol neu ganiatáu i daliadau gael eu gwneud mewn ffyrdd penodol)?
- 9.3 A ddylai unrhyw beth gael ei ddweud am ba bryd y mae taliadau a wneir mewn ffordd benodol i gael eu trin fel rhai sydd wedi eu talu? (Er enghraifft, mae'n gyffredin darparu bod taliadau a wnaed drwy'r post i'w trin fel rhai sydd wedi eu talu pan fyddent wedi eu traddodi yn ôl y drefn bostio arferol.)

10. Tynnu hysbysiadau cosb benodedig yn ôl

- 10.1 A ddylai fod yn bosibl tynnu hysbysiad yn ôl? Gallai fod eisiau hynny ar gyfer achosion pan y dylid erlyn derbynydd yr hysbysiad, yn ogystal ag ar gyfer achosion pan na fo'r derbynydd wedi cyflawni'r drosedd.
- 10.2 Os dylai fod yn bosibl tynnu hysbysiad yn ôl, a oes unrhyw derfynau ar ei dynnu'n ôl a beth yw canlyniadau ei dynnu'n ôl? (Er enghraifft: a ganiateir i dderbynydd yr hysbysiad gael ei erlyn, ynteu a yw'r gwaharddiad rhag erlyn yn parhau er gwaethaf y ffaith bod yr hysbysiad wedi ei dynnu'n ôl? A oes angen ad-dalu unrhyw daliad sydd wedi ei wneud? DS gall ddarpariaeth ynglŷn ag ad-dalu gyflawni swyddogaeth ddwbl, am ei bod yn nodi y caniateir i hysbysiad gael ei dynnu'n ôl er gwaethaf y ffaith bod y gosb benodedig wedi ei thalu.)
- 10.3 Os yw i fod yn bosibl, yn anarferol, erlyn derbynydd hysbysiad yn y cyfnod hysbysu (heb fod yr hysbysiad wedi ei dynnu'n ôl, a heb fod wedi rhoi i'r derbynydd hysbysiad o'r fath a grybwyllir yn uniongyrchol isod), byddai'n gwneud synnwyr darparu i'r hysbysiad gael ei drin fel un sydd wedi ei dynnu'n ôl gan y weithred o gychwyn erlyniad.

11. Hysbysiad am fwriad i beidio â thalu'r gosb benodedig, sylwadau, apelau etc

- 11.1 A ddylid gwneud darpariaeth ynghylch derbynydd yr hysbysiad yn rhoi hysbysiad sy'n nodi nad yw'n bwriadu talu'r gosb benodedig (neu'n gofyn am sefyll ei brawf am y drosedd y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi)?
- 11.2 Beth yw effaith hysbysiad o'r fath? Ai dweud yn syml y caniateir i achos gael ei ddwyn mewn cysylltiad â'r drosedd hyd yn oed os nad yw'r cyfnod hysbysu wedi dod i ben? Os felly, a oes unrhyw ddiben darparu ar gyfer rhoi hysbysiadau o'r fath (o dderbyn ei bod yn bosibl tynnu'n ôl yr hysbysiad neu aros sut bynnag tan ddiwedd y cyfnod hysbysu)?
- 11.3 A oes unrhyw ganlyniad i beidio â rhoi hysbysiad o'r fath? Fel y crybwyllwyd ym mharagraff 8.2 uchod, bydd methu â rhoi'r cyfryw hysbysiad yn arwain weithiau at osod cosb. Os dyma beth sydd ei eisiau, nodwch pa gosb sydd i'w gosod a sut y mae i'w gorfodi.
- 11.4 Mae rhai enghreifftiau yn darparu ar gyfer y posibilrwydd o gyflwyno sylwadau mewn cysylltiad â'r hysbysiad neu, ambell dro, ar gyfer apelau yn erbyn rhoi'r hysbysiad. Os gallai fod eisiau unrhyw beth o blith y rhain, ystyrier yn ofalus beth yw diben y peirianwaith ychwanegol (ac os mai darparu ar gyfer apelau yw'r diben hwnnw, gweler y datrysiaid deddfwriaethol mewn perthynas ag **apelio yn erbyn penderfyniadau gweinyddol**). Mae bob amser yn agored i dderbynydd hysbysiad ddatgan nad yw'n euog, a pheri i'r mater gael ei brofi drwy erlyn yn y ffordd arferol. Peth arall i'w gadw mewn cof yw unrhyw derfynau amser ar gyfer erlyniadau diannod – bydd cyflwyno sylwadau a gwneud apelau yn cymryd amser.

12. Materion tystiolaethol

- 12.1 Mae'n arferol darparu bod tystysgrif lofnodedig sy'n datgan bod taliad wedi, neu heb, ei dderbyn yn dystiolaeth (neu yn yr Alban yn dystiolaeth ddigonol) am y ffeithiau a ddatganwyd. Os dyna beth sydd ei eisiau, noder pwy sy'n gorfod llofnodi'r dystysgrif.

13. Dyletswydd i roi enw a chyfeiriad?

- 13.1 A ddylai fod yn ofynnol i berson roi ei enw a'i gyfeiriad, at ddibenion cael hysbysiad?
- 13.2 Os felly, a ddylai methiant i ddarparu'r wybodaeth fod yn drosedd (ac, os felly, beth yw elfennau'r drosedd, y gosb uchaf a dull y treial)?

14. Canllawiau ar roi hysbysiadau cosb benodedig

- 14.1 A ddylai fod pŵer neu ddyletswydd i roi canllawiau ynglŷn â rhoi hysbysiadau?
- 14.2 Os felly, a ddylid dweud unrhyw beth am roi'r canllawiau (e.e. personau y mae rhaid ymgynghori â hwy yn gyntaf)? A ddylai fod dyletswydd i gyhoeddi'r canllawiau?
- 14.3 Mae dewisiadau amgen yn cynnwys gofyniad i gyhoeddi polisi gorfodi. Byddai polisi o'r fath yn nodi o dan ba amgylchiadau y byddai hysbysiad cosb benodedig yn debyg o gael ei roi, a'r rhai lle y mae'n debyg mai erlyn a fyddai'r ymateb a ffefrir i'r troseddu.

15. Adroddiad ar hysbysiadau cosb benodedig sydd wedi eu rhoi?

- 15.1 A ddylai fod dyletswydd i lunio, bob hyn a hyn, adroddiad sy'n rhoi manylion yr hysbysiadau a roddwyd? Os dyna beth sydd ei eisiau, rhodder manylion y rhai y mae rhaid iddynt lunio'r adroddiad, p'un a oes rhaid i'r adroddiad gael ei gyhoeddi neu ei roi i berson arall, a'r cyfnodau y mae rhaid llunio adroddiad ynglŷn â hwy.

16. Defnyddio derbynebaw cosb benodedig

- 16.1 Beth sydd ei eisiau o ran defnyddio derbynebaw cosb benodedig?
- 16.2 A gaiff y person y gwneir taliadau iddo ynglŷn â hysbysiadau cosb benodedig gadw'r symiau arian, ynteu a oes rhaid i'r person hwnnw dalu'r symiau arian i Weinidogion (neu i un o adrannau Gogledd Iwerddon) neu i mewn i'r Gronfa Gyfunol berthnasol?
- 16.3 Os caniateir i'r symiau arian gael eu cadw, a ellir eu defnyddio fel y bo'r person yn barnu ei bod yn briodol, ynteu at ddibenion neu swyddogaethau penodol yn unig?
- 16.4 Os oes cyfyngiadau i fod ar ddefnyddio'r symiau arian, beth arall sydd ei eisiau mewn cysylltiad â hyn (e.e. a oes angen cadw cyfrifon, a'u cyhoeddi neu eu darparu i berson arall, i sicrhau y cydymffurfir â'r cyfyngiadau)?

17. Hysbysiadau a thaliadau a anfonir yn electronig

- 17.1 A ddylai'r cynllun hysbysiadau cosb benodedig ddarparu bod hysbysiadau a/neu daliadau i'w hanfon yn electronig? (gall y mater hwn godi mewn nifer o fannau uchod)

Engbreiffiau o'r datrysiad deddfwriaethol

- *Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau) (Hunanynysu) (Lloegr) 2020*, OS 2020/1045 (www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2020/1045/contents) rheoliad 12 – OS, ond yn dal i gael ei gynnwys fan hyn fel enghraifft ddiweddar o ddefnyddio hysbysiadau gyda chosbau llym. Gweler hefyd ein *Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020*, OS 2020/1609 (www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2020/1609/contents/enacted/welsh), Rhan 8 Pennod 2.
- *Deddf Anifeiliaid a Bywyd Gwyllt (Cosbau, Diogeliadau a Phwerau) (Yr Alban) 2020* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2020/14/contents), adrannau 2, 6 ac 13 (yn mewnosod darpariaethau i Ddeddf Iechyd a Llesiant Anifeiliaid (Yr Alban) 2006 sy'n caniatáu i Weinidogion yr Alban wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer hysbysiadau mewn perthynas â chosbau penodol)
- *Deddf Corfforaeth Dinas Llundain (Mannau Agored) 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/ukla/2018/1/contents/enacted), adran 11
- *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2018/5/contents/enacted/welsh), adran 9
- *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/2/contents/enacted/welsh), adrannau 27 a 49 ac Atodlen 1
- *Deddf Gwahardd Smygu (Plant mewn Cerbydau Modur) (Yr Alban) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2016/3/contents) Atodlen (hysbysiadau, darpariaeth ar gyfer gwrandawiaid i wneud sylwadau ynghylch a ddylai hysbysiad gael ei dynnu yn ôl, darpariaeth ar gyfer gorfodi hysbysiad nad yw wedi ei dalu). DS Dechreuodd hon fel Bil Aelod.
- *Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/2/contents/enacted/welsh), adran 52
- *Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Gogledd Iwerddon) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2016/3/contents), adran 11 a'r Atodlen (hysbysiadau gan gynghorau)
- *Deddf Bwyd (Yr Alban) 2015* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2015/1/contents), Rhan 3 (hysbysiadau gan awdurdodau gorfodi)
- *Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/12/contents), adrannau 52 a 68 (hysbysiadau gan swyddog awdurdodedig neu gwnstabl)
- *Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2013/2/contents/enacted/welsh), adrannau 21 a 22 a'r Atodlen (hysbysiadau gan gynghorau)
- *Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2012/2/contents/enacted/welsh) (hysbysiadau gan gynghorau)
- *Deddf Cynllunio (Gogledd Iwerddon) 2011* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2011/25/contents), adrannau 153-155 (hysbysiadau gan gynghorau)
- *Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2009/23/contents), adran 294 (pŵer ar gyfer gorchymyn i roi pŵer i awdurdod gorfodi roi hysbysiadau mewn perthynas â throseddau pysgota yn y môr)
- *Deddf Newid yn yr Hinsawdd (Yr Alban) 2009* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2009/12/contents), adran 88A ac Atodlen 1A (hysbysiadau gan awdurdodau gorfodi; sylwadau ynghylch hysbysiadau)
- *Deddf Transport for London 2008* (www.legislation.gov.uk/cy/ukla/2008/1/contents/enacted), adrannau 17 i 21 ac Atodlenni 1 a 2 (hysbysiadau gan swyddog awdurdodedig)
- *Deddf Dyframaethu a Physgodfeydd (Yr Alban) 2007* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2007/12/contents), Rhan 4 (hysbysiadau gan bersonau a benodir gan Weinidogion Cymru)
- *Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/36/contents), Atodlen 4 (hysbysiadau gan OFCOM neu'r procuradur cyllidol)
- *Deddf Iechyd 2006* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/28/contents), adran 9 ac Atodlen 1 (hysbysiadau gan awdurdodau gorfodi)
- *Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2003/38/contents), adrannau 43-47 (hysbysiadau awdurdodau lleol)

10 Sancsiynau sifil

Mae'r datrysiad hwn yn galluogi person i osod sancsiynau sifil heb fod angen gofyn i lys i'w gosod, sancsiynau megis cosbau ariannol a hysbysiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r derbynnydd wneud rhywbeth neu beidio â gwneud rhywbeth.

Disgrifiad o'r datrysiad deddfwriaethol

Nod sancsiwn sifil yw rheoli ymddygiad mewn rhyw ffordd, ond heb ei wneud yn drosedd.

Bydd y math o sancsiynau sifil sydd eu heisiau o bosibl, a'u perthynas (os o gwbl) â throseddau, wrth gwrs, yn dibynnu ar gyd-destun a diben y polisi. Beth yw nod y polisi? Gallai gynnwys, er enghraifft:

- ceisio sicrhau cydymffurfiaeth â chyfundrefn reoleiddiol;
- atal ymddygiad parhaus sy'n achosi niwed neu ddifrod;
- cosbi ymddygiad o fath penodol.

Ceir rhychwant o gosbau, sy'n amrywio o'r rhai sydd wedi'u hanelu at sicrhau bod person yn gwneud rhywbeth neu'n peidio â gwneud rhywbeth, a'r rhai sy'n fwy cosbedigol eu natur, yn enwedig cosb ariannol sifil.

Mae'r datrysiad hwn yn ystyried y mesurau gorfodi sifil ffurfiol canlynol yn bennaf:

- Cosbau ariannol;
- Hysbysiadau statudol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r derbynnydd wneud rhywbeth neu beidio â gwneud rhywbeth (gallai'r rhain gael eu galw'n hysbysiadau gorfodi, yn hysbysiadau gwella, yn hysbysiadau cydymffurfio, yn hysbysiadau stop, neu'n rhywbeth tebyg);
- Hysbysiadau statudol neu orchmynion sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r derbynnydd gymryd camau penodedig i adfer y sefyllfa a fodolai cyn i'r ymddygiad a achosodd niwed neu ddifrod ddigwydd (gallai'r rhain, er enghraifft, gael eu galw'n hysbysiadau cyweirio neu hysbysiadau gwneud iawn);

- Ymgymeriadau (cytundebau) rhwng person ac awdurdod rheoleiddio ynglŷn â chymau penodol y bydd angen eu cymryd (a elwir yn ymgymeriadau gorfodi neu'n rhwymedigaethau gorfodi fel arfer).

Yn aml mae pŵer i osod sancsiynau sifil yn cael ei roi i gorff cyhoeddus sy'n gweithredu fel rheoleidiwr sector penodol neu i Weinidogion, adrannau'r llywodraeth neu awdurdodau lleol. Fel arfer, mae'r datrysiad hwn yn golygu rhoi cryn dipyn o bwerau disgresiwn i awdurdodau gorfodi, ac felly mae'n hanfodol sicrhau bod y pwerau yn dryloyw, yn gymesur ac wedi'u targedu.

Noder yn benodol y gall cosbau ariannol sifil fod yn sylweddol, a'u bod yn aml dipyn yn uwch na'r dirwyon a osodir gan y llysoedd troseddol ar ôl erlyn trosedd yn llwyddiannus. Felly, mae'n arbennig o bwysig ystyried priodoldeb sancsiynau sifil o'r fath a chynnwys mesurau diogelu (megis yr hawl i apelio). Trafodir hyn yn fanylach isod.

Y berthynas â throseddau

Efallai mai dim ond sancsiynau sifil sydd eu hangen i gyflawni'r polisi. Neu, efallai y bydd cyfundrefn o sancsiynau sifil yn rhan o strategaeth orfodi ehangach sydd hefyd yn cynnwys troseddau. Gweler y datrysiad deddfwriaethol sy'n ymwneud â throseddau.

Trosedd waelodol: yn aml, mae trosedd eisoes yn bodoli mewn perthynas ag ymddygiad penodol, a'r polisi yw sicrhau bod sancsiwn sifil ar gael fel cosb amgen am yr un ymddygiad.

Pan fo trosedd yn bodoli eisoes, neu pan gaiff trosedd waelodol newydd ei chreu, y polisi o bosibl yw (er enghraifft):

- bod sancsiynau sifil ar gael yn lle'r achos troseddol am yr un ymddygiad;

- bod cosb ariannol yn cael ei gosod am yr achos cyntaf neu achos llai difrifol o dor rheol, a bod achos troseddol yn cael ei gadw ar gyfer achosion mwy difrifol neu fynych o dor rheol;
- bod gorfodi yn digwydd drwy hysbysiadau cosb benodedig (gweler y datrysiad deddfwriaethol sy'n ymwneud â **hysbysiadau cosb benodedig**).

Mae Rhan 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau 2008 (www.legislation.gov.uk/ukpga/2008/13/part/3) yn caniatáu i un o Weinidogion y Goron neu Weinidogion Cymru wneud gorchymyn sy'n darparu bod gan awdurdod rheoleiddio penodol (megis Asiantaeth yr Amgylchedd) y pŵer i osod cosbau ariannol, hysbysiadau stop a sancsiynau sifil eraill yn lle erlyn achos troseddol am yr un ymddygiad.

Dim trosedd waelodol: efallai mai'r polisi yw caniatáu sancsiynau sifil mewn perthynas ag ymddygiad nad yw'n gyfystyr â throedd (er enghraifft, ymddygiad sy'n gyfystyr â thorri trwydded, neu dorri gwaharddiad statudol, neu fethiant i gydymffurfio â gofyniad statudol).

Trosedd wrth gefn er mwyn sicrhau bod sancsiynau sifil yn effeithiol: un enghraifft yw pan fydd hysbysiad gorfodi yn cael ei roi mewn perthynas ag ymddygiad penodol, ond ei bod yn drosedd torri'r hysbysiad gorfodi.

Mathau eraill o sancsiynau sifil a datrysiadau deddfwriaethol cysylltiedig

Mae rhai categorïau eraill o fesurau gorfodi sifil i'w hystyried.

Un posibilrwydd yw darparu ar gyfer mesurau sy'n atal person rhag cyflawni gweithgarwch, neu sy'n gosod cyfyngiadau arno wrth gyflawni gweithgarwch (er enghraifft, atal neu ddiddymu trwydded neu osod amodau pellach ar ddeiliad trwydded, neu anghymhwysu unigolyn rhag bod yn gyfarwyddwr cwmni, neu rhag ymarfer fel gweithiwr iechyd proffesiynol). Gweler, yn benodol, y datrysiad deddfwriaethol sy'n ymwneud â thrwyddedu.

Gellir defnyddio datgelu a chyhoeddusrwydd fel modd i annog cydymffurfiaeth. Gall hynny olygu defnyddio pŵer i roi cyhoeddusrwydd i gwmnïau sydd wedi torri gofynion. Fel arall, efallai y bydd deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gyhoeddi cofnodion cydymffurfiaeth pob gweithredwr (gallai hynny fod yn ffordd effeithiol o orfodi safonau gwirfoddol).

Gellir defnyddio hysbysiadau statudol i'w gwneud yn ofynnol i berson ddarparu gwybodaeth benodedig i awdurdod (a elwir yn aml yn hysbysiadau gwybodaeth).

Gallai deddfwriaeth ddarparu ar gyfer gorchmynion neu hysbysiadau sy'n atal ymddygiad penodol (sydd fel arall yn gyfreithlon): gweler y datrysiad deddfwriaethol sy'n ymwneud â gorchmynion atal.

A gallai deddfwriaeth ddarparu ar gyfer atafaelu (a gwaredu) nwyddau neu atafaelu asedau.

Gweler hefyd baragraff 14 o'r datrysiad deddfwriaethol sy'n ymwneud â throeddau (opsiynau dedfrydu yn benodol).

Dylid hefyd roi ystyriaeth i'r datrysiad deddfwriaethol sy'n ymwneud â phwerau mynediad, archwilio, chwilio ac atafaelu, er mwyn caniatáu ymchwilio a gorfodi sancsiynau sifil.

Effaith ar y system gyfiawnder

Mae cyfundrefn o sancsiynau sifil yn debygol o effeithio ar y system gyfiawnder, er enghraifft pan fo darpariaeth ar gyfer:

- hawl i berson sy'n cael sancsiwn sifil apelio i lys neu driwlynlys yn ei herbyn (gweler paragraff 9 isod);
- hawl i gorff rheoleiddio wneud cais i lys i orfodi hysbysiad statudol neu orchymyn (gweler paragraff 5.1 isod).

Felly, bydd angen ystyried yr effaith a'r costau cysylltiedig ac ymgynghori yn unol â hynny.

Elfennau'r datrysiad deddfwriaethol

1. Pa fath, neu fathau, o sancsiynau sifil sydd eu heisiau?

- 1.1 Pa fath o ymddygiad sydd i'w annog, ei fynnu, ei atal neu ei gosbi?
- 1.2 Pa fesurau gorfodi sydd eisoes ar gael ar gyfer yr ymddygiad a dargedir? A oes angen llunio cyfundrefn orfodi newydd, neu a fyddai'n well adeiladu ar gynllun sy'n bodoli eisoes neu ei ddiwygio?
- 1.3 A yw'r ymddygiad dan sylw eisoes yn drosedd? Ai diddymu'r drosedd a dibynnu ar sancsiynau sifil newydd yw'r polisi? Neu a ddylid cadw'r drosedd yn ychwanegol at y sancsiynau sifil newydd?
- 1.4 A yw'r ymddygiad dan sylw yn torri darpariaeth statudol (ond nid yw'n drosedd)?
- 1.5 Efallai mai'r polisi yw caniatáu un math o gosb yn unig – yn aml, cosb ariannol – neu ganiatáu dewis o wahanol fathau o gosbau sydd â nodau gwahanol.
- 1.6 Ystyriwch a oes modd mabwysiadu'r sancsiynau sifil a ddisgrifiwyd yn *Rhan 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau 2008* (www.legislation.gov.uk/ukpga/2008/13/part/3). Mae cyfyngiadau: dim ond os oes troseddau sy'n bodoli eisoes¹⁰, a bod cyfyngiadau ar y ffordd y cymhwysir y ddeddfwriaeth o ran yr Alban a Gogledd Iwerddon (gweler adrannau 56 a 57) y gellir gwneud gorchymyn¹¹.
- 1.7 A ddylai'r sancsiynau sifil fod yn gyson â'r cosbau a ddisgrifiwyd yn Neddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau 2008?
- 1.8 Os bydd sawl math o gosb ar gael, ystyriwch y berthynas rhyngddynt (er enghraifft, a ddylai fod yn bosibl rhoi cosb ariannol i berson am ymddygiad sydd eisoes wedi peri i'r person gael hysbysiad stop?).

1.9 Pan fo troseddau gwaelodol yn bodoli, a oes angen darpariaeth i sicrhau'r canlyniad na all person gael cosb sifil a chosb droseddol am yr un ymddygiad? Bydd hyn yn dibynnu ar y math o sancsiynau sifil dan sylw.

2. Pwy all osod sancsiwn sifil? Ar bwy y caiff y sancsiwn ei gosod?

- 2.1 Pa awdurdod neu awdurdodau gorfodi fydd yn cael pŵer i osod y sancsiwn/sancsiynau (er enghraifft, awdurdodau lleol, Adran yng Ngogledd Iwerddon, awdurdod rheoleiddio megis OFCOM neu Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban)?
- 2.2 A fyddai'n briodol i orfodwyr gwahanol orfodi darpariaethau gwahanol? A oes angen unrhyw ddarpariaeth ynglŷn ag awdurdodau gorfodi gwahanol yn cydweithredu, yn rhoi cymorth neu'n rhannu gwybodaeth? Neu, efallai, darpariaeth i ganiatáu i un awdurdod gorfodi ddirprwyo'r rôl gorfodi arweiniol i un arall o dan amgylchiadau penodol?
- 2.3 Fel arfer, rhoddir pwerau i awdurdodau, yn hytrach na swyddogion awdurdodedig awdurdodau.
- 2.4 A ellir gosod sancsiwn sifil ar bobl benodol yn unig (er enghraifft, pobl sy'n cynnal mathau penodol o fusnes, neu sy'n dal mathau penodol o drwydded)?

3. Seiliau dros osod sancsiwn sifil, a safon prawf

- 3.1 Beth, yn union, yw'r ymddygiad y gellir rhoi sancsiwn sifil ar ei sail?
- 3.2 Pa safon prawf y dylid ei chymhwyso ar gyfer penderfynu a oes sail ar gyfer gosod sancsiwn sifil?
 - Pan fo'r sancsiwn sifil yn un ddifrifol, er enghraifft, cosb ariannol sylweddol, gall fod yn briodol cymhwyso'r safon droseddol – y tu hwnt i bob amheuaeth resymol.

¹⁰ Hefyd, mae adran 62 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau 2008 yn caniatáu gosod sancsiynau sifil wrth greu troseddau newydd mewn is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddfau penodol a bennwyd yn Atodlen 7 i'r ddeddf honno.

¹¹ Noder hefyd fod Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig gan Lywodraeth y DU yn 2012 wedi nodi mai dim ond os yw'r cosbau i'w gosod ar ymgymeriadau â mwy na 250 o gyflogeion y dylai pwerau o dan Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau 2008 i osod cosbau ariannol penodedig, costau ariannol amrywiadwy a hysbysiadau adfer gael eu rhoi.

- Pan fo sancsiwn sifil yn cael ei osod fel dewis amgen i erlyniad troseddol, dylid ystyried pa safon prawf fydd yn gymwys - mae enghreifftiau o'i gwneud yn ofynnol i'r awdurdod sy'n gosod y sancsiynau i fod ag amheuaeth resymolbod trosedd wedi'i chyflawni neu na chydymffurfir â gofyniad, neu'n syml fod awdurdod wedi'i fodloni bod methiant o fath penodol.

3.3 Bydd angen ystyried safon y prawf ar gyfer pob math o sancsiwn sifil, a gall fod yn wahanol yn unol â'r gosb.

4. Pŵer i roi hysbysiadau gorfodi, hysbysiadau stop, hysbysiadau cyweirio ac ati neu gytuno i ymgymeriadau

- 4.1 Pan gynnigir y dylid rhoi hysbysiad ffurfiol o ryw fath sy'n gosod sancsiwn ar berson, a oes rhaid i'r person gael rhybudd gyntaf (gelwir hyn weithiau yn hysbysiad o fwriad)? Beth yw'r terfynau amser ar gyfer rhoi rhybudd o'r fath? Pa fanylion y mae'n rhaid i'r hysbysiad eu cynnwys? A oes modd cael gwared ar y gofyniad i roi rhybudd mewn argyfwng? A ddylai fod modd i dderbynydd yr hysbysiad gyflwyno sylwadau am y gosb arfaethedig?
- 4.2 Pa fanylion mae'n rhaid i'r hysbysiad gorfodi ffurfiol, neu fath arall o hysbysiad sy'n gosod cosb, eu cynnwys? Er enghraifft, pa gamau y mae'n rhaid i dderbynydd yr hysbysiad eu cymryd (gallai'r cam perthnasol olygu ymatal rhag gwneud rhywbeth, yn hytrach na gwneud rhywbeth)? Erbyn pryd? Mae'n arferol ei gwneud yn ofynnol i'r hysbysiad nodi'r achos o dor rheol neu ddiffyg cydymffurfiaeth a fu'n sail i gyflwyno'r hysbysiad, rhoi manylion am unrhyw hawl i apelio (gweler paragraff 9 isod), nodi'r hyn a fydd yn digwydd os na chydymffurfir â'r hysbysiad, a nodi'r terfyn amser ar gyfer cydymffurfiaeth.
- 4.3 Beth yw'r terfynau ar yr hyn y gall yr awdurdod ei gwneud yn ofynnol i dderbynydd yr hysbysiad ei wneud? A ddylai'r ddeddfwriaeth nodi pa fath o gamau y gall yr awdurdod gorfodi ei gwneud yn ofynnol i dderbynydd yr hysbysiad eu cymryd, neu'r dibenion y gall ei gwneud yn ofynnol i gamau gael eu cymryd ar eu cyfer?

Er enghraifft, a oes rhaid i'r camau sydd i'w cymryd gydymffurfio â gofyniad sydd wedi cael ei dorri, gwneud iawn am niwed a wnaed, neu rywbeth arall? A all y camau gynnwys talu arian i rywun arall?

- 4.4 A ddylai fod modd i'r awdurdod gorfodi amrywio neu ddiddymu hysbysiad? A allai derbynydd yr hysbysiad wneud cais am iddo gael ei amrywio neu ei ddiddymu? Gweler paragraff 9 o'r datrysiad deddfwriaethol sy'n ymwneud â **rhoi rhybudd**.
- 4.5 Pan fydd eisiau hysbysiad stop, a ddylid gwneud darpariaeth iddo beidio â chael effaith ar ddiwedd cyfnod penodedig (hysbysiad stop dros dro)? A ddylai fod darpariaeth ar gyfer digolledu person sy'n cael hysbysiad stop neu hysbysiad stop dros dro (er enghraifft, pan gaiff yr hysbysiad ei wrthdroi ar ôl apêl)?
- 4.6 Sut y dylid rhoi hysbysiadau i berson? Ystyriwch eu cyflwyno'n electronig. Gweler y datrysiad deddfwriaethol sy'n ymwneud â **rhoi hysbysiad**, yn enwedig paragraffau 5 a 11.
- 4.7 Yn lle system hysbysiadau – neu fel mesur gorfodi ychwanegol – gellid darparu y caiff awdurdod gorfodi dderbyn ymgymeriadau gan berson ynglŷn â'i ymddygiad yn y dyfodol.
- #### 5. Gorfodi hysbysiadau ac ymgymeriadau
- 5.1 Sut y dylid sicrhau cydymffurfiaeth â hysbysiad gorfodi neu ymgymeriad gorfodi? Gallai hyn gynnwys:
- darparu ei bod yn drosedd methu â chydymffurfio (gweler y datrysiad deddfwriaethol sy'n ymwneud â **throseddau**);
 - darparu ar gyfer gosod cosb ariannol sifil am fethu â chydymffurfio;
 - darparu bod dyletswydd ar berson i gydymffurfio â'r hysbysiad neu'r ymgymeriad a bod y ddyletswydd honno yn orfodadwy gan yr awdurdod gorfodi mewn achos sifil am waharddeb neu (yn yr Alban) am gyflawni dyletswydd statudol yn benodol o dan adran 45 o Ddeddf Llys y Sesiwn 1988;
 - darparu y caiff yr awdurdod gorfodi wneud cais i lys am orchymyn o fath penodol a bennir yn y ddeddfwriaeth os na chydymffurfir â'r hysbysiad.

5.2 Un posibilrwydd arall yw caniatáu i hysbysiad neu orchymyn cyweirio/gwneud iawn gael ei osod am fethiant i gydymffurfio â hysbysiad gorfodi neu hysbysiad stop, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r derbynnydd adfer y sefyllfa i'r hyn a fu cyn i'r ymddygiad niweidiol ddigwydd, o fewn cyfnod penodedig, ar draul y sawl sy'n ei dderbyn.

5.3 Posibilrwydd arall yw darparu pŵer i'r awdurdod gorfodi wneud y gwaith cyweirio ei hun, ac adennill y costau am wneud hynny gan y person sy'n gyfrifol am y tor rheol.

5.4 Os gallai costau'r gwaith cyweirio fod yn sylweddol, a yw'r person sy'n gyfrifol yn debygol o fod mewn sefyllfa i dalu amdano? Os nad felly, a ddylai fod cynllun lle mae gweithredwyr yn ymrwymo i drefniadau ariannol er mwyn bodloni rhwymedigaethau yn y dyfodol sy'n deillio o'r angen am waith cyweirio?

6. Pŵer i osod cosbau ariannol sifil

6.1 Pan fo'n bosibl i erlyn am drosedd neu pan fo'n agored i dalu cosb am yr un ymddygiad, pwy fydd yn penderfynu pa gam gorfodi sydd i'w gymryd, ac ar ba seiliau y dylid penderfynu? A ddylai'r meini prawf gael eu pennu yn y ddeddfwriaeth?

6.2 A ddylai'r ddeddfwriaeth bennu'r meini prawf y mae'n rhaid i awdurdod gorfodi eu hystyried wrth benderfynu a dylid gosod cosb ai peidio? A fydd achosion penodol wedi'u nodi yn y ddeddfwriaeth lle na all awdurdod osod cosb?

6.3 A fydd symiau'r cosbau yn cael eu pennu mewn deddfwriaeth (a elwir yn gosbau penodedig) neu a all yr awdurdod gorfodi benderfynu pa swm i'w osod (a elwir yn gosbau amrywiadwy)? Beth yw lefel y gosb y gellir ei gosod? A ddylai'r lefelau fod yn wahanol, yn dibynnu ar yr ymddygiad dan sylw?

6.4 Os gall yr awdurdod gorfodi benderfynu ar swm y gosb, a ddylai'r ddeddfwriaeth bennu'r meini prawf y mae'n rhaid eu hystyried wrth benderfynu ar lefel y gosb? Beth yw'r lefel uchaf y gellir ei gosod? Pan fydd modd gosod symiau gwahanol o gosbau yn dibynnu ar feini prawf penodol, hyd yn oed os gadewir i'r symiau a'r meini prawf gael eu pennu mewn is-ddeddfwriaeth (gweler paragraff 10 isod),

dylai'r ddeddfwriaeth sylfaenol bennu o hyd yr uchafsymiau y gellir eu gosod.

6.5 Weithiau, efallai y bydd yn briodol darparu i gosbau fod yn daladwy ar gyfradd ddyddiol am fethiant mynych neu barhaol i gydymffurfio.

6.6 A ddylai fod modd i'r awdurdod gorfodi amrywio neu ddiddymu cosb? Os oes pŵer i amrywio cosb sydd wedi'i gosod eisoes, ai dim ond pŵer i'w lleihau, a pheidio â'i chynyddu, ddylai fod? A ddylai hyn fod yn bosibl hyd yn oed os yw'r gosb wedi cael ei thalu (os felly, a ddylai gael ei had-dalu)?

7. Gweithdrefn ar gyfer gosod cosbau ariannol sifil

7.1 A ddylai rhybudd neu hysbysiad o fwriad fod yn ofynnol cyn y gellir gosod cosb ariannol sifil? Beth yw'r terfynau amser ar gyfer rhoi'r hysbysiad? Pa fanylion y mae'n rhaid i'r hysbysiad eu cynnwys?

7.2 Mae'n arferol bod hysbysiad o'r fath yn ofynnol a'i fod yn nodi'r rheswm pam mae'r awdurdod gorfodi yn bwriadu gosod cosb, swm y gosb, a gwybodaeth am gyflwyno sylwadau (gweler y pwynt nesaf).

7.3 Os bwriedir rhoi hysbysiad o fwriad i berson, mae bron yn anochel wedyn y bydd darpariaeth sy'n caniatáu i'r person gyflwyno sylwadau yn glŷn â'r gosb arfaethedig. Beth yw'r terfynau amser ar gyfer gwneud hynny? Pwy fyddai'n ystyried y sylwadau?

7.4 A ddylai derbynnydd yr hysbysiad gael cyfle i gyflawni ei rwymedigaeth i dalu'r gosb lawn drwy dalu swm llai a bennwyd yn yr hysbysiad o fwriad, neu drwy gynnig ymgymeriad? Erbyn pryd?

7.5 Pa fanylion y mae'n rhaid i hysbysiad sy'n gosod cosb ariannol eu cynnwys? Mae'n arferol ei gwneud yn ofynnol cynnwys manylion am y rheswm (seiliau) dros osod y gosb, sut i'w thalu, erbyn pryd y mae'n rhaid ei thalu, yr hyn a fydd yn digwydd os nad yw'n cael ei thalu, ac unrhyw hawl i apelio (gweler paragraff 9 isod).

8. Talu cosbau ariannol sifil

- 8.1 Beth yw'r terfyn amser ar gyfer talu'r gosb?
- 8.2 A ddylai fod disgownt am dalu cosbau'n gynnar? Pa mor gynnar y bydd yn rhaid eu talu er mwyn manteisio ar y disgownt?
- 8.3 A fydd talu'n hwyr yn arwain at daliadau llog, neu gosbau ychwanegol?
- 8.4 Beth ddylai ddigwydd os na chaiff cosb ariannol sifil ei thalu?
- Y sefyllfa arferol fyddai y byddai'r gosb yn adenilladwy fel dyled sifil (hynny yw, byddai angen cychwyn achos llys arferol i adennill y ddyled).
 - Efallai y byddai'n ddefnyddiol pe bai darpariaeth i wneud y ddyled yn adenilladwy, drwy orchymyn llys, fel pe bai'n daladwy o dan orchymyn llys: mae hynny'n golygu y gellir adennill swm y gosb ariannol sy'n ddyledus drwy weithdrefn llys haws a chyflymach. Efallai y byddai gweithdrefn llys gyflymach yn rhoi llai o gyfle i dderbynydd y sancsiwn ei wrthwynebu, felly bydd y gallu i apelio yn erbyn y sancsiwn yn berthnasol i'r penderfyniad hwn.
- 8.5 A oes unrhyw reswm dros wyro oddi wrth y sefyllfa arferol bod derbyniadau cosbau ariannol sifil yn cael eu talu i mewn i'r Gronfa Gyfunol berthnasol?

9. Apelau

- 9.1 A oes hawl i apelio i lys neu dribiwnlys (neu awdurdod gwneud penderfyniadau annibynnol arall) yn erbyn sancsiwn sifil a osodwyd (er enghraifft, apelio i Dribiwnlys Haen Gyntaf neu (yn yr Alban) siryf)?
- 9.2 Bydd angen ichi gael cyngor gan gyfreithwyr ynghylch a yw erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn ei gwneud yn ofynnol rhoi hawl i apelio mewn achos penodol. Mae'n debygol iawn y bydd angen hawl i apelio yn achos cosbau ariannol.
- 9.3 Os bydd hawl i apelio, gweler y datrysiad deddfwriaethol ynglŷn ag **apelau yn erbyn penderfyniadau gweinyddol**.

10. A oes angen pŵer i wneud darpariaeth bellach drwy is-ddeddfwriaeth?

- 10.1 Os rhoddir y pŵer i osod sancsiynau sifil drwy ddeddfwriaeth sylfaenol, a oes angen creu pŵer i is-ddeddfwriaeth wneud darpariaeth bellach (trosiannol, canlyniadol, atodol) ynglŷn â'r sancsiynau sifil?
- 10.2 Mae'n bosibl bod y ddeddfwriaeth sylfaenol yn amlinellu fframwaith sylfaenol (y mathau o gosbau sydd ar gael, seiliau dros eu gosod ac ati) a bod angen is-ddeddfwriaeth i roi'r manylion neu amrywio'r symiau. Mae'n well cynnwys cymaint o fanylion â phosibl yn y ddeddfwriaeth sylfaenol.
- 10.3 Pan fo sancsiynau sifil yn ymwneud â nifer o droseddau, gwaharddiadau neu ofynion, un dull posibl fyddai darparu pŵer i is-ddeddfwriaeth bennu'r troseddau, y gwaharddiadau neu'r gofynion dan sylw.
- 10.4 Opsiwn arall yw bod y ddeddfwriaeth sylfaenol yn rhoi pŵer i is-ddeddfwriaeth roi pwerau i awdurdod gorfodi osod sancsiynau sifil. Wrth weithredu felly, mae'n debygol y byddai angen i'r pwerau y gallai'r rheoliadau ganiatáu i awdurdod gorfodi eu harfer gael eu nodi yn y ddeddfwriaeth sylfaenol yn eithaf manwl, felly byddai'n bwysig o hyd ystyried y materion yn y datrysiad deddfwriaethol hwn.

11. Ystyriaethau pellach

- 11.1 Ystyriwch a oes angen unrhyw ddarpariaeth ynglŷn â'r materion canlynol.
- 11.2 A oes egwyddorion neu ofynion eraill y mae'n rhaid i awdurdod gorfodi eu cymhwyso neu eu dilyn wrth ddefnyddio ei bwerau i osod sancsiynau sifil? Os felly, a ddylid eu nodi mewn deddfwriaeth?

- 11.3 Neu a ddylai fod yn ofynnol i'r awdurdod ddatblygu a chyhoeddi ei egwyddorion neu ei bolisiau (canllawiau) ei hun ynglŷn â defnyddio'r pwerau? Os felly, a oes angen dilyn unrhyw broses benodol (er enghraifft, o ran ymgynghori, cyhoeddi neu osod gerbron y ddeddfwrfaf)?
- 11.4 A ddylai fod yn ofynnol i awdurdod gorfodi gyhoeddi adroddiad ynglŷn â sut mae wedi defnyddio ei bwerau i osod sancsiynau sifil? Yn benodol, pan fo gan awdurdod y pŵer i osod cosbau ariannol, efallai y byddai'n ofynnol iddo gyhoeddi cofnod o gosbau a osodwyd, gyda manylion y partion a'r mathau o achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth sydd yn sail i'r sancsiynau.
- 11.5 A ddylai fod modd i awdurdod gorfodi adennill ei gostau mewn cysylltiadau â sancsiynau sifil? A ellir cwmpasu'r holl gostau (er enghraifft, costau cyfreithiol neu gostau eraill yn ogystal â chostau ymchwiliad)? Sut y bwriedir gosod y gofyniad i dalu'r costau? Faint o amser a gaiff person i dalu? A oes unrhyw hawl i herio swm y costau neu apelio yn erbyn hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu talu?

12. Ymchwilio neu fonitro at ddibenion sancsiynau sifil

- 12.1 Fel yn achos trosedd, bydd angen cael gwybodaeth a chasglu tystiolaeth er mwyn darganfod a yw rheol yn cael ei thorri neu a oes methiant i gydymffurfio â gofyniad. A oes gan yr awdurdod sy'n gallu gosod y sancsiwn sifil y pwerau angenrheidiol? Ystyriwch bwerau mynediad, archwilio a chwilio (gweler y datrysiad deddfwriaethol sy'n ymwneud â **phwerau mynediad, archwilio, chwilio ac atafaelu**, yn enwedig paragraff 1 a pharagraffau 5.8 i 5.10). A fydd angen i'r deddfwriaeth ddarparu ar gyfer pwerau newydd, neu addasu pwerau presennol?
- 12.2 Ystyriwch sut y bydd yr heddlu, neu'r awdurdod gorfodi sydd â phwerau i osod y cosbau, yn cael yr wybodaeth sydd ei hangen i fonitro a fyddai'n briodol gosod sancsiwn sifil? A oes angen pwerau ymchwilio, neu bwerau i gael gwybodaeth am fathau penodol o unigolion neu gyrff?
- 12.3 Yn y cyd-destun rheoleiddio, efallai y bydd y pwerau a restrwyd yn *adran 108 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995* (www.legislation.gov.uk/ukpga/1995/25/section/108) yn cynnig rhestr wirio ddefnyddiol.

Engbreiffiau o'r datrysiad deddfwriaethol

Hysbysiadau gorfodi, hysbysiadau stop, ymgymeriadau gorfodi ac ati

- *Atodlen 5 i Ddeddf Refferenda (yr Alban) 2020* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2020/2/schedule/5) (caiff y Comisiwn Etholiadol roi hysbysiadau stop neu wneud ymgymeriadau gorfodi yn ofynnol os oes amheuaeth resymol bod trosedd wedi'i chyflawni (caiff hefyd osod cosbau ariannol penodedig neu amrywiadwy, os yw safon y prawf yn uwch))
- *Rhan 6 o Ddeddf Diogelu Data 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2018/12/part/6) (Caiff y Comisiynydd Gwybodaeth roi hysbysiad gorfodi mewn perthynas ag amrywiol achosion o dorri cyfrinachedd gwybodaeth – gweler yn benodol adrannau 149 a 150; ceir darpariaeth hefyd ar gyfer hysbysiadau gwybodaeth a hysbysiadau asesu)
- *Atodlen 1, Rhannau 2 a 3 o Ddeddf Ifori 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2018/30/schedule/1) (caiff yr Ysgrifennydd Gwladol roi hysbysiad stop neu wneud ymgymeriad gorfodi yn ofynnol yn lle erlyn achos troseddol am ymddygiad sy'n gyfystyr â throsedd o dan y Ddeddf)
- *Deddf Coedwigaeth a Rheoli Tir (yr Alban) 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2018/8/part/4/chapter/8), Pennod 8 o Ran 4 (Caiff Gweinidogion yr Alban roi hysbysiad stop neu hysbysiad cyweirio; gweler hefyd y "pŵer i gamu mewn" yn adran 59 sy'n caniatáu i Weinidogion yr Alban fynd ar dir a chymryd camau os bydd person yn methu â chydymffurfio â hysbysiad cyweirio)
- *Atodlen 1 i Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2016/25/schedule/1), paragraffau 3 a 10 (rhwymedigaethau a all gael eu cynnwys mewn hysbysiad o gosb ariannol – hybrid anarferol)
- *Pennod 1 o Ran 1 o Ddeddf Mudo 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2016/19/part/1/chapter/1), adrannau 14 i 16 (caiff awdurdod gorfodi dderbyn ymgymeriadau gorfodi'r farchnad lafur gan berson y mae'r awdurdod yn credu ei fod wedi cyflawni troseddau penodol o dan Ddeddfau eraill)
- *Deddf Sylweddau Seicoweithredol 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2016/2/contents), adrannau 13 a 15 (caiff swyddog gorfodi neu awdurdod lleol roi hysbysiad gwahardd os cred yn rhesymol fod person yn ymgymryd â gweithgarwch sy'n gyfystyr â throsedd o dan y Ddeddf); gweler hefyd adran 14 (hysbysiadau mangre)
- *Rhan 1 o Ddeddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1979/46/part/1), adrannau 9ZC i 9ZL, a fewnosodwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru roi hysbysiad gorfodi heneb neu hysbysiad stop dros dro)
- *Deddf Cronfeydd Dŵr (Gogledd Iwerddon) 2015* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2015/8/part/6), adrannau 67 a 71 (caiff Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig roi hysbysiad gorfodi sy'n ei gwneud yn ofynnol i reolwyr cronfeydd dŵr gydymffurfio â dyletswyddau statudol; ceir darpariaeth hefyd ar gyfer hysbysiadau stop ac ymgymeriadau gorfodi)
- *Atodlen 8 i Ddeddf Ynni 2013* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2013/32/schedule/8/part/2) (caiff arolygwyr y Swyddfa dros Reoleiddio Niwclear roi hysbysiad gwella neu hysbysiad gwahardd)
- *Deddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/Eliz2/8-9/62/part/1/crossheading/licensing-of-caravan-sites), adran 9A, a fewnosodwyd gan Ddeddf Cartrefi Symudol 2013 (caiff awdurdod lleol roi hysbysiad cydymffurfio mewn perthynas ag achosion o dorri amodau trwyddedau); ac, yn yr un modd, *Rhan 2 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2013/6/part/2) (gweler yn benodol adran 17)
- *Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2012/7/contents), adrannau 105 i 107 ac Atodlen 11 (Caiff Monitor osod gofynion cydymffurfio neu adfer neu dderbyn ymgymeriadau gorfodi)

- *Pennod 9 o Ran 1 o Ddeddf Cronfeydd Dŵr (yr Alban) 2011* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2011/9/part/1/chapter/9) (caiff Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban roi hysbysiad gorfodi o dan adran 65 neu 69 mewn perthynas â methiant i gydymffurfio ag amrywiol ddyletswyddau o dan y Ddeddf, neu roi hysbysiad stop o dan adran 73)
- *Rhan 5 o Ddeddf Cynllunio (Gogledd Iwerddon) 2011* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2011/25/part/5) (caiff cyngor dosbarth ac Adran yr Amgylchedd roi hysbysiad gorfodi mewn perthynas ag amrywiol achosion o dorri cyfraith cynllunio – gweler yn benodol adrannau 138 a 139; ceir darpariaeth hefyd ar gyfer hysbysiadau stop a hysbysiadau tramgwyddo)
- *adran 24 o Ddeddf Coedwigaeth (Gogledd Iwerddon) 2010* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2010/10/section/24) (caiff Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig roi hysbysiad gorfodi mewn perthynas ag achosion o dorri amod trwydded cwmpo coed; ceir darpariaeth hefyd ar gyfer hysbysiad ailstocio o dan adran 22)
- *Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2009/23/contents), adrannau 90 i 92 (hysbysiadau cydymffurfio a hysbysiadau cyweirio mewn perthynas â thorri amodau trwyddedu), adrannau 102 i 105 (hysbysiadau stop a hysbysiadau diogelwch mewn argyfwng)
- *Rhan 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2008/13/part/3) ((pwerau i Weinidog drwy orchymyn roi pŵer i reoleiddwyr penodol roi hysbysiadau cydymffurfio, hysbysiadau adfer, hysbysiadau stop neu ymgymeriadau gorfodi mewn perthynas â rhai troseddau sy'n bodoli eisoes)
- *Pennod 2 o Ran 1 o Ddeddf Pensiynau 2008* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2008/30/part/1/chapter/2) (caiff y Rheoleiddiwr Pensiynau roi hysbysiadau cydymffurfio, hysbysiadau cydymffurfio trydydd parti a hysbysiadau cyfraniadau heb eu talu am dorri dyletswyddau penodol yn y Ddeddf – gweler adrannau 35 i 37 a 43)
- *adran 37 o Ddeddf Tacsis (Gogledd Iwerddon) 2008* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2008/4/section/37) (Caiff Adran yr Amgylchedd roi hysbysiad gorfodi mewn perthynas â thorri dyletswyddau a osodwyd o dan y Ddeddf)
- *adran 32 o Ddeddf Cydraddoldeb 2006* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/3/section/32) (caiff y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol roi hysbysiad i gydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus o dan y Ddeddf)
- *Rhan 4A o Ddeddf Cyfathrebu 2003* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2003/21/part/4A) (caiff OFCOM roi hysbysiadau gorfodi os yw'n penderfynu bod person wedi torri un o ddarpariaethau'r Ddeddf – gweler adran 368I yn benodol)
- *Pennod 4 o Ran 3 o Ddeddf Menter 2002* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2002/40/part/3/chapter/4) (caiff y Comisiwn Cystadleuaeth dderbyn ymgymeriadau gorfodi a gwneud gorchmynion gorfodi – gweler yn benodol adrannau 82 ac 84 ac Atodlenni 8 a 10)
- *Atodlen 19C i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/41/schedule/19C) (caiff y Comisiwn Etholiadol osod gofynion yn ôl disgrisiwn os yw wedi'i fodloni y tu hwnt i bob amheuaeth resymol bod person wedi cyflawni trosedd o dan y Ddeddf neu wedi torri cyfyngiad neu ofyniad o dan y Ddeddf, caiff osod hysbysiad stop os yw'r Comisiwn yn rhesymol yn credu bod y person yn cyflawni gweithgaredd sy'n gyfystyr â'r cyfryw drosedd neu dor cyfyngiad, a chaiff dderbyn ymgymeriadau gorfodi os oes gan y Comisiwn seiliau rhesymol dros amau y cyfryw drosedd neu dor cyfyngiad – gweler Rhannau 2, 3 a 4 o Atodlen 19C)

Cosbau ariannol

- *Atodlen 5 i Ddeddf Refferenda (yr Alban) 2020* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2020/2/schedule/5) (cosbau ariannol penodedig ac amrywiadwy, yn ogystal â sancsiynau sifil eraill; Caiff y Comisiwn Etholiadol osod cosbau os yw wedi'i fodloni y tu hwnt i bob amheuaeth resymol bod trosedd wedi cael ei chyflawni)
- *Rhan 3 o Ddeddf Ardrethi Annomestig (yr Alban) 2020* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2020/4/part/3) (cosbau ariannol am dorri gofynion i ddarparu gwybodaeth)
- *Deddf Ffioedd Tenantiaid 2019* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2019/4/contents), adran 8 ac Atodlen 3 (caiff awdurdod pwysau a mesuriadau lleol neu gyngor dosbarth yn Lloegr osod cosb ariannol os yw wedi'i fodloni y tu hwnt i bob amheuaeth resymol bod person wedi torri un o ddarpariaethau'r Ddeddf neu wedi cyflawni trosedd o dan y Ddeddf)
- *Deddf Trafnidiaeth (yr Alban) 2019* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2019/17/contents), adrannau 6, 7 a 27, a 58 (taliadau cosb sy'n daladwy i awdurdodau lleol am yr ru'n groes i'r rheolau mewn parth allyriadau isel ac am dorri rheolau parcio)
- *Rhan 6 o Ddeddf Diogelu Data 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2018/12/part/6) (caiff y Comisiynydd Gwybodaeth osod cosb ariannol am dorri'r Ddeddf neu dorri hysbysiad gwybodaeth, hysbysiad asesu neu hysbysiad gorfodi); gweler yn benodol adran 155 ac Atodlen 16
- *Atodlen 1, Rhan 1 o Ddeddf Ifori 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2018/30/schedule/1) (caiff yr Ysgrifennydd Gwladol osod cosb ariannol os yw wedi'i fodloni y tu hwnt i amheuaeth resymol bod person wedi cyflawni trosedd o dan y Ddeddf)
- *Rhan 8 o Ddeddf Plismona a Throsedd 2017* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/3/part/8) (caiff y Trysorlys osod cosb ariannol os yw wedi'i fodloni yn ôl yr hyn sy'n debygol bod person wedi torri rhai gwaharddiadau penodol ac ati – gweler adrannau 146 i 149)
- *Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/29/contents), adran 15 ac Atodlen 3 (gosod cosb ariannol ar ddarparwyr addysg am dorri eu hamodau cofrestru)
- *Deddf Pwerau Ymchwilio 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2016/25/contents), adran 7 ac Atodlen 1 (caiff y Comisiynydd Pwerau Ymchwilio osod cosb ariannol o dan amgylchiadau penodol pan nad yw'r Comisiynydd o'r farn bod y person wedi cyflawni trosedd o dan y Ddeddf)
- *adrannau 46A i 46D o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/43/part/II/crossheading/collection-disposal-or-treatment-of-controlled-waste), a fewnosodwyd gan y Ddeddf Dadreoleiddio 2015: caiff awdurdod casglu gwastraff yn Lloegr osod cosb ariannol am dorri rheolau ynglŷn â gwastraff cartref. Disodlodd y gyfundrefn hon, i Loegr, y drosedd flaenorol ar gyfer y cyfryw achosion o dorri rheolau (gweler 46(6), sef y drosedd flaenorol sydd bellach ond yn gymwys mewn perthynas â Chymru a'r Alban)
- *Pennod 1 o Ran 3 o Ddeddf Mewnfudo 2014* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/22/part/3/chapter/1), adrannau 23 i 31 (caiff yr Ysgrifennydd Gwladol osod cosb ariannol ar landlord neu asiant landlord am dorri un o ddarpariaethau'r Ddeddf)
- *Rhan 2 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2013/6/part/2), adrannau 15 a 16 (caiff awdurdod lleol osod cosb ariannol benodedig (isel) mewn perthynas â thorri amodau trwyddedu. Noder mai "hysbysiad cosb benodedig" yw'r enw arno ac, yn anarferol, ymddengys mai hwn yw'r dull gorfodi cyntaf i'w ddefnyddio, ac wedyn hysbysiad cydymffurfio, os na chaiff y gosb ei thalu)
- *Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2012/7/contents), adran 105 ac Atodlen 11 (caiff Monitor osod cosb ariannol amrywiadwy os yw wedi'i fodloni bod gofynion trwyddedu wedi cael eu torri; hefyd, mae paragraff 5 o Atodlen 11 yn caniatáu i Monitor osod cosb ariannol os caiff gofyniad cydymffurfio neu ofyniad adfer ei dorri)

- *Deddf y Môr (yr Alban) 2010* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2010/5/part/4/crossheading/civil-sanctions), adrannau 46 i 50 ac Atodlen 2 (trwyddedu morol: cosbau ariannol penodedig ac amrywiadwy os yw Gweinidogion yr Alban wedi'u bodloni y tu hwnt i bob amheuaeth resymol bod trosedd wedi cael ei chyflawni)
- *Rhan 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau 2008* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2008/13/part/3) (pwerau i Weinidog drwy orchymyn roi pŵer i reoleiddwyr penodol osod cosbau ariannol penodedig neu amrywiadwy mewn perthynas â rhai troseddau sy'n bodoli eisoes)
- *Pennod 2 o Ran 1 o Ddeddf Pensiynau 2008* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2008/30/part/1/chapter/2) Pennod 2 o Ran 1 o Ddeddf Pensiynau 2008 (caiff y Rheoleiddiwr Pensiynau osod cosbau ariannol: gweler yn benodol adrannau 40, 41, 42 a 44. Noder mai "hysbysiad cosb benodedig"¹², yw'r enw ar hysbysiad cosb o dan adran 40, er mwyn gwahaniaethu rhyngddo ef a chosbau ariannol "esgynnol" o dan adran 41 mae'n debyg)
- *Rhan 4A o Ddeddf Cyfathrebu 2003* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2003/21/part/4A) (caiff OFCOM osod cosb ariannol os yw'n penderfynu bod person wedi torri un o ddarpariaethau'r Ddeddf – gweler yn benodol adrannau 368I a 368J)
- *Atodlen 19C i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/41/schedule/19C) (caiff y Comisiwn Etholiadol osod cosb ariannol benodedig neu amrywiadwy os yw wedi'i fodloni y tu hwnt i bob amheuaeth resymol bod person wedi cyflawni trosedd o dan y Ddeddf neu wedi torri cyfyngiad neu ofyniad o dan y Ddeddf – gweler Rhannau 1 a 2 o Atodlen 19C)
- *Pennod 3 o Ran 1 o Ddeddf Cystadleuaeth 1998* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1998/41/part/1/chapter/III) (caiff yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd osod cosb ariannol ar ôl canfod achos bwriadol neu esgeulus o dorri rheolau cystadleuaeth – gweler adran 36 yn benodol; a chaiff osod cosb ariannol am dorri gofyniad i ddarparu gwybodaeth ac ati – gweler adran 40A yn benodol)
- *Erthygl 10 o Orchymyn Pensiynau (Gogledd Iwerddon) 1995* (www.legislation.gov.uk/cy/nisi/1995/3213/article/10) (cosbau ariannol mewn perthynas â phensiynau)
- *Deddf Darlledu 1990* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/42/contents), adrannau 18 a 19 (mae'n rhaid i OFCOM osod cosb ariannol wrth ddiddymu trwydded Sianel 3 – darpariaeth debyg)

Engbreiffiau sy'n ymwneud â rhai pwyntiau penodol ynglŷn â sancsiynau sifil

Gorfodi hysbysiadau, ymgymeriadau ac ati:

- *paragraff 9 o Atodlen 1 i Ddeddf Ifori 2018* (www.legislation.gov.uk/ukpga/2018/30/schedule/1) (mae methiant i gydymffurfio â hysbysiad stop yn drosedd)
- *adran 155(1)(b) o Ddeddf Diogelu Data 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2018/12/section/155) (caiff y Comisiynydd Gwybodaeth osod cosb ariannol am fethiant i gydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth, hysbysiad asesu neu hysbysiad gorfodi)
- *paragraff 10 o Atodlen 1 i Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2016/25/schedule/1) (mae methiant i gydymffurfio â rhwymedigaethau gorfodi yn orfodadwy mewn achosion sifil am waharddeb ac ati)
- *adran 18 o Ddeddf Sylweddau Seicoweithredol 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2016/2/contents) (pan gaiff hysbysiad gwahardd ei dorri, caiff yr awdurdod gorfodi wneud cais i'r llys am orchymyn gwahardd)
- *Pennod 4 o Ran 3 o Ddeddf Menter 2002* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2002/40/part/3/chapter/4), adran 94 (mae methiant i gydymffurfio ag ymgymeriadau gorfodi neu orchymynion gorfodi yn orfodadwy mewn achosion sifil am waharddeb ac acti; mae hefyd – yn anarferol – yn darparu am hawl breifat i iawndal (adran 94(4))

¹² Gweler troednodyn 3. Mae hysbysiad tebyg yn Neddf Cynlluniau Pensiwn 2017 hefyd yn cael ei alw'n "hysbysiad cosb benodedig" (gweler *adrannau 17 a 18* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/17/contents)).

- *Pennod 3 o Ran 1 o Ddeddf Cystadleuaeth 1998* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1998/41/part/I/chapter/III), adran 31E (caiff yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wneud cais i lys i orfodi ymrwymadau ynglŷn â chystadleuaeth)

Darpariaeth ar gyfer iawndal am hysbysiad stop:

- *adran 47 o Ddeddf Coedwigaeth a Rheoli Tir (yr Alban) 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2018/8/section/47) (hysbysiad stop dros dro)
- *adran 75 o Ddeddf Cronfeydd Dŵr (yr Alban) 2011* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2011/9/part/1/chapter/9)
- *adran 9ZL o Ddeddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1979/46/part/I) (a fewnosodwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016) (hysbysiad stop dros dro)

Gorfodi talu cosbau ariannol:

- *Atodlen 3 i Ddeddf Ffioedd Tenantiaid 2019* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2019/4/schedule/3), paragraff 7
- *Atodlen 16 i Ddeddf Diogelu Data 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2018/12/schedule/16), paragraff 9
- *paragraff 9 o Atodlen 1 i Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2016/25/schedule/1)
- *adran 31 o Ddeddf Mewnfudo 2014* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/22/part/3/chapter/1)
- *adran 42 o Ddeddf Pensiynau 2008* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2008/30/section/42)

Taliadau llog am dalu cosb yn hwyr:

- *paragraff 4 o Atodlen 3 i Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/29/schedule/3)
- *adran 218 o Ddeddf Revenue Scotland a Phwerau Treth 2014* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2011/9/part/1/chapter/9)

Darpariaeth i awdurdod gorfodi adennill ei gostau:

- *Atodlen 1, Rhan 4 o Ddeddf Ifori 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2018/30/schedule/1)
- *adran 9C o Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/Eliz2/8-9/62/section/9C) (a fewnosodwyd gan Ddeddf Cartrefi Symudol 2013; gweler hefyd adran 9I)
- *adran 88 o Ddeddf Cronfeydd Dŵr (yr Alban) 2011* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2011/9/part/1/chapter/9)

Atal atebolrwydd am sawl sancsiwn sifil, neu am drosedd a sancsiwn sifil:

- *adrannau 8(4) a 12(4) o Ddeddf Ffioedd Tenantiaid 2019* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2019/4/contents)
- *paragraff 20 o Atodlen 2 i Ddeddf Cosbau ac Atal Gwyngalchu Arian 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2018/13/schedule/2)
- *paragraffau 4, 10(2) a 19 o Atodlen 1 i Ddeddf Ifori 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2018/30/schedule/1)
- *Atodlen 19C i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/41/schedule/19C), paragraffau 4 a 22

Gofyniad i awdurdod gorfodi gyhoeddi canllawiau ynglŷn â'i ddefnydd o bwerau gorfodi:

- *paragraff 26 o Atodlen 5 i Ddeddf Refferenda (yr Alban) 2020* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2020/2/schedule/5/part/5/crossheading/guidance-as-to-enforcement)
- *adrannau 160 a 161 o Ddeddf Diogelu Data 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2018/12/part/6)
- *paragraff 21 o Atodlen 1 o Ddeddf Ifori 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2018/30/schedule/1)
- *paragraff 11 o Atodlen 1 i Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2016/25/schedule/1)
- *Atodlen 19C i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/41/schedule/19C)

Pwerau i wneud rheoliadau ynglŷn â sancsiynau sifil

Pŵer i wneud rheoliadau (neu orchymyn) i ehangu ar sancsiynau sifil a grëir gan Ddeddf:

- *adrannau 149 (8) a (9) o Ddeddf Diogelu Data 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2018/12/part/6)
- *Atodlen 1, Rhan 5 o Ddeddf Ifori 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2018/30/schedule/1)
- *Atodlen 19C i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/41/schedule/19C), paragraffau 16 i 19

Pŵer i wneud rheoliadau i newid swm cosbau ariannol:

- *adran 9 o Ddeddf Ffioedd Tenantiaid 2019* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2019/4/contents)

Pŵer i wneud rheoliadau (neu orchymyn) i ganiatáu gosod sancsiynau sifil sy'n ymwneud â throseddau a grëir gan Ddeddf:

- *adran 59 o Ddeddf y Diwydiant Gofod 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2018/5/section/59) (caiff rheoliadau ganiatáu i reoleiddiwr osod y mathau o sancsiynau sifil a ddisgrifiwyd yn Rhan 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau 2008, sy'n ymwneud â throseddau a grëwyd gan Ddeddf y Diwydiant Gofod)
- *adrannau 83 ac 86 o Ddeddf Cronfeydd Dŵr (Gogledd Iwerddon) 2015* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2015/8/part/6/crossheading/other-civil-enforcement-measures) (caiff Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig wneud rheoliadau sy'n caniatáu gosod cosbau ariannol penodedig neu amrywiadwy os yw wedi'i bodloni y tu hwnt i bob amheuaeth resymol bod rheolwr cronfa ddŵr wedi cyflawni trosedd o dan y Ddeddf)
- *adrannau 35 a 36 o Ddeddf y Môr (Gogledd Iwerddon) 2013* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2013/10/part/3/crossheading/fixed-monetary-penalties) (caiff gorchymyn ganiatáu Adran yr Amgylchedd i osod cosb ariannol benodedig os yw wedi'i bodloni y tu hwnt i bob amheuaeth resymol bod person wedi cyflawni trosedd o dan y Ddeddf. Gweler hefyd Atodlen 2 – ceir llawer o fanylion yma ynglŷn â pha ddarpariaeth y byddai'n rhaid i'r cyfryw orchymyn ei gwneud)
- *adrannau 93 i 96 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2009/23/contents) (caiff gorchymyn ganiatáu i awdurdod gorfodi osod cosbau ariannol penodedig neu amrywiadwy sy'n ymwneud â throseddau trwyddedu o dan y Ddeddf. Gweler hefyd Atodlen 7 – ceir llawer o fanylion yma ynglŷn â pha ddarpariaeth y byddai'n rhaid i orchymyn o'r fath ei wneud)

Pŵer i is-ddeddfwriaeth ganiatáu gosod sancsiynau sifil yn Neddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau 2008, sy'n ymwneud â throsteddau a grëir drwy is-ddeddfwriaeth:

- gweler adran 62 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau 2008 (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2008/13/part/3), ac Atodlen 7 i'r Ddeddf honno

Pŵer i reoliadau greu sancsiynau sifil pan nad oes unrhyw drosedd:

- *Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, Atodlen 6, Rhan 2* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2008/27/schedule/6) a *Deddf yr Amgylchedd 2016, Atodlen 1* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/3/schedule/1) (caiff rheoliadau ddarparu ar gyfer cosbau ariannol penodedig a gofynion yn ôl disgresiwn ar gyfer achosion o dorri rheoliadau sy'n ymwneud â chodi tâl am fapiau siopa)
- *Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, Atodlen A1* (www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2008/2/schedule/A1) (caiff rheoliadau ddarparu ar gyfer cosbau ariannol penodedig, gofynion yn ôl disgresiwn, hysbysiadau stop ac ymgymeriadau gorfodi mewn perthynas ag achosion o dorri rheoliadau sy'n ymwneud â defnyddio cerbydau at ddibenion cludo dysgwyr)
- *Rhan 6 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2004/18/part/6) (taliadau cosb, gweler yn benodol adrannau 72, 78, 80, 82 ac Atodlen 9; caiff yr awdurdodau gorfodi bennu'r lefel o daliadau a godir, a chaiff y rheoliadau greu troseddau).

11 Gorchmynion ataliol

Mae'r datrysiad hwn yn diogelu'r cyhoedd rhag niwed drwy orchmynion sifil neu hysbysiadau, sydd wedi eu targedu yn erbyn unigolion, ac sy'n atal neu'n gwahardd mathau dynodedig o weithgaredd rhag digwydd neu ailddigwydd. Gall gweithgaredd o'r fath fod fel arall yn gwbl gyfreithlon ynddo'i hun. Gall fod gan orchymyn ataliol sifil y fantais o ddarparu mwy o hyblygrwydd nag erlyniad troseddol.

Disgrifiad o'r datrysiad deddfwriaethol

Caniateir i'r pŵer i ddyroddi'r gorchymyn gael ei roi i'r llywodraeth ganolog neu i lywodraeth leol, i'r llysoedd sifil neu droseddol, neu i berson cyfreithiol arall.

Datrysiadau deddfwriaethol cysylltiedig

Wrth bwysu a mesur sut i ymdrin â'r broblem y mae'r deddfwriaeth arfaethedig yn cael ei hanelu ati, gellid ystyried y datrysiad hwn fel bron yr un peth â **thrwyddedu**: mae'r olaf yn golygu gwahardd pawb rhag ymgymryd â gweithgaredd, ac wedyn yn trwyddedu i'w ganiatáu mewn achosion unigol (a'r ceisiadau am y trwyddedau yn cael eu gwneud yn wirfoddol); tra bo gorchmynion ataliol yn atal unigolion rhag ymgymryd â gweithgaredd a allai fod yn gyfreithlon yn gyffredinol (a'r gorchmynion yn cael eu gosod ar berson yn anwirfoddol). O safbwynt technegol, gellir gweld bod y gweithdrefnau nodweddiadol sy'n amgylchynu gorchmynion ataliol yn cynnwys llawer o'r un ystyriaethau â'r rhai ar gyfer trwyddedu: e.e. gwneud cais, amrywio, adnewyddu, rhyddhau, apelio, a gorfodi drwy greu trosedd peidio â chydymffurfio.

Mae cysylltiad clir hefyd â throseddau yn gyffredinol. Gellir edrych ar orchmynion ataliol sifil megis gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASBOs), gorchmynion atal masnachu a chamfanteisio a hysbysiadau rheoli cŵn fel dewis amgen i wneuthurwyr polisi yn lle creu trosedd am yr un math o weithgaredd niweidiol. Felly, er eu bod fel arfer yn orchmynion sifil, gellid ymddangos eu bod yn droseddol eu "naws", am eu bod yn cyfyngu ar fathau penodol o ymddygiad neu'n eu

gwahardd. Maent yn cael eu defnyddio yn aml hefyd mewn llysoedd troseddol ar ôl euogfarn am droseddau perthnasol (er enghraifft, troseddau rhywiol). Gweler y datrysiad deddfwriaethol mewn perthynas â **throseddau**.

Amseriad yw'r gwahaniaeth hollbwysig: mae gorchmynion ataliol yn ymgais i weithredu cyn bod y gweithgaredd niweidiol yn digwydd mewn gwirionedd, yn hytrach na'i gosbi wedi iddo ddigwydd, drwy gyfyngu unigolyn rhag gwneud rhywbeth a fyddai efallai yn ei alluogi i beri niwed o fath penodol. Gall hyn fod yn ffactor allweddol wrth ystyried pa ddatrysiad deddfwriaethol a ddewisir ar gyfer y broblem polisi benodol.

Elfennau'r datrysiad deddfwriaethol

1. Y gweithgaredd sydd i'w reoleiddio

- 1.1 Beth yw'r gweithgaredd niweidiol a fydd yn destun y gorchymyn ataliol?
- 1.2 Pa sbardunau a ddylai fod ar gyfer cais am y gorchymyn?
 - Er enghraifft, euogfarnu a dedfrydu am drosedd berthnasol (a/neu ryddfarnu ar sail anhwylder meddwl neu ganfyddiad perthnasol arall y llys) ynteu cais sy'n sefyll ar ei ben ei hun ar ôl i feini prawf ffeithiol penodol gael eu bodloni, neu'r ddau.

2. Y weithdrefn ar gyfer ceisiadau am orchymyn ataliol

- 2.1 Pwy a gaiff wneud cais am orchymyn ataliol? Pwy sydd i wrando'r cais?

- Bydd hynny'n dibynnu yn y pen draw ar ddifrifoldeb y niwed y mae'r gorchymyn yn ceisio ei atal.

2.2 Beth fydd y broses ar gyfer gwneud cais am orchymyn?

- Er enghraifft, a ddylai fod angen unrhyw ymgynghori cyn gwneud cais?

2.3 A ddylai fod gan y ceisydd hawl i gael gwrandawriad? A ddylai fod gan y person a fydd yn ddarostyngedig i'r gorchymyn hawl i gael gwrandawriad?

- Os felly, pa reolau tystiolaeth a ddylai fod yn gymwys? Er enghraifft, pwy a ddylai ysgwyddo'r baich profi, ac yn ôl pa safon profi – sifil ynteu troseddol?

2.4 A ddylai fod gofyniad i roi hysbysiad am y cais i'r person sydd i fod yn ddarostyngedig i'r gorchymyn a/neu i unrhyw bersonau eraill sydd â buddiant – ac os felly, i bwy?

2.5 A ddylai fod cyfle i'r person a fydd yn ddarostyngedig i'r gorchymyn a/neu unrhyw bersonau eraill a chanddynt fuddiant gyflwyno sylwadau ar y gorchymyn?

- Byddai cyfiawnder naturiol fel arfer yn ei gwneud yn ofynnol bod rhyw ffurf ar drefn briodol ar gyfer y person(au) y byddai'r gorchymyn yn effeithio arno (arnynt) – byddai angen cyfiawnhad cadarn dros ddiffyg darpariaeth am hyn neu fel arall byddai materion Siarter Hawliau Dynol Ewrop yn debyg o godi.

2.6 Ystyrier hefyd unrhyw effaith ar reolau presennol y llys – ac a oes angen rheolau newydd – o ganlyniad i'r gweithdrefnau a gynigir ar gyfer y gorchymyn.

3. Caniatáu neu wrthod cais am orchymyn ataliol

3.1 A oes disgrisiwn i fod ar gyfer caniatáu'r gorchymyn, ynteu dyletswydd i'w ganiatáu?

3.2 Os disgrisiwn, pa feini prawf y mae rhaid i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad eu defnyddio i asesu'r cais? A yw'r meini prawf hyn yn faterion ffaith ynteu'n faterion barn? A ddylai'r meini prawf fod yn gymwys i bob gofyniad neu waharddiad yn y gorchymyn, ynteu i'r gorchymyn yn ei gyfanrwydd?

3.3 Os dyletswydd, a oes eithriadau pan na fo'r ddyletswydd i ganiatáu'r gorchymyn yn codi? A oes achosion pan fo dyletswydd syml i wrthod y cais, ynteu a ddylai fod disgrisiwn gweddilliol i ganiatáu'r gorchymyn?

4. Cynnwys a ffurf gorchymyn ataliol

4.1 Pa ffurf y mae'r gorchymyn i'w chymryd a beth ddylai'r gorchymyn gynnwys ar ei wyneb?

4.2 A yw'r prif ofyniad yn atal neu'n gwahardd y gweithgaredd niweidiol yn ddiamed ynteu a yw'r gweithgaredd i gael ei ganiatáu cyhyd â'i fod yn bodloni amodau penodedig?

4.3 Os yw'r gweithgaredd i gael ei ganiatáu yn ddarostyngedig i amodau, pa amodau y caniateir eu gosod? A ddylai'r holl amodau a ganiateir gael eu nodi yn y ddeddfwriaeth, ynteu a ddylai fod disgrisiwn ehangach i osod amodau? A ddylai fod amodau diofyn y mae rhaid eu cynnwys?

4.4 A gaiff y gorchymyn bennu camau cadarnhaol penodol y mae rhaid i'r person sy'n ddarostyngedig i'r gorchymyn eu cymryd i atal y gweithgaredd niweidiol (e.e. safnrwymo ci peryglus, ymgylwyno mewn gorsaf heddlu)? Ynteu enghreifftiau penodol o weithgareddau (e.e. chwarae cerddoriaeth yn rhy uchel, teithio dramor) y gwaherddir y person rhag ymgymryd â hwy?

4.5 Pa ofynion ategol y dylai (neu y caiff) y gorchymyn eu cynnwys?

- Un enghraifft gyffredin fyddai dyletswydd ar y person sy'n ddarostyngedig i'r gorchymyn i hysbysu'r awdurdod perthnasol am newidiadau yn ei enw neu ei gyfeiriad.

4.6 Am be gyfnod y dylid caniatáu i'r gorchymyn barhau? A yw isafswm ac uchafswm y cyfnodau wedi eu rhagnodi? A ellir eu hestyn?

- Gall gorchymynion y mae eu hyd yn amhenodol godi materion Siarter Hawliau Dynol Ewrop, yn enwedig os ydynt yn rheoleiddio ymddygiad a fyddai fel arall yn gyfreithlon.

- Gall sefyllfa godi, yn sgil dedfrydu troseddwr mewn achos troseddol ar wahân, pan fo gorchymyn ataliol eisoes yn bodoli, a hwnnw wedi ei osod gan y llysoedd sifil – a byddai'r llys troseddol yn archwilio a ddylid amrywio'r gorchymyn sy'n bodoli. Ystyrier felly a ddylai fod estyniad i'r gorchymyn ar euogfarn am drosedd arall (gweler hefyd baragraff 7.8 isod).

4.7 Pa fanylion penodol eraill (os ydynt yn hysbys) y mae rhaid eu cynnwys yn y gorchymyn?

- Er enghraifft: dyddiad ei gyflwyno a'i effaith; enw a chyfeiriad y person sy'n ddarostyngedig i'r gorchymyn; y rhesymau dros gyflwyno'r gorchymyn; a gwybodaeth ar gyfer y person sy'n ddarostyngedig i'r gorchymyn am weithdrefnau pellach e.e. ar apêl, amrywio, rhyddhau a pheidio â chydymffurfio â'r gorchymyn yn ffurfio trosedd (os yw'n gymwys).

4.8 Pa ddarpariaeth am gynnwys a ffurf sydd i fod mewn deddfwriaeth sylfaenol, a pha fanylion y gellir eu gadael i is-ddeddfwriaeth? Os dewisir is-ddeddfwriaeth, pa weithdrefn seneddol y bernir ei bod yn briodol?

5. Amrywio, adnewyddu a rhyddhau gorchymyn ataliol

5.1 A ddylai fod yn bosibl i orchymyn ataliol gael ei amrywio, ei adnewyddu neu ei ryddhau?

5.2 Os felly, a ddylai'r ceisydd gwreiddiol (e.e. os yw'n awdurdod cyhoeddus) allu amrywio, adnewyddu neu ryddhau'r gorchymyn o'i wirfodd? Ynteu a ddylai orfod gwneud cais i wneud hynny?

5.3 Os caiff y ceisydd gwreiddiol amrywio etc. o'i wirfodd, beth yw'r weithdrefn ar gyfer gwneud hynny? A ddylid hysbysu'r person sy'n ddarostyngedig i'r gorchymyn ac unrhyw bersonau eraill a chanddynt fuddiant? A ydynt i gael cyfle i gyflwyno sylwadau?

- Unwaith eto, mae materion Siarter Hawliau Dynol Ewrop yn debyg o godi os na ddarperir yn ddigonol ar gyfer trefn briodol fan hyn.

5.4 Pwy fyddai'n gwrando cais am amrywio, adnewyddu neu ryddhau?

- Yn yr Alban mae'n well o lawer gan Wasanaeth y Llysoedd, am resymau adnoddau, fod ceisiadau o'r fath yn mynd yn eu hôl i lys y gwrandawriad cyntaf.

5.5 Pwy arall a ddylai allu gwneud cais am amrywio, adnewyddu neu ryddhau – e.e. y person sy'n ddarostyngedig i'r gorchymyn? A ddylai fod unrhyw gyfyngiadau ar wneud hynny – er enghraifft, terfyn amser, neu fod dim ond hawl gwneud cais ar seiliau penodol?

5.6 Pa feini prawf y mae angen eu bodloni er mwyn i'r gorchymyn gael ei amrywio, ei adnewyddu neu ei ryddhau?

5.7 Sut y mae'r weithdrefn ar gyfer gwneud cais am amrywio, adnewyddu neu ryddhau yn wahanol (os o gwbl) i'r weithdrefn ar gyfer y prif gais?

5.8 Beth ddylai statws y gorchymyn gwreiddiol fod tra bo'r cais am amrywio/adnewyddu/rhyddhau yn cael ei brosesu – a ddylai gael ei atal dros dro ynteu a ddylai barhau mewn grym?

6. Apelau

6.1 Pa hawliau apelio ddylai fod yn erbyn penderfyniadau ynglŷn â'r gorchymyn ataliol?

- Gall hawliau i apelio fod yn arbennig o bwysig os nad oes, er enghraifft, unrhyw gyfle i gyflwyno sylwadau llafar ar y cais cychwynnol. Gall y cwestiwn ynghylch beth sy'n drefn briodol ddigonol gael ei fesur yn gronnol.
- Ar gyfer cwestiynau manwl i'w hystyried mewn perthynas ag apelau, gweler y datrysiad deddfwriaethol mewn perthynas ag **apelio yn erbyn penderfyniadau gweinyddol**. Bydd y cwestiynau sydd wedi'u nodi yn y datrysiad hwnnw yn berthnasol hyd yn oed os rhoddir y pŵer i wneud y gorchymyn atal i lys yn hytrach na chorff gweinyddol.

- 6.2 A ddylai fod darpariaeth benodol ynghylch gwahardd cosbi ddwywaith?
- Hynny yw, pan fo cais wedi ei wneud a'i wrthod, neu fod apêl wedi ei gwneud yn llwyddiannus yn erbyn caniatáu gorchymyn, bod rheol na chaniateir i gais pellach gael ei wneud am orchymyn arall yn erbyn yr un person oni bai bod newid mewn amgylchiadau. Gall absenoldeb cyfyngiadau ynaglŷn â gwahardd cosbi ddwywaith godi materion Siarter Hawliau Dynol Ewrop (gweler gorchmynion rheoli o dan Ddeddf Atal Terfysgaeth 2005 fel enghraifft).

7. Gorfodi

- 7.1 Sut y dylai'r gorchymyn ataliol gael ei orfodi? A oes dyletswyddau cyffredinol i fod ar y llywodraeth neu bersonau eraill, e.e. i fonitro cydymffurfedd â gorchmynion?
- 7.2 A yw'n angenrheidiol i'r gorchymyn ataliol fod yn orfodadwy ledled y DU? Er enghraifft, yn yr Alban, bydd angen ystyried yr angen am is-ddeddfwriaeth o dan adran 104 o Ddeddf yr Alban 1998 yr un pryd ag y cyfarwyddir ynaglŷn â'r ddeddfwriaeth sylfaenol.
- 7.3 A fydd trosedd arwahanol o dorri'r gorchymyn? Os felly, gweler y datrysiad deddfwriaethol mewn perthynas â **throseddau**.
- 7.4 A oes unrhyw orchmynion ar ôl euogfarn i fod ar gael? Er enghraifft, anghymhwysio rhag cael perchenogaeth ar gŵn peryglus (gweler hefyd baragraff 10.2 isod am opsiynau amgen pan fetho popeth arall).
- 7.5 Beth yw statws y gorchymyn gwreiddiol ar ôl erlyniad/euogfarn am ei dorri?
- 7.6 Fel dull amgen neu ychwanegol o greu trosedd arwahanol o dorri'r gorchymyn, a oes canlyniadau penodol i fod i'r person sy'n ddarostyngedig i'r gorchymyn os cyflawnir troseddau eraill tra bo'r gorchymyn mewn grym – e.e. bod bodolaeth y gorchymyn yn cael yr effaith o waethygu'r ddeddfryd am y troseddau ar wahân hynny?

- 7.7 A yw'r heddlu neu bersonau eraill i gael pwerau penodol i fynd i mewn, chwilio, arestio neu gadw'n gaeth er mwyn gallu gorfodi cydymffurfedd â'r gorchymyn? (Gweler y datrysiad deddfwriaethol mewn perthynas â **phwerau mynediad, archwilio, chwilio ac ymafael**.)

8. Gorchmynion interim

- 8.1 A ddylai fod yn bosibl gwneud cais am orchymyn ataliol interim?
- 8.2 Os felly, pwy a gaiff wneud cais am orchymyn interim? I bwy y mae'r cais i'w wneud?
- 8.3 Pryd y dylai'r cais am y gorchymyn interim allu cael ei wneud? Dim ond ar yr un pryd ag y gwneir y prif gais, ynteu ar wahân?
- 8.4 Beth yw'r meini prawf sydd i'w defnyddio gan y penderfynwr er mwyn asesu'r cais interim?
- 8.5 Sut y mae'r meini prawf hyn i fod yn wahanol i'r modd yr asesir y prif gais? Er enghraifft, a gaiff disgresiwn ehangach ynteu mwy cyfyng ei roi i'r penderfynwr?
- 8.6 Beth yw'r weithdrefn ar gyfer gwneud cais am orchymyn interim? Sut y mae'n wahanol (os o gwbl) i'r weithdrefn ar gyfer y prif gais? A ddylai fod gofyniad i hysbysu'r rhai yr effeithir arnynt a rhoi cyfle iddynt gyflwyno sylwadau? Gweler paragraff 2.5 uchod am hyn.
- 8.7 Pryd y dylai'r gorchymyn interim gael effaith ac am ba hyd? Er enghraifft, am gyfnod penodedig ynteu hyd nes y bydd y prif gais wedi ei benderfynu (neu hyd nes y ceir penderfyniad ynghylch apêl gyntaf neu y'i tynnir yn ôl, neu os yw'r amser ar gyfer apelio wedi dirwyn i ben heb i unrhyw apêl gael ei gwneud)?

9. Cofrestr orchmynion

- 9.1 A oes cofrestr neu gronfa ddata i fod a fyddai'n cynnwys y gorchmynion ataliol sydd mewn grym?
- 9.2 Os felly, pwy sydd i'w chynnal a'i rheoli?
- 9.3 Pa wybodaeth y dylai ei chynnwys?
- 9.4 Pwy ddylai allu ei gweld? A ddylai ffioedd fod yn daladwy i'w gweld?
- 9.5 A ddylai'r wybodaeth sydd ynddi allu cael ei rhannu â chyrrff a phersonau eraill?
- Os felly, byddai angen ystyried yn ofalus y rhyngweithiad â Deddf Diogelu Data 2018 – a materion Siarter Hawliau Dynol Ewrop sy'n gysylltiedig.

10. Materion amrywiol

- 10.1 A oes unrhyw fecanweithiau i fod ar gyfer monitro gweithrediad y gorchmynion ataliol? Gall hyn fod yn ystyriaeth bwysig pan fo'r gorchmynion yn cael eu canfod fel rhai sy'n dra chyfyngol (e.e. gorchmynion rheoli). Gallai mecanweithiau o'r fath gynnwys, er enghraifft—
- paratoi adroddiad ar y gorchmynion a'i osod gerbron y Senedd;
 - penodi person i adolygu'r modd y mae'r ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu; neu
 - “cymal machlud” sy'n gwneud i'r ddeddfwriaeth ddod i ben ar ôl cyfnod amser penodedig.

- 10.2 A ddylai fod opsiwn ar gyfer sefyllfa pan fetho popeth arall neu opsiwn amgen os yw'n ymddangos bod, neu y byddai, gorchmynion ataliol yn aneffeithiol neu'n amhriodol? Er enghraifft, cais am ddifa ci pan fo hysbysiad rheoli cŵn wedi methu neu'n debyg o fethu.
- 10.3 A all un math o orchmynion arwain at fath arall? Er enghraifft, mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol etc. (Yr Alban) 2004 yn caniatáu i siryf, os yw'n gosod ASBO ar blentyn, wneud gorchmynion rhianta cysylltiedig yn erbyn rhiant y plentyn, a chyfeirio'r achos i wrandawriad plant.
- 10.4 Peth arall sydd i'w nodi yn Neddf 2004 yw'r gofyniad i'r siryf esbonio telerau'r ASBO mewn iaith gyffredin wrth ei wneud: rhywbeth y gellid ei ystyried yn benodol ar gyfer gorchmynion y gellir eu gwneud yn erbyn plant.

Engbreiffiau o'r datrysiad deddfwriaethol

- *Deddf Dedfrydu 2020* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2020/17/contents), Rhan 11 (“gorchmynion ymddygiad” y gellid eu gorfodi ar berson sydd wedi cael ei ddyfarnu yn euog o drosedd – gorchmynion ymddygiad troseddol, gorchmynion atal niwed rhywiol, gorchmynion atal, gorchmynion rianta a rhwymo)
- *Deddf Gwahardd Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (Yr Alban) 2005*, adrannau 5A i 5R – a fewnosodwyd gan *Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (Diogelu a Chanllawiau) (Yr Alban) 2020* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2020/9/contents), adran 1 (gorchmynion diogelu anffurfio organau cenhedlu benywod)
- *Deddf Arfau Ymosodol 2019* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2019/17/contents), Rhan 2 (gorchmynion atal troseddau cylllell)
- *Deddf Tai a Chynllunio 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2016/22/contents), Pennod 2 o Ran 2 (gorchmynion gwahardd ar gyfer landlordiaid ac asiantwyr eiddo twyllodrus)
- *Deddf Ymddygiad Camdriniol a Niwed Rhywiol (Yr Alban) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2016/22/contents), Rhan 2 (gorchmynion atal niwed rhywiol a gorchmynion risg niwed rhywiol)
- *Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2015/30/contents), Rhan 2 (gorchmynion atal caethwasiaeth a masnachu a gorchmynion risg caethwasiaeth a masnachu)
- *Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2015/6/contents), Pennod 2 o Ran 1 (gorchmynion gwahardd dros dro ar gyfer personau yr amheuir eu bod yn cymryd rhan mewn terfysgaeth)
- *Deddf Masnachu Pobl a Chamfanteisio ar Bobl (Yr Alban) 2015* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2015/12/contents), Rhan 4 (gorchmynion atal masnachu a chamfanteisio a gorchmynion risg masnachu a chamfanteisio)
- *Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/12/contents) Rhan 1 (yn disodli ASBOs yn Lloegr a Chymru gyda gwaharddebau), Rhan 2 (gorchmynion ymddygiad troseddol), Rhan 4 (hysbysiadau gwarchod y gymuned a gorchmynion diogelu manau agored cyhoeddus)
- *Deddf Mesurau Atal ac Ymchwilio i Derfysgaeth 2011* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2011/23/contents) (yn disodli gorchmynion rheoli gyda mesurau atal ac ymchwilio i derfysgaeth)
- *Deddf Rheoli Cŵn (Yr Alban) 2010* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2010/9/contents) (hysbysiadau rheoli cŵn)
- *Deddf Troseddu Difrifol 2007* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2007/27/contents), Rhan 1 (gorchmynion atal troseddau difrifol)
- *Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol etc. (Yr Alban) 2004* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2004/8/contents), Rhan 2 (yn cyflwyno math newydd o ASBOs yn yr Alban)
- *Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (Gogledd Iwerddon) 2004* (www.legislation.gov.uk/cy/nisi/2004/1988/contents) (ASBOs)

12 Rhoi hysbysiad

Mae'r datrysiad hwn yn ymwneud â rhoi hysbysiad fel rhan o gynllun deddfwriaethol.

Disgrifiad o'r datrysiad deddfwriaethol

Bydd perthnasedd nifer o'r materion a amlinellir isod yn amrywio yn ôl y rheswm dros roi hysbysiad. Mae llawer o resymau dros ei gwneud yn ofynnol rhoi hysbysiad, er enghraifft efallai y bydd angen gwneud hynny er mwyn:

- rhoi gwybodaeth i berson penodol at ddiben penodol,
- rhoi rhybudd i berson,
- hysbysu person o benderfyniad, y rhesymau dros y penderfyniad a goblygiadau'r penderfyniad,
- hysbysu person o'ch bwriadau,
- gwahardd person rhag gwneud rhywbeth,
- ei gwneud yn ofynnol neu ganiatáu i berson wneud rhywbeth,
- penodi neu ddynodi person i rôl benodol,
- dechrau proses neu gam penodol mewn proses.

Felly, mae rhoi hysbysiad yn galluogi person i ymateb i gynnig a gwneud sylwadau yn ei gylch, neu baratoi ar gyfer newidiadau arfaethedig.

Mae'r datrysiad hwn yn ymwneud â materion a all godi wrth ystyried pa ddarpariaeth sydd ei hangen i roi hysbysiad. Nid yw'r materion yn codi ym mhob achos, a bydd yn dibynnu ar y cyd-destun faint y mae angen ei nodi. Felly, er enghraifft, ni fydd angen cymaint o fanylion pan fydd y person sy'n rhoi'r hysbysiad a'r person sy'n ei dderbyn yn adnabod ei gilydd, pan na fydd yr wybodaeth y mae angen ei chynnwys yn yr hysbysiad yn gymhleth neu pan na fydd yr hysbysiad yn effeithio ar hawliau unigolion. Er bod y nodyn hwn yn cyfeirio at hysbysiadau, gall y materion hyn hefyd fod yn gymwys i roi neu gyflwyno dogfennau a gwybodaeth arall.

Datrysiadau deddfwriaethol cysylltiedig

Gellir cynnwys darpariaeth ynglŷn â hysbysiadau mewn bron unrhyw gynllun deddfwriaeth. Er enghraifft, gall cyfundrefn **drwyddedu** gynnwys amrywiol ofynion i roi hysbysiadau. Gweler hefyd y datrysiadau sy'n ymwneud â **hysbysiadau cosb benodedig**, **sancsiynau sifil** a **phwerau mynediad**, **archwilio**, **chwilio ac atafaelu**.

Elfennau'r datrysiad deddfwriaethol

1. Ffurf yr hysbysiad

1.1 Ar ba ffurf y dylai'r hysbysiad fod?

1.2 Weithiau, bydd ffurf yr hysbysiad yn amlwg o'r cyd-destun ond mewn achosion eraill efallai y bydd angen pennu'r ffurf. Fel arall, gellid rhoi'r pŵer i bennu ei ffurf i dderbynnydd yr hysbysiad. Os na ddywedir dim, ac nid yw'r cyd-destun yn gofyn am ffurf benodol, yna'r person sy'n rhoi hysbysiad fydd yn dewis ei ffurf.

1.3 Os bwriedir pennu'r ffurf:

- A ddylai'r hysbysiad gael ei roi'n ysgrifenedig, neu a ellid ei roi ar lafar neu mewn rhyw ffordd arall? Ai sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei darparu yw'r unig nod, neu a oes angen sicrhau hefyd ei bod yn cael ei darparu ar ffurf barhaol?
- Os bwriedir rhoi'r hysbysiad yn ysgrifenedig, a all fod yn ddogfen neu'n gyfathrebiad electronig, neu a oes rhaid darparu "copi caled" ar bapur?
- A ddylai'r hysbysiad gael ei baratoi drwy ddefnyddio ffurflen neu dempled safonol?

2. Cynnwys hysbysiad

2.1 Beth y dylid ei gynnwys yn yr hysbysiad?

2.2 Er enghraifft, efallai y byddai'n ofynnol i hysbysiad nodi:

- y dyddiad y'i rhoddir neu'r dyddiad y bydd yn cael effaith,
- y rhesymau dros ei roi,
- esboniad o'i effaith neu'r hyn a fydd yn digwydd os na chydymffurfir ag ef,
- gwybodaeth ynglŷn â sut a phryd i wneud sylwadau,
- esboniad o unrhyw hawl i apelio neu hawliau adolygu,
- gwybodaeth am derfynau amser.

2.3 A oes angen cyflwyno unrhyw beth arall ar y cyd â'r hysbysiad (megis dogfennau eraill)?

2.4 A fyddai angen i'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys neu y gellir ei chynnwys yn yr hysbysiad gael ei newid o bryd i'w gilydd?

3. Amodau i'w bodloni cyn y gellir rhoi hysbysiad

3.1 A ddylai'r ddeddfwriaeth nodi unrhyw amodau sydd i'w bodloni cyn y gellir rhoi'r hysbysiad?

3.2 Er enghraifft:

- gallai fod yn ofynnol i berson gael cytundeb trydydd parti cyn rhoi hysbysiad,
- gallai fod yn ofynnol i berson ymgynghori cyn rhoi hysbysiad,
- gallai fod yn ofynnol i berson fodloni ei hun bod sefyllfa benodol yn bodoli cyn rhoi hysbysiad,
- gallai fod yn ofynnol i berson fodloni ei hun y bydd rhoi hysbysiad yn cyfrannu at ddiben neu nod penodol.

3.3 Os bwriedir gosod amodau, a ddylai fod yn ofynnol i'r hysbysiad gael ei roi o fewn cyfnod penodedig ar ôl bodloni'r amodau?

4. I bwy y dylid rhoi'r hysbysiad?

4.1 Efallai y bydd angen rhoi hysbysiad i berson penodol, i grŵp o bersonau, i bersonau mewn ardal benodol neu i'r byd yn gyffredinol. Bydd y derbynnydd (a sut i roi hysbysiad) yn dibynnu ar y rheswm dros ei roi.

4.2 Fel rheol, dylai'r rhai sydd â budd mewn proses neu benderfyniad arfaethedig, gael ei hysbysu ohoni neu ohono. Dylai'r graddau y gellir effeithio ar fuddiannau person bennu a ddylid rhoi hysbysiad iddo ai peidio.

4.3 A ddylid caniatáu cyflwyno'r hysbysiad i berson sy'n gweithredu ar ran person sydd â budd yn yr hysbysiad, megis cyfreithiwr person?

5. Sut y dylid rhoi'r hysbysiad?

5.1 Os bwriedir rhoi hysbysiad i bobl benodol, sut y dylid ei roi?

5.2 Efallai na fydd angen i'r ddeddfwriaeth bennu'r ffordd y rhoddir hysbysiad gan y gall hyn fod yn amlwg o'r cyd-destun neu efallai ei fod yn bolisi i beidio â phennu unrhyw ffordd benodol. Neu yn achos deddfwriaeth y mae adran 26 o Ddeddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (Yr Alban) 2010 neu adran 24 o Ddeddf Dehongli (Gogledd Iwerddon) 1954 yn gymwys iddi¹³, efallai na fydd eisiau dim byd gwahanol, nac ychwanegol, i'r hyn y darperir ar ei gyfer yn yr adrannau hynny. Mae'r adrannau hynny yn nodi'r dulliau o gyflwyno hysbysiad a ganiateir pan fydd deddfwriaeth yn awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol cyflwyno dogfen i berson. Bydd y rhain yn gymwys oni bai bod bwriad i'r gwrthwyneb.

5.3 Os bwriedir nodi ffyrdd penodol o roi hysbysiad yn y ddeddfwriaeth, ai dim ond drwy'r dulliau a nodir y dylid caniatáu rhoi hysbysiad, neu a ddylai'r dulliau a nodir fod yn enghreifftiau o'r hyn a allai fod yn llawer o ffyrdd posibl o roi hysbysiad?

¹³ Gweler adran 1 o Ddeddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (Yr Alban) 2010 ynglŷn â'r hyn y mae'n gymwys iddo (yn gyffredinol mae adran 26 yn gymwys i Ddeddfau Senedd yr Alban ac offeryn sy'n ymwneud â'r Alban (fel y'u diffiniwyd yn adran 1(4) o'r Ddeddf honno)). Gweler adrannau 1 a 2 o Ddeddf Dehongli (Gogledd Iwerddon) 1954 ynglŷn â'r hyn y mae'n gymwys iddo (yn gyffredinol mae adran 24 yn gymwys i Ddeddf gan Gynulliad Gogledd Iwerddon (neu Ddeddf gan Senedd Gogledd Iwerddon) ac offeryn a wneir o dan y cyfryw Ddeddf, neu pan fo statud arall megis Gorchymyn i Ogledd Iwerddon yn y Cyfrin Gyngor yn darparu ei bod yn gymwys).

- 5.4 Pan fo mwy nag un derbynnydd posibl, a allai fod yn ddigonol ei gyflwyno i un ohonynt, neu a oes angen ei gyflwyno i bob un (neu i bob un sy'n hysbys i'r sawl sy'n rhoi'r hysbysiad)?
- 5.5 Gellid caniatáu i'r ffordd y rhoddir hysbysiad gael ei bennu'n weinyddol.
- 5.6 Mae ffyrdd posibl o roi hysbysiad yn cynnwys: ei anfon drwy'r post; ei ddsbarthu i gyfeiriad; ei gyflwyno'n electronig; ei gyflwyno'n bersonol; ei atodi i fangre; unrhyw ddull arall y mae'r partion yn cytuno arno.

Anfon hysbysiad drwy'r post

- 5.7 Yn dibynnu ar y ddeddfwriaeth dan sylw, mae darpariaethau Deddfau Dehongli gwahanol yn gymwys i gyflwyno hysbysiad drwy'r post¹⁴. Mae adran 7 o Ddeddf Dehongli 1978 ac adrannau 13 a 14 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn gymwys¹⁵ os caniateir cyflwyno hysbysiad drwy'r post (boed hynny'n benodol ai peidio) neu os oes rhaid cyflwyno hysbysiad drwy'r post. Maent yn cynnwys darpariaethau (sy'n gymwys os nad oes darpariaeth benodol) ynglŷn â'r camau y mae'n rhaid eu cymryd i gyflwyno'r ddogfen ac ynghylch pryd y tybir ei fod wedi cyrraedd. Mae adran 26 o Ddeddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (Yr Alban) 2010¹⁶ ac adran 24 o Ddeddf Dehongli (Gogledd Iwerddon) 1954¹⁷ yn cynnwys darpariaeth debyg. A oes eisiau rhywbeth sy'n ychwanegol neu'n wahanol i'r hyn a ddywedir yn

y Deddfau hynny? Er enghraifft, os oes eisiau rhywbeth gwahanol ynghylch pryd yr ystyrir bod hysbysiad wedi'i gyflwyno, bydd angen darpariaeth ar gyfer hyn.

- 5.8 A ddylai fod yn ofynnol cyflwyno hysbysiad drwy'r post mewn ffordd benodol (megis drwy bost dosbarth cyntaf, drwy ddsbarthiad cofnodedig neu drwy bost cofrestredig¹⁸)?
- 5.9 A ddylid dweud rhywbeth am y cyfeiriad y gellir anfon neu ddsbarthu hysbysiad iddo? Er enghraifft, efallai y bydd gan gwmni sawl cyfeiriad gwahanol, neu efallai y bydd gan berson ddau gartref. Oni bai bod y cyd-destun yn nodi'n glir i ba gyfeiriad y dylid anfon hysbysiad, efallai y bydd angen pennu'r un y dylid ei ddefnyddio.
- 5.10 A oes angen gwneud darpariaeth ynglŷn â chyflwyno hysbysiad i fathau gwahanol o gyrff (megis cyrff corfforaethol, partneriaethau ac awdurdodau lleol)? Os felly, pa gyfeiriadau y dylid eu defnyddio ar gyfer y mathau gwahanol o gyrff? Pa gyfeiriadau y dylid eu defnyddio ar gyfer cymdeithas anghorfforedig?
- 5.11 Noder bod adran 26 o Ddeddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (Yr Alban) 2010 yn cynnwys darpariaeth ynglŷn â chyfeiriad priodol person ac mae adran 24 o Ddeddf Dehongli (Gogledd Iwerddon) 1954 yn cyfeirio at gartref neu fusnes arferol neu gartref neu fusnes hysbys diwethaf person. Pan fo'r rhain yn gymwys, ystyriwch a oes eisiau unrhyw beth gwahanol neu ychwanegol.

¹⁴ Yn gyffredinol, mae adran 7 o Ddeddf Dehongli 1978 yn gymwys i Ddeddfau gan Senedd y DU ac is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau hynny, ac mae adrannau 13 a 14 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn gymwys i Ddeddfau gan Senedd Cymru sy'n derbyn Cydsyniad Brenhinol ar neu ar ôl 1 Ionawr 2020 ac is-offerynnau Cymreig (fel y'u diffiniwyd yn adran 3(2) o'r Ddeddf honno). Gweler troednodyn 2 uchod ynglŷn â chymhwyso adran 26 o Ddeddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (Yr Alban) 2010 ac adran 24 o Ddeddf Dehongli (Gogledd Iwerddon) 1954.

¹⁵ Mae'r rhain yn darparu bod hysbysiad wedi'i gyflwyno pan fo llythyr wedi'i gyfeirio'n briodol, wedi talu amdano ymlaen llaw ac wedi'i bostio ac yr ystyrir ei fod wedi'i gyflwyno "at the time at which the letter would be delivered in the ordinary course of post" (Deddf Dehongli 1978, adran 7), neu "ar y diwrnod y byddai'r llythyr sy'n cynnwys y ddogfen yn cyrraedd yn nhrefn arferol y post" (Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, adran 14).

¹⁶ Tybir y bydd dogfen a anfonir drwy wasanaeth post cofrestredig neu drwy ddsbarthiad cofnodedig wedi ei derbyn 48 awr ar ôl iddi gael ei hanfon.

¹⁷ Gellir cyflwyno dogfen "by prepaying, registering and posting an envelope addressed to the person on whom the document is to be served at his usual or last known place of abode or business and containing such document; and, unless the contrary is proved, the document shall be deemed to have been served at the time at which such envelope would have been delivered in the ordinary course of post". Gweler hefyd Ddeddf Gwasanaeth Dosbarthu Cofnodedig (Gogledd Iwerddon) 1963 sy'n golygu bod adran 24(1) o Ddeddf 1954 hefyd yn gymwys i ddogfennau a anfonir drwy ddsbarthiad cofnodedig.

¹⁸ Noder bod Rhan 1 o Atodlen 8 i Ddeddf Gwasanaethau Post 2000 yn golygu nad yw cyfeiriadau at bost, post cofrestredig, dosbarthiad cofnodedig, post dosbarth cyntaf wedi'u cyfyngu i system bostio Swyddfa'r Post.

Cyflwyno hysbysiad pan nad oes cyfeiriad

5.12 A ddylid gwneud darpariaeth ynglŷn â sut i roi hysbysiad i bersonau anhysbys neu i'r byd yn gyffredinol, neu i berson nad oes ganddo gyfeiriad neu nad yw ei gyfeiriad yn hysbys? Mae ffyrdd posibl o wneud hyn yn cynnwys rhoi hysbysiad drwy ei gyhoeddi yn rhywle neu drwy ei arddangos ar dir¹⁹.

Cyflwyno hysbysiad yn bersonol

5.13 Os caniateir cyflwyno hysbysiad yn bersonol, sut y dylai hyn fod yn gymwys i bersonau heblaw unigolion? Er enghraifft, gellid cyflwyno hysbysiad i gorff corfforaethol yn bersonol drwy ei gyflwyno i un o'i swyddogion, gellid cyflwyno hysbysiad i bartneriaeth yn bersonol drwy ei gyflwyno i bartner, a gellid cyflwyno hysbysiad i gorff llywodraethu yn bersonol drwy ei gyflwyno i un o'i aelodau.

5.14 Yn aml, mae'n ofynnol rhoi hysbysiad yn bersonol wrth fynd ar fangre, wrth fynd â phethau oddi ar y fangre neu wrth ddod â phethau ar y fangre. Yn yr achosion hyn, ystyriwch i bwy y dylid rhoi'r hysbysiad. Efallai na fydd modd adnabod perchennog, meddiannydd, rheolwr na phrydlesai'r fangre. A ddylai fod yn ddigonol rhoi hysbysiad i unrhyw berson ar y fangre? Os nad oes neb yn bresennol, a ddylai fod modd rhoi'r hysbysiad drwy ei adael mewn lle amlwg?

5.15 A ddylai fod yn ddigon gadael yr hysbysiad yn nwylo person arall? Mae adran 24(2) o Ddeddf Dehongli (Gogledd Iwerddon) 1954 yn caniatáu cyflwyno hysbysiad i berson drwy adael dogfen ar gyfer y derbynnydd bwriadedig yn nwylo rhyw berson yr ymddengys ei fod dros un ar bymtheg yng nghartref neu fusnes arferol neu gartref neu fusnes hysbys diwethaf y derbynnydd bwriadedig.

Atodi hysbysiad i fangre

5.16 Pan fo hysbysiad yn ymwneud â mangre, tir neu heneb neu strwythur arall neu le, neu gerbyd, a ddylid rhoi'r hysbysiad drwy ei arddangos ar y fangre neu'r cerbyd neu'n agos iddi neu iddo? Er enghraifft, mewn ysgol neu fynedfa ysbyty, neu ar y tir lle mae rhywbeth wedi cael ei atafaelu. A sut y dylai unrhyw hysbysiad o'r fath gael ei arddangos? Er enghraifft, mewn lle amlwg neu mewn lle sy'n hygyrch i'r cyhoedd.

Cyflwyno hysbysiad yn electronig

5.17 Os caniateir cyflwyno hysbysiad yn electronig neu os yw'n ofynnol cyflwyno hysbysiad yn electronig (er mai anaml y ceir gofynion i gyflwyno hysbysiad yn electronig), a ddylid defnyddio math penodol o gyfathrebu electronig (er enghraifft, e-bost)? Gellid pennu hwn neu ei adael i'r partion gytuno arno.

5.18 Ystyriwch a ddylid cymhwyso unrhyw amodau cyn y gellir cyflwyno hysbysiad yn electronig. Gallai'r rhain gynnwys pethau fel ei gwneud yn ofynnol i'r derbynnydd hysbysu'n ffurfiol ymlaen llaw ei fod yn cydsynio. Efallai mai dim ond pan fydd derbynnydd yr hysbysiad yn gorff preifat neu'n unigolyn y bydd angen gofyniad o'r fath.

Os bydd angen cydsyniad, a ddylai fod yn gymwys i bob hysbysiad neu hysbysiadau penodol, ac a oes unrhyw wybodaeth y bydd angen ei rhoi wrth hysbysu'n ffurfiol bod cydsyniad wedi'i roi?

5.19 A ddylid gwneud darpariaeth ynglŷn â pha gyfeiriad i'w ddefnyddio i gyflwyno hysbysiad yn electronig?

5.20 Mae'n bosibl na ddylid caniatáu cyflwyno hysbysiad yn electronig, neu na ddylai fod modd rhoi rhai hysbysiadau yn electronig. Weithiau, mae deddfwriaeth yn atal hysbysiadau cosb benodedig, er enghraifft, rhag cael eu cyflwyno'n electronig.

¹⁹ O ran Gogledd Iwerddon, gweler adran 24(2)(e) o Ddeddf Dehongli (Gogledd Iwerddon) 1954 sy'n cynnwys darpariaeth ynglŷn â chyflwyno hysbysiad pan na ellir cadarnhau enw na chyfeiriad y derbynnydd bwriadedig.

- 5.21 A oes unrhyw ofynion technegol a ddylai fod yn gymwys pe bai hysbysiad yn cael ei gyflwyno'n electronig? Er enghraifft, mae'n rhaid i'r hysbysiad fod mewn fformat penodol, mae'n rhaid iddo fod yn ddarllenadwy, mae'n rhaid bod modd i'r derbynydd ei gadw, neu mae'n rhaid bod modd defnyddio'r testun.
- 5.22 Noder bod Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 a Deddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (Yr Alban) 2010 yn cynnwys darpariaethau ynglŷn â chyflwyno hysbysiadau yn electronig²⁰. Pan fo'r rhain yn gymwys, ystyriwch a oes eisiau unrhyw beth gwahanol neu ychwanegol.
- 5.23 Os bwriedir mai drwy ddulliau electronig y caiff hysbysiadau eu cyflwyno, ystyriwch a ddylid caniatáu i dderbynydd bwriadedig nodi ei fod yn dymuno cael hysbysiad mewn rhyw ffordd arall.

6. Cyhoeddi

- 6.1 A ddylai'r hysbysiad gael ei gyhoeddi? Os yw'r hysbysiad wedi'i anelu at y cyhoedd yn gyffredinol, mae'n debygol y bydd angen ei gyhoeddi. Efallai y bydd angen ei gyhoeddi er mwyn hysbysu eraill bod hysbysiad wedi cael ei roi i bobl benodol.
- 6.2 Gellid ei gyhoeddi ar-lein, mewn papurau newydd, yn y Gazettes²¹ neu ym mha ffordd bynnag sy'n briodol ym marn y person sy'n rhoi'r hysbysiad. Efallai y byddai'n ofynnol arddangos copi o hysbysiad lle y bydd y rhai y mae'n effeithio arnynt yn debygol o'i weld. Ystyriwch a ddylid sicrhau bod copiau caled o'r hysbysiad ar gael.
- 6.3 Pan fo corff cyhoeddus yn rhoi hysbysiadau, a ddylai fod gofyniad i gyhoeddi pob un o'i hysbysiadau? Os felly, ble y dylent gael eu cyhoeddi, pryd a sut? Ai dim ond y rhai sydd mewn grym y dylid eu cyhoeddi? A ddylai cyhoeddi ar wefan yn unig fod yn ddigonol? A ddylai fod gofyniad i gyflenwi copïau o'r hysbysiad, ac os felly i bwy? A ddylid ei gwneud yn ofynnol i'r hysbysiadau fod ar gael i'w harchwilio? A ddylid caniatáu codi tâl am gopïau?

- 6.4 A ddylai fod yn ofynnol cyhoeddi hysbysiad am gyfnod penodol?
- 6.5 Os oes rhaid cyhoeddi hysbysiadau fel arfer, a ddylai fod yn bosibl penderfynu peidio â chyhoeddi hysbysiad neu atal rhannau o hysbysiad rhag cael eu cyhoeddi o dan amgylchiadau penodol? Efallai y byddai eisiau gwneud hynny, er enghraifft, er mwyn diogelu cyfrinachau masnach, at ddibenion sy'n ymwneud â diogelwch gwladol neu am resymau sy'n ymwneud â diogelwch personol. A allai fod angen ei gwneud yn ofynnol i rai hysbysiadau penodol beidio â chael eu cyhoeddi, am y rhesymau hynny neu resymau eraill?

7. Amseriad

- 7.1 Ystyriwch a ddylid gosod terfynau amser (er enghraifft, ar roi hysbysiadau, cyhoeddi hysbysiadau, gwneud pethau ar ôl i hysbysiad gael ei roi neu nodi am faint o amser y bydd hysbysiad yn cael effaith). A ddylai unrhyw derfynau amser redeg o ddiwrnod penodol (gan gynnwys y diwrnod hwnnw) neu o adeg benodol yn ystod y dydd? A ddylent ddod i ben ar ddiwrnod penodol? A ddylai'r terfynau amser redeg o'r amser yr anfonir yr hysbysiad neu y derbynnir yr hysbysiad? A ddylai terfynau amser (a fynegir mewn diwrnodau) gynnwys diwrnodau gwaith yn unig?
- 7.2 Sut y dylai unrhyw derfynau amser fod yn gymwys pan fo mwy nag un person yn derbyn hysbysiad o bosibl?

8. Eithriadau i ofyniad i roi hysbysiad?

- 8.1 A oes unrhyw amgylchiadau lle na ddylai'r gofyniad i roi hysbysiad fod yn gymwys? Er enghraifft, gall gofyniad i roi hysbysiad ymlaen llaw o fwriad i arfer pŵer i fynd i mewn i fangre neu atafaelu dogfennau neu nwyddau, mewn rhai achosion, fod yn groes i ddibenion arfer y pŵer hwnnw.
- 8.2 A ddylid caniatáu ildio gofyniad i roi hysbysiad neu atal hynny?

²⁰ Mae adrannau 13 a 14 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn darparu bod hysbysiad wedi'i gyflwyno os yw cyfathrebiad wedi'i gyfeirio'n briodol ac wedi'i anfon ar ffurf electronig y gall y derbynydd ei chyrcu a'i chadw. Tybir bod hysbysiad wedi'i gyflwyno ar y diwrnod yr anfonir y ddogfen. Mae adran 26 o Ddeddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (Yr Alban) 2010 yn caniatáu cyflwyno hysbysiad drwy gyfathrebiad electronig pan fo cytundeb ymlaen llaw.

²¹ Cyfnodolion swyddogol yw'r Gazettes ac maent yn cynnwys hysbysiadau statudol penodol. Y tair Gazette yw – y London Gazette (ar gyfer hysbysiadau sy'n ymwneud â Chymru a Lloegr), y Belfast Gazette a'r Edinburgh Gazette.

9. Diwygio hysbysiad neu dynnu hysbysiad yn ôl

9.1 A ddylai fod modd diwygio hysbysiad neu ei dynnu'n ôl?

Os felly, ystyriwch:

- a ddylai fod terfyn ar ba bryd y gellir gwneud hyn,
- beth ddylai fod effaith diwygio hysbysiad neu ei dynnu'n ôl,
- a ddylai unrhyw weithdrefn ar gyfer rhoi'r hysbysiad, ac unrhyw amodau sydd i'w bodloni, fod yn gymwys yn yr un ffordd i ddiwygio'r hysbysiad neu ei dynnu'n ôl,
- a ddylai fod gofyniad i hysbysu unrhyw un,
- a ddylid caniatáu diwygio hysbysiad neu ei dynnu'n ôl ar gais yn unig,
- y dyddiad y dylai amrywiad neu benderfyniad i dynnu hysbysiad yn ôl gael effaith.

10. Apelau ac adolygiadau

10.1 A ddylai fod yn bosibl apelio yn erbyn yr hysbysiad neu wneud cais am i'r hysbysiad gael ei adolygu? Mae hyn yn debygol o fod yn berthnasol pan fo hysbysiad yn gosod gofynion neu waharddiadau.

10.2 Os bwriedir rhoi hawl i apelio, gweler y datrysiad deddfwriaethol ynglŷn ag **apelau yn erbyn penderfyniadau gweinyddol**.

11. Methiant i gydymffurfio â gofynion mewn perthynas â rhoi hysbysiad

11.1 Beth ddylai fod effaith methiant i gydymffurfio â gofynion mewn perthynas â rhoi hysbysiad? Gallai methiant gynnwys, er enghraifft:

- peidio â rhoi hysbysiad mewn da bryd,
- peidio â rhoi hysbysiad ar y ffurf briodol,
- peidio â chynnwys yr wybodaeth ofynnol mewn hysbysiad,
- nid yw'r amodau sydd i'w bodloni cyn rhoi hysbysiad wedi'u bodloni'n llawn.

11.2 A ddylai hysbysiad sy'n methu â chydymffurfio ag unrhyw un o'r gofynion sy'n gymwys iddo fod yn annilys? Neu a ddylai fod achosion pan fo hysbysiad yn ddilys er gwaethaf methiant i gydymffurfio?

11.3 Yn aml, nid yw deddfwriaeth yn nodi'n benodol yr hyn fydd yn digwydd yn achos methiant i gydymffurfio, ond os na wneir unrhyw ddarpariaeth yna bydd effaith peidio â chydymffurfio yn dibynnu ar natur y methiant a'i effaith, ac efallai y bydd yn rhaid i'r llysoedd benderfynu arni.

11.4 Os oes eisiau canlyniad penodol ym mhob achos, megis methiant penodol yn gwneud yr hysbysiad yn annilys, efallai y bydd angen nodi hyn yn benodol.

12. Rheoliadau

12.1 O dan amgylchiadau penodol, efallai y bydd yn briodol ymdrin â materion sy'n ymwneud â hysbysiadau mewn rheoliadau, er enghraifft, manylion sy'n ymwneud â ffurf neu gynnwys hysbysiad, y ffordd y rhoddir hysbysiad, sut i gyhoeddi hysbysiad, terfynau amser, diwygio hysbysiad neu ei dynnu'n ôl ac ati.

Enghreiffiau o'r datrysiad deddfwriaethol

Mae llawer o statudau yn cynnwys darpariaeth ynglŷn â hysbysiadau. Ceir isod rai enghreifftiau o ddarpariaeth ynglŷn â hysbysiadau a all fod yn ddefnyddiol.

Ffurff yr hysbysiad:

Yr Alban

- *Deddf Tai Preifat (Tenantiaethau) (Yr Alban) 2016, adran 49* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2016/19/section/49) gofynion ynglŷn â hysbysiad terfynu gan denant)
- *Deddf Diwygio Tir (Yr Alban) 2016, adran 114(3)* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2016/18/section/114) (cynnwys hysbysiad amnest ar gyfer gwelliannau gan denant daliad amaethyddol)

Cymru

- *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, adran 236(3)* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/1/contents) (pŵer i wneud rheoliadau i nodi ffurf hysbysiad), adran 236(4) (yn caniatáu rhoi hysbysiad ar ffurf electronig yn ddarostyngedig i amodau)

Gogledd Iwerddon

- *Deddf Tai Amlfeddiannaeth (Gogledd Iwerddon) 2016, adran 27* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2016/11/contents) (pŵer cyngor i bennu ffurf hysbysiad)
- *Deddf Traffig Ffyrdd (Diwygio) (Gogledd Iwerddon) 2016, adran 9*, a fewnosododd Erthygl 59B (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2016/22/contents) (ffurf yr hysbysiad i'w phennu gan yr Adran), a fewnosododd Erthygl 59C (sy'n pennu'r hyn y mae'n rhaid i hysbysiad ei gynnwys)
- *Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (Gogledd Iwerddon) 2016, adran 8* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2016/8) (gwybodaeth i'w darparu mewn hysbysiad), adran 10 (pŵer i wneud rheoliadau ynglŷn â rhoi hysbysiad)
- *Deddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon) 2015, adran 17* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2015/9/section/17) (yr hyn y mae'n rhaid i hysbysiad ei gynnwys)

Amodau i'w bodloni cyn y gellir rhoi hysbysiad:

Yr Alban

- *Deddf Cam-drin Domestig (Diogelu) (Yr Alban) 2021, adran 4* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2021/16/section/4) (hysbysiadau diogelu cam-drin domestig)
- *Deddf Gwrychoedd Uchel (Yr Alban) 2011, adran 8(3)* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2013/6/section/8) (y dyddiad y bydd hysbysiad gwrych uchel yn cael effaith)

Cymru

- *Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, adran 94* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/94) (terfyn amser ar roi hysbysiad ar ôl i amodau gael eu bodloni)
- *Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, adran 32C(3)* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2013/1/section/32) (amodau i'w bodloni cyn y gellir rhoi hysbysiad)

Sut i roi hysbysiad:

Y DU

- *Deddf Diogelu Data 2018, adran 141* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2018/12/section/141) (sut y gellir rhoi hysbysiad i unigolion, cyrff corfforaethol, cyrff anghorfforedig a phartneriaethau yn yr Alban)
- *Deddf Eiddo Diwylliannol (Gwrthdaro Arfog) 2017, adran 25(2)* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/6/section/25/enacted) (sut mae'n rhaid i hysbysiad gael ei roi a sut i roi hysbysiad i berson heb gyfeiriad yn y Deyrnas Unedig neu y mae ei gyfeiriad yn anhysbys)
- *Deddf yr Economi Ddigidol 2017, adran 28* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/30/section/28) (cyfeiriad priodol person ar gyfer hysbysiadau)
- *Deddf Sylweddau Seicoweithredol 2016, adran 16* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2016/2/section/16) (sut y gellir rhoi hysbysiad, gan gynnwys ei ddsbarthu'n bersonol), *adran 46(3)* (hysbysiad pan fydd eitem a atafaelwyd o fangre i'w gadael mewn lle amlwg os nad yw'n rhesymol ymarferol ei rhoi i berson yr effeithiwyd arno)
- *Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012, adran 148* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2012/7/section/148) (pa bryd y tybir bod hysbysiad a anfonir drwy bost cofrestredig neu ddsbarthiad cofnodedig, neu drwy gyfathrebiad electronig wedi ei dderbyn)
- *Deddf Cwmnïau 2006, adran 1168 ac Atodlenni 4 a 5* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/46/contents) (darpariaeth fanwl ynglŷn ag anfon dogfennau i gwmni)
- *Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006, Atodlen A1, paragraff 5(3)(b)* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/41/schedule/A1) (caiff hysbysiad ei ddsbarthu'n bersonol neu ei anfon drwy bost dosbarth cyntaf)
- *Deddf Cyfathrebu 2003, Atodlen 3A, paragraff 91* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2003/21/schedule/3A) (gofyniad i anfon hysbysiad drwy bost cofrestredig neu ddsbarthiad cofnodedig)
- *Deddf Caffael Tir 1981, adran 6(4)*, (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1981/67/section/6) (os nad yw'n ymarferol cadarnhau enw na chyfeiriad perchennog, prydlesai, tenant neu feddiannydd, caiff dogfen ei chyflwyno drwy ei ddsbarthu i berson ar y tir neu ei gadael ar neu ger y tir)

Yr Alban

- *Deddf Tai Preifat (Tenantiaethau) (Yr Alban) 2016, adran 62* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2016/19/section/62) (ystyr hysbysiad i adael a sail ddatganedig dros droi allan)

Cymru

- *Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, adran 84* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/2/section/84) (darpariaeth gyffredinol ynglŷn â sut i roi hysbysiad)
- *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, adran 237(4)* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/1/section/237) (gofynion technegol ar gyfer cyflwyno hysbysiad yn electronig)
- *Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, adran 103(5)* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/103) (sut i roi hysbysiad archwilio mangre)

Gogledd Iwerddon

- *Deddf Traffig Ffyrdd (Diwygio) (Gogledd Iwerddon) 2016, adran 9, a fewnosododd Erthygl 59B* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2016/11/section/9) (datgymhwyso'r cyfeiriad at gofrestru yn adran 24 o Ddeddf Dehongli (Gogledd Iwerddon) 1954, mae hysbysiad yn ddilys er gwaethaf cael ei ddychwelyd heb ei ddsbarthu)

- *Deddf Diwygio Lles (Gogledd Iwerddon) 2007, adran 57(2)(a)* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2007/2/section/57) (datgymhwyso'r cyfeiriad at gofrestru yn adran 24 o Ddeddf Dehongli (Gogledd Iwerddon) 1954)
- *Deddf Cerbydau Nwyddau (Trwyddedu Gweithredwyr) (Gogledd Iwerddon) 2010, adran 58(4)* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2010/2/contents) (datgymhwyso'r cyfeiriad at gofrestru yn adran 24 o Ddeddf Dehongli (Gogledd Iwerddon) 1954)
- *Deddf Cynllunio (Gogledd Iwerddon) 2011, adran 239* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2011/25/section/23) (galluogi cyflwyno hysbysiad yn electronig)
- *Deddf Cam-drin Domestig a Gweithrediadau Sifil (Gogledd Iwerddon) 2021* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2021/2/section/7)

Cyhoeddi hysbysiadau:

Yr Alban

- *Deddf Coedwigaeth a Rheoli Tir (Yr Alban) 2018, adran 45(6)* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2018/8/2019-04-01) (arddangos hysbysiad stop dros dro ar dir y mae hysbysiad yn ymwneud ag ef)

Cymru

- *Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, adran 56* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2019/3/section/56) (cyhoeddi hysbysiadau)

Gogledd Iwerddon

- *Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Gogledd Iwerddon) 2016, adran 44* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2016/4/section/44) (cyhoeddi hysbysiadau)
- *Deddf Ansolfedd (Diwygio) (Gogledd Iwerddon) 2016, adrannau 16 a 17* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2016/2/section/16) (cyhoeddi hysbysiadau)
- *Deddf Trwyddedu Caffis ar y Palmant (Gogledd Iwerddon) 2014, adran 11* (www.legislation.gov.uk/nia/2014/9/section/11/2014-05-12) (cyhoeddi hysbysiadau)

Amseriad:

Yr Alban

- *Deddf Gwrychoedd Uchel (Yr Alban) 2011, adran 8(3)* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2013/6/section/8) (y dyddiad y bydd hysbysiad gwrych uchel yn cael effaith)
- *Deddf Cofrestru Tir etc (Yr Alban) 2011, adran 58* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2012/5/section/58) (cyfnod effaith rhaghysbysiad)

Cymru

- *Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, adran 23(5)* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2018/2/section/23) (cyfnodau pan fydd yn ofynnol i hysbysiad gael ei roi i fwy nag un person)

Gogledd Iwerddon

- *Deddf Cronfeydd Dŵr (Gogledd Iwerddon) 2015* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2015/8/contents), adrannau 7 a 15 – (amseriad hysbysiad)
- *Deddf Gwaith a Theuluoedd (Gogledd Iwerddon) 2015, adran 12* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2015/1/section/12) (pŵer i wneud rheoliadau ynglŷn ag amseriad hysbysiad)

Apelau ac adolygiadau:

Scotland

- *Deddf Gwrychoedd Uchel (Yr Alban) 2011, adran 12* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2013/6/section/12) (apelau yn erbyn penderfyniadau sy'n ymwneud â hysbysiadau ynghylch gwrych uchel)

Cymru

- *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, adran 81(9)* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/2/section/81) (nid yw cyflwyno apêl yn atal effaith hysbysiad)
- *Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, adran 95(2)* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/95) (nid yw gofyniad i gydymffurfio â hysbysiad o fewn cyfnod penodedig yn gymwys pan fo cais am adolygiad neu apêl)
- *Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, adran 24* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2013/6/section/24) (mae hysbysiad yn weithredol os na chyflwynir apêl o fewn cyfnod apelio, ac ati)
- *Deddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979, adran 9ZE(4)* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1979/46/section/9ZE) (nid yw hysbysiad yn cael effaith nes bod apêl wedi'i phenderfynu'n derfynol neu nes bod apêl wedi'i thynnu'n ôl)
- *Deddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967, adran 5C(4)* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1967/83/section/5C) (caiff tribiwnlys atal hysbysiad neu amrywiad o hysbysiad dros dro tra bydd apêl yn cael ei phenderfynu)

Gogledd Iwerddon

- *Deddf Trwyddedu Caffis ar y Palmant 2014, adran 19* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2014/9/section/19) (caiff hysbysiad ddarparu bod diddymu, ac ati, yn cael effaith ar y dyddiad y cyflwynir hysbysiad os bydd angen er budd y cyhoedd)

Methiant i gydymffurfio â gofynion:

Y DU

- *Deddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd 2000, adran 252(3)* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/8/section/252) (er mwyn bod yn ddilys, mae'n rhaid i hysbysiad rhybuddio gael ei dderbyn o fewn cyfnod penodol)
- *Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adran 184(8)* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/8/section/184) (nid yw hysbysiad stop yn annilys os na chyflwynir hysbysiad gorfodi sy'n ymwneud ag ef fel y bo'n ofynnol)

Cymru

- *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, adran 236(3)* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/1/section/236) (oni bai bod rheoliadau yn darparu fel arall, nid yw hysbysiad na dogfen nad yw ar y ffurf ragnodedig yn cael effaith)
- *Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, adran 190(1B)* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/section/190) (os oes camgymeriad neu hepgoriad mewn hysbysiad fel na ellir yn rhesymol gadarnhau ei effaith, bydd yr hysbysiad yn cael ei drin fel pe na bai wedi'i roi)

13 Apelau yn erbyn penderfyniadau gweinyddol

Mae'r datrysiad deddfwriaethol hwn yn darparu hawl i berson apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed o dan gynllun statudol, megis penderfyniad awdurdod cyhoeddus i roi neu wrthod trwydded, rhoi hysbysiad neu wneud gorchymyn. Fel, arfer caiff apêl ei chyflwyno i lys neu driwlynlys, ond weithiau i Weinidog, adran neu berson arall sy'n annibynnol ar y sawl a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol.

Disgrifiad o'r datrysiad deddfwriaethol

Mae'r datrysiad deddfwriaethol hwn yn ymwneud ag apelau yn erbyn penderfyniadau gweinyddol, ond nid apelau yn erbyn euogfarnau troseddol na dyfarniadau eraill gan y llysoedd mewn achosion troseddol neu sifil.

Gall hawl i apelio fod yn ffordd bwysig o sicrhau bod proses yn deg ac yn unol â rhwymedigaethau gweithdrefnol sy'n codi o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Bydd cyfreithwyr yn gallu rhoi cyngor ynglŷn â phryd y bydd angen gweithdrefn apelio. Yn gyffredinol, mae'n fwy tebygol y bydd angen apêl os yw penderfyniad yn cael effaith sylweddol ar hawliau person (e.e. ei ryddid, ei breifatrwydd, ei eiddo neu ei allu i gynnal busnes). Bydd ystyriaethau ynglŷn â thegwch a chydymffurfiaeth â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol hefyd yn berthnasol i'r cwestiynau manwl yn y datrysiad deddfwriaethol hwn ynglŷn â natur yr apêl.

Bydd digonolrwydd unrhyw fesurau diogelu gweithdrefnol eraill yn y broses gwneud penderfyniadau yn effeithio ar b'un a oes angen hawl i apelio, a natur unrhyw apêl a ddarperir, oherwydd gall y cwestiwn ynglŷn â thegwch gael ei asesu drwy ystyried y broses yn ei chyfanrwydd. Gall apêl fod yn bwysig iawn os nad oes cyfle i bobl wneud sylwadau cyn i benderfyniad gael ei wneud neu ei gadarnhau.

Mae hawl newydd i apelio yn debygol o effeithio ar y system gyfiawnder ehangach, felly bydd angen ystyried yr effeithiau a'r costau cysylltiedig ac ymgynghori yn unol â hynny.

Weithiau, gall hawl i ofyn i'r sawl a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol adolygu neu ailystyried ei benderfyniad, neu system amgen o ddatrys anghydfod, gael ei darparu yn lle (neu'n ychwanegol at) hawl i apelio. Ac mewn rhai achosion, gall y posibilrwydd o gyflwyno hawliad am adolygiad barnwrol o'r penderfyniad gwreiddiol fod yn ddigon fel nad oes angen darparu hawl i apelio (ond gall apelau gwmpasu amrywiaeth ehangach o seiliau na'r hyn y gellir eu codi yn ystod gweithrediadau adolygiad barnwrol).

Mae'r datrysiad deddfwriaethol hwn yn defnyddio'r termau canlynol:

- apelydd – person sy'n apelio yn erbyn penderfyniad;
- corff apeliadol – y triwlynlys, neu gorff neu berson arall, sy'n cael ac yn penderfynu ar apelau.

Elfennau'r datrysiad deddfwriaethol

1. Pa benderfyniadau y gellir apelio yn eu herbryn?

- 1.1 A ddylai fod hawl bob amser i apelio yn erbyn penderfyniadau o'r math dan sylw, neu ai dim ond os yw'r penderfyniad yn cael effeithiau penodol y dylai'r hawl godi? Er enghraifft, efallai mai dim ond os yw gorchymyn neu hysbysiad yn gosod mathau penodol o gyfyngiad neu rwymedigaeth y byddai hawl i apelio yn ei herbryn.
- 1.2 Yn achos penderfyniad a wneir mewn ymateb i gais, megis penderfyniad i roi trwydded ai peidio, ai dim ond mewn cysylltiad â mathau penodol o benderfyniad y gellir eu gwneud ar y cais y dylai fod hawl i apelio? Er enghraifft, a ddylai fod apêl yn erbyn

penderfyniad i wrthod cais, ond nid yn erbyn rhoi trwydded? A ddylai fod modd apelio yn erbyn y telerau y rhoddwyd y drwydded yn unol â hwy?

- 1.3 Mewn achosion sy'n ymwneud â cheisiadau, a ddylai'r hawl i apelio ddibynnu ar wneud penderfyniad, neu a ddylai fod modd hefyd apelio yn erbyn methiant i benderfynu ar y cais o fewn cyfnod penodol?

2. Pwy all gyflwyno apêl?

- 2.1 Ai dim ond i'r person y mae'r penderfyniad wedi'i gyfeirio ato, megis ymgeisydd y mae ei gais wedi cael ei wrthod neu berson y mae cosb wedi cael ei gosod arno, y dylai'r hawl i apelio fod ar gael?
- 2.2 A ddylai fod gan bobl eraill y mae penderfyniad yn effeithio arnynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol hawl i apelio? Er enghraifft, os bydd penderfyniad yn gwahardd gweithgaredd, a ddylai fod gan unrhyw un sydd wedi bod yn ymgymryd â'r gweithgaredd hwnnw neu sy'n bwriadu gwneud hynny hawl i apelio? Beth am bobl yr effeithir arnynt yn andwyol am na all eraill ymgymryd â'r gweithgaredd mwyach?
- 2.3 A ddylai fod gan drydydd partïon eraill hawl i apelio? Er enghraifft, a ddylai fod modd i berson sy'n gwrthwynebu rhoi trwydded apelio yn erbyn y penderfyniad i'w rhoi? A ddylai hawl i apelio o'r fath ddibynnu ar y ffaith bod gan y person fuddiant y mae'r penderfyniad i roi'r drwydded yn effeithio arno, ac os felly, pa fath o fuddiant a pha effaith arno sy'n ofynnol?

3. Ar ba seiliau y gellir cyflwyno apêl?

- 3.1 A ddylai fod unrhyw gyfyngiadau ar y seiliau dros gyflwyno apelau? Gall deddfwriaeth roi hawl i apelio yn erbyn penderfyniad heb bennu unrhyw gyfyngiadau, ond mewn rhai achosion pennir ar ba seiliau y gellir cyflwyno apelau. Er enghraifft, gallai'r seiliau dros apelio yn erbyn hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol cydymffurfio â gofyniad statudol gynnwys:
- nad yw'r gofyniad dan sylw wedi cael ei dorri;

- nad oes unrhyw achos o dorri gofyniad wedi cael unrhyw effeithiau andwyol;
- mai rhywun arall oedd yn gyfrifol am unrhyw achos o dorri gofyniad;
- bod y camau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad, neu'r terfyn amser ar gyfer cymryd y camau, yn amhosibl neu'n afresymol;
- nad oedd yr hysbysiad wedi cael ei roi'n briodol neu nad oedd wedi cael ei gyflwyno'n briodol, neu fod yr hysbysiad neu'r weithrefn a ddilynwyd yn ddiffygiol mewn rhyw ffordd arall.

- 3.2 Mewn rhai achosion, dim ond ar y sail bod y penderfyniad yn anghywir yn gyfreithiol, neu ar y seiliau y gellir eu codi ar hawliad am adolygiad barnwrol y gellir cyflwyno apêl. Er enghraifft, efallai y bydd yn briodol cyfyngu ar y seiliau dros apelio yn y ffordd hon os yw'r penderfyniad gwreiddiol yn cael ei wneud ar ôl i dystiolaeth ffeithiol gael ei hystyried mewn gwrandawriad neu ymchwiliad, neu os mai penderfyniad gan Weinidog ydyw lle mae ystyriaethau polisi yn debygol o chwarae rhan sylweddol.

- 3.3 Os bwriedir rhestru'r seiliau dros apelio, bydd angen bod yn ofalus na chaiff seiliau dilys o bosibl eu hepgor yn anfwriadol. Noder hefyd y bydd y seiliau y gellir cyflwyno apelau arnynt yn effeithio ar y gweithdrefnau sy'n briodol ar gyfer ymdrin ag apelau a'r pwerau y bydd eu hangen ar y corff apeliadol wrth benderfynu ar apêl (gweler adrannau 6 ac 8 isod).

4. I bwy y mae'n rhaid cyflwyno apêl? A phwy fydd yn penderfynu ar yr apêl?

- 4.1 A oes tribiwnlys, llys neu gorff arall sy'n bodoli eisoes sy'n addas i ymdrin â'r apêl (e.e. am ei fod eisoes yn ymdrin â mathau tebyg o apêl neu am ei fod yn meddu ar yr arbenigedd perthnasol)? Os bwriedir defnyddio llysoedd neu dribiwnlysoedd sy'n bodoli eisoes, ar ba lefel yn y system lysoedd neu dribiwnlysoedd y dylid ystyried apelau (e.e. y llys sirol neu'r Uchel Lys, neu yn yr Alban llys y siryf neu Lys y Sesiwn; y Tribiwnlys Haen Gyntaf neu'r Uwch Dribiwnlys)?

4.2 Os bwriedir i apelau gael eu cyflwyno i Weinidogion²², a ddylai Gweinidogion ymdrin ag apelau eu hunain, neu a ddylai fod yn ofynnol iddynt benodi person arall i ymdrin â hwy? A ddylai rôl person a benodwyd gynnwys penderfynu ar yr apêl neu gyflwyno adroddiad i Weinidogion fel y gallant hwythau benderfynu arni? A ddylai fod gan Weinidogion y pŵer i ddiswyddo person penodedig a phenodi person arall yn ei le, neu i gymryd drosodd y gwaith o ymdrin ag apelau penodol oddi wrtho? A ddylai fod unrhyw gyfyngiad ar bwy y gellir ei benodi?

4.3 Os nad oes unrhyw drefniadau sy'n bodoli eisoes yn addas, a ddylid creu corff neu dribiwnlys newydd i ymdrin â'r apelau dan sylw? Neu a ddylid penodi unigolion neu baneli i ymdrin ag apelau ar sail achos unigol? Os bwriedir creu trefniadau newydd, pa ddarpariaeth fydd yn ofynnol i sefydlu a gweinyddu'r system newydd? Gallai hyn gynnwys darpariaeth ynghylch:

- penodi aelodau o'r corff apeliadol (gan gynnwys unrhyw gadeirydd neu lywydd);
- cymhwysra a chymwysterau ar gyfer penodiad i'r corff apeliadol;
- categorïau gwahanol o aelod (e.e. aelodau cyfreithiol neu broffesiynol ac aelodau lleyg);
- parhad ac amodau'r penodiad;
- diswyddo aelodau ac aelodau yn ymddiswyddo;
- cydnabyddiaeth a phensiynau aelodau;
- cyfrifoldeb am gyllido'r corff apeliadol a rhoi cymorth gweinyddol (gan gynnwys staff);
- atebolrwydd cyhoeddus y corff (er enghraifft dyletswydd i baratoi adroddiad blynyddol).

4.4 Efallai y bydd nifer o ffactorau yn dylanwadu ar y penderfyniad ynghylch pwy ddylai gael a phenderfynu ar apelau, gan gynnwys:

- pwy sy'n gwneud y penderfyniadau gwreiddiol yr apelir yn eu herbyn;
- y nifer disgwylidig o apelau a natur y materion y byddant yn eu codi (gan gynnwys unrhyw dystiolaeth y bydd angen ei hystyried);

- p'un a fydd defnyddio corff apeliadol penodol yn sicrhau tegwch a chydymffurfiaeth â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;
- cost, effeithlonrwydd a chyfleustra (a all gyfrif o blaid defnyddio corff apeliadol sy'n bodoli eisoes yn hytrach na sefydlu un newydd);
- polisiau perthnasol y weinyddiaeth neu'r ddeddfwrfa dan sylw (e.e. polisiau y dylai apelau newydd gael eu cyflwyno i dribiwnlys penodol).

5. Terfynau amser a gofynion eraill ar gyfer cyflwyno apelau ac ymateb iddynt

5.1 Pa reolau y dylid eu pennu ynglŷn â sut a phryd y gellir cyflwyno apelau ac ynglŷn ag ymateb i apelau? Os bwriedir i'r apêl gael ei chyflwyno i lys neu dribiwnlys sy'n bodoli eisoes, mae'n debyg y bydd rheolau cyffredinol ar gyfer gweithrediadau yn y llys neu'r tribiwnlys hwnnw yn gymwys fel mater o drefn i weithrediadau newydd a ychwanegir at ei awdurdodaeth. Os felly, ystyriwch a oes darpariaeth ddigonol eisoes yn y rheolau presennol ynglŷn â chyflwyno apelau ac ymateb iddynt, ac a allai unrhyw ddarpariaeth ychwanegol neu wahanol fydd ei hangen gael ei gwneud o dan y pwerau presennol.

5.2 A ddylai fod hawl awtomatig i apelio, neu a ddylai fod yn rhaid i berson gymryd camau eraill cyn arfer hawl i apelio, megis gofyn am adolygiad o'r penderfyniad dan sylw. A ddylai fod yn ofynnol i'r apelydd gael caniatâd y corff apeliadol i gyflwyno apêl? Gallai gofyniad i gael caniatâd gael ei ddefnyddio, er enghraifft, i benderfynu a oes gan drydydd parti ddigon o fuddiant i apelio yn erbyn penderfyniad (gweler paragraff 2.3 uchod).

5.3 Faint o amser y dylid ei ganiatáu i gyflwyno apêl? A ddylai fod yn rhaid ei chyflwyno o fewn cyfnod penodol (e.e. nifer penodedig o ddiwrnodau) a gyfrifir drwy gyfeirio at ba bryd y gwnaed y penderfyniad neu y rhoddwyd yr hysbysiad? A ddylai fod yn rhaid i apêl gael ei chyflwyno cyn bod rhywbeth arall wedi digwydd (e.e. cyn bod y penderfyniad wedi cael effaith)?

²² Ystyr cyfeiriadau at "Gweinidogion" yma yw'r Ysgrifennydd Gwladol neu un o Weinidogion eraill y Goron, Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban neu Adran yng Ngogledd Iwerddon (fel y bo'n briodol).

5.4 A ddylai fod gan y corff apeliadol y pŵer i ganiatáu apêl sydd y tu allan i'r amser, ac a ddylai'r pŵer ddibynnu ar fodloni amodau penodol (megis yr apelydd yn dangos esgus rhesymol dros oedi)?

5.5 A oes gofynion sy'n ymwneud â'r ffordd y dylid cychwyn apêl? A oes rhaid defnyddio gweithdrefn neu ffurflen benodol, neu a oes rhaid i hysbysiad apêl gynnwys gwybodaeth benodol (e.e. y seiliau dros gyflwyno'r apêl)? A ddylai fod yn rhaid darparu unrhyw wybodaeth neu ddogfennaeth arall wrth gyflwyno apêl (e.e. copi o'r penderfyniad gwreiddiol)? Gweler hefyd y datrysiad deddfwriaethol sy'n ymwneud â **rhoi hysbysiad**.

5.6 A ddylai fod yn ofynnol i apelydd dalu ffi am gyflwyno apêl? Os felly sut y caiff ffioedd eu pennu?

5.7 A ddylai fod yn ofynnol i'r sawl a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol ymateb i'r apêl? Faint o amser y dylid ei ganiatáu i wneud hynny? Beth fydd yn rhaid i'r ymateb ei gynnwys? A ddylai fod yn ofynnol i'r sawl a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol ddarparu unrhyw ddogfennau neu wybodaeth arall?

5.8 Os bwriedir nodi'r weithdrefn ar gyfer cyflwyno apêl neu ymateb iddi mewn is-ddeddfwriaeth, pa fathau o ddarpariaeth y dylai fod modd eu gwneud ynglŷn â'r weithdrefn?

6. Gweithdrefnau ar gyfer ymdrin ag apelau

6.1 Pa bwerau a gweithdrefnau fydd eu hangen ar y corff apeliadol i ymdrin ag apêl? Os bydd corff apeliadol sy'n bodoli eisoes yn ymdrin â'r apêl, a yw pwerau a gweithdrefnau'r corff hwnnw yn ddigonol neu a fydd angen eu diwygio i ddarparu ar gyfer yr hawliau newydd i apelio?

6.2 Pa bwerau i reoli achosion a ddylai fod gan y corff apeliadol?

6.3 A ddylid rhoi pwerau i'r corff apeliadol wneud gorchmynion interim cyn i'r apêl gael ei phenderfynu? Bydd natur unrhyw bwerau yn dibynnu ar destun yr apêl, ond gallent gynnwys materion megis ei gwneud yn ofynnol i wneud ymgymeriadau neu daliadau i mewn i'r llys neu wahardd camau a fyddai'n tanseilio'r gweithrediadau.

6.4 A ddylai fod gan apelydd y rhyddid i dynnu apêl yn ôl, neu a ddylai fod yn ofynnol cael cytundeb y corff apeliadol i wneud hynny?

6.5 A fydd unrhyw un heblaw'r apelydd a'r sawl a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol yn gallu cymryd rhan yn yr apêl? A fydd yn ofynnol i berson sy'n dymuno ymyrryd yn yr apêl gael caniatâd y corff apeliadol? Sut a phryd y dylid gwneus cais i ymyrryd?

6.6 Sut y dylid penderfynu ar apelau? A ddylai fod gwrandauiad gerbron y corff apeliadol ei hun neu drwy ddulliau rhithwir, neu a fydd y corff apeliadol yn gallu gwneud penderfyniadau ar sail sylwadau ysgrifenedig yn unig? A ddylai parti yn yr apêl fod yn gallu mynnu cael gwrandauiad?

6.7 Os bydd apêl yn cael ei phenderfynu mewn gwrandauiad, pwy ddylai fod yn gallu ymddangos yn y gwrandauiad? A gaiff partion benodi cynrychiolwyr cyfreithiol mewn gwrandauiadau? A ddylid caniatáu i arbenigwyr neu dystion eraill roi tystiolaeth?

6.8 Os bydd y corff apeliadol yn ystyried tystiolaeth, pa fathau o dystiolaeth y bydd angen iddo eu hystyried? A fydd angen iddo gael pwerau i'w gwneud yn ofynnol i dystion roi tystiolaeth neu gyflwyno gwybodaeth neu ddogfennau? A fydd yn rhaid rhoi tystiolaeth a roddir ar lafar ar lw (neu drwy gadarnhad)? A ddylai fod unrhyw gyfyngiadau ar y mathau o dyst neu dystiolaeth y gellir ei alw neu ei galw? A ddylai fod hawl gan dystion i gael lwfansau presenoldeb? A ddylai methiant i gydymffurfio â gofyniad i roi tystiolaeth fod yn drosedd? (Gweler y datrysiad deddfwriaethol sy'n ymwneud â **throseddau**.)

6.9 A ddylai gweithrediadau'r apêl gael eu cynnal yn gyhoeddus? A fydd angen pwerau ar y corff apeliadol i rannu gwybodaeth â phersonau penodol at ddibenion yr apêl? A fydd angen iddo ymdrin â thystiolaeth sensitif neu dystion sy'n agored i niwed? A oes angen pwerau arno i wahardd mynediad cyhoeddus i unrhyw rannau o'r dystiolaeth a gyflwynir iddo (e.e. ar seiliau sy'n ymwneud â diogelwch gwladol, sensitifrwydd masnachol neu ddiogelwch personol), neu i hwyluso pobl sy'n agored i niwed i roi tystiolaeth? A ddylai fod pwerau i roi gorchymyn na chaiff partion eu henwi, neu i gyfyngu ar roi sylw adrodd ar weithrediadau neu eu darlledu?

6.10 A oes angen darpariaeth ynglŷn â chyflwyno dogfennau a gyhoeddir gan y corff apeliadol ac a anfonir gan y partion (gan gynnwys cyflwyno dogfennau yn electronig)? Gweler y datrysiad deddfwriaethol sy'n ymwneud â **rhoi hysbysiad**.

6.11 Os bwriedir nodi'r weithdrefn ar gyfer ymdrin ag apelau mewn is-ddeddfwriaeth, pa fathau o ddarpariaeth y dylai fod modd eu gwneud ynglŷn â'r weithdrefn?

7. Effaith apêl yn yr arfaeth ar y penderfyniad gwreiddiol ac ar weithrediadau cyfreithiol eraill

7.1 Pa statws ddylai fod i'r penderfyniad gwreiddiol yn ystod y cyfnod lle y gellid cyflwyno apêl neu tra bydd apêl yn cael ei hystyried?

7.2 Ai dim ond ar ôl i'r cyfnod apelio ddod i ben heb i apêl gael ei chyflwyno, neu ar ôl i unrhyw apêl gael ei gwrthod neu ei thynnu'n ôl, y dylai'r penderfyniad gael effaith? Neu a ddylai fod modd i'r penderfyniad gael effaith er bod apêl yn yr arfaeth neu er y gellid cyflwyno apêl o hyd (ac yna barhau i gael effaith oni bai bod y corff apeliadol yn ei gwrthdroi neu ei diwygio)?

7.3 Os gall y penderfyniad gwreiddiol gael effaith er bod apêl yn yr arfaeth neu er y gellid cyflwyno apêl o hyd, a ddylai fod gan y corff apeliadol y pŵer i ohirio effaith y penderfyniad nes bod yr apêl wedi'i phenderfynu neu wedi'i thynnu'n ôl? A ddylai fod yn gallu gwneud hynny ar ei fenter ei hun neu dim ond ar gais yr apelydd?

7.4 Bydd angen ystyried y cwestiynau hyn yn ofalus iawn yn achos penderfyniad i ddiddymu trwydded neu osod gwaharddiad os mai canlyniad diddymu neu wahardd yw na all busnes barhau i weithredu.

7.5 A ddylai'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad fod yn gallu tynnu penderfyniad yn ôl neu ei ddiwygio tra bydd apêl yn mynd rhagddi? (Neu yn achos apêl yn erbyn methiant i wneud penderfyniad, a ddylai fod yn gallu gwneud penderfyniad am y tro cyntaf?) Pa effaith y dylai'r gallu i wneud hynny ei chael ar weithrediadau'r apêl?

7.6 Os gallai testun yr apêl fod yn berthnasol i fater sydd dan sylw mewn erlyniad troseddol neu weithrediadau cyfreithiol eraill, a oes angen darpariaeth i ymdrin â'r berthynas rhwng yr apêl a'r gweithrediadau eraill hynny? Er enghraifft, a ddylai fod yn ofynnol i lys troseddol ohirio gweithrediadau nes bod yr apêl wedi'i phenderfynu?

8. Pwerau corff apeliadol wrth benderfynu ar apêl

8.1 Pa bwerau y dylai fod gan y corff apeliadol pan fydd yn penderfynu ar yr apêl? Ai dim ond cadarnhau neu wrthod y penderfyniad gwreiddiol y dylai fod modd iddo allu ei wneud? A ddylai fod modd iddo hefyd amrywio'r penderfyniad gwreiddiol neu gywiro gwallau ynddo? A ddylai fod modd iddo ailgyfeirio'r mater at y sawl a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol am benderfyniad newydd? A ddylai fod ganddo'r pŵer i wneud ei benderfyniad ei hun yn lle'r penderfyniad gwreiddiol, ac os felly, a ddylai fod yn rhaid iddo ddilyn unrhyw ofynion neu weithdrefnau sy'n gymwys i'r penderfyniad gwreiddiol?

8.2 A ddylai fod unrhyw gyfyngiadau ar ba bryd y gall y corff apeliadol arfer pwerau penodol, neu ofynion arno i arfer y pwerau hynny o dan amgylchiadau penodol? Er enghraifft, efallai y bydd ganddo'r pŵer i wrthod y penderfyniad gwreiddiol dim ond os yw wedi'i fodloni bod gwall cyfreithiol neu ffeithiol wedi codi, neu efallai y bydd yn ofynnol gwrthod y penderfyniad os yw wedi'i fodloni bod gwall o'r fath wedi codi.

8.3 Ai dim ond drwy gyfeirio at yr amgylchiadau ar y pryd pan wnaed y penderfyniad gwreiddiol y dylai'r corff apeliadol benderfynu ar yr apêl, neu a ddylai fod modd iddo ystyried newid yn yr amgylchiadau?

8.4 A ddylai fod gan y corff apeliadol bwerau ychwanegol i weithredu penderfyniad o blaid apelydd? A ddylai fod ganddo'r pŵer i orchymyn i'r sawl a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol neu unrhyw un arall gymryd camau o unrhyw fath? Os na chafodd effaith y penderfyniad gwreiddiol ei gohirio tra bod yr apêl yn cael ei phenderfynu, a ddylai'r corff apeliadol fod yn gallu digolledu person sydd wedi cael colled o ganlyniad i'r penderfyniad gwreiddiol? Os felly, a ddylai digollediad ddwyn llog?

- 8.5 A ddylai'r corff apeliadol fod yn gallu dyfarnu costau i barti sy'n cyflwyno neu'n amddiffyn apêl? A ddylai unrhyw hawl i gael costau ddibynnu ar ymddygiad afresymol y parti arall? Mae'n bosibl y bydd gan gorff apeliadol sy'n bodoli eisoes bwerau i ddyfarnu costau.
- 8.6 A ddylai fod yn ofynnol i'r corff apeliadol gyhoeddi neu gofnodi'r canlyniad mewn ffordd benodol?
- 8.7 Os cyflwynir yr apêl i lys neu driwntlys sy'n bodoli eisoes, efallai y bydd y ddeddfwriaeth a'i sefydlodd eisoes yn ymdrin â rhai o'r cwestiynau hyn. A phan fo darpariaeth ar gyfer apêl i lys o dan ddeddfwriaeth benodol yng Ngogledd Iwerddon, mae adran 22 o Ddeddf Dehongli (Gogledd Iwerddon) 1954 yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynglŷn â phwerau'r llys wrth ymdrin â'r apêl (gan gynnwys pwerau i ailgyfeirio achosion a dyfarnu costau).

9. Apelau pellach

- 9.1 A ddylai fod modd cyflwyno apêl bellach yn erbyn penderfyniad y corff apeliadol neu a ddylai ei benderfyniad fod yn derfynol?
- 9.2 Os oes unrhyw hawl bellach i apelio, i bwy y caiff yr apelau pellach eu cyflwyno?
- 9.3 Ar ba seiliau y bydd apêl bellach ar gael? Fel arfer, mae'r seiliau posibl dros gyflwyno ail apêl yn gulach na seiliau'r apêl wreiddiol, ac yn aml maent wedi'u cyfyngu i bwyntiau cyfreithiol (yn hytrach na chanfyddiadau ffeithiol neu arfer disgrisiwn).
- 9.4 Mae'n bosibl bod yr atebion i'r cwestiynau hyn wedi'u rheoli gan y penderfyniad ynghylch pwy sy'n ymdrin â'r apêl wreiddiol; er enghraifft, os cyflwynir yr apêl wreiddiol i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf, y sefyllfa arferol yw y bydd apêl bellach yn cael ei chyflwyno i'r Uwch Dribiwnlys ar bwynt cyfreithiol.
- 9.5 Mae'r ystyriaethau yn adrannau 5 i 8 hefyd yn berthnasol i ail apelau (ond efallai y bydd rheolau llys neu driwntlys sy'n bodoli eisoes yn ymdrin â rhai neu bob un o'r materion hynny).

10. Effaith apelau ar arfer pwerau yn y dyfodol

- 10.1 A ddylai'r ffaith bod apêl yn erbyn penderfyniad wedi bod yn llwyddiannus atal penderfyniad tebyg arall rhag cael ei wneud mewn perthynas â'r un amgylchiadau? Gall hyn fod yn berthnasol iawn i gamau gorfodi a gorchmynion sy'n gosod gofynion neu waharddiadau. Gall absenoldeb cyfyngiadau ar ymgeisiadau dro ar ôl tro i osod yr un mesurau godi materion o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Engbreiffiau o'r datrysiad deddfwriaethol

Darpariaethau sy'n rhoi'r hawl i apelio

Y DU

- *Deddf Rheoli Traffig Awyr ac Awyrennau Di-griw 2021* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2021/12/contents), Atodlen 1 a Rhan 2 o Atodlen 2
- *Deddf Cam-drin Hanesyddol (Gogledd Iwerddon) 2019* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2019/31/contents), adran 16
- *Deddf Diogelu Data 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2018/12/contents), adrannau 162-164, Atodlen 5
- *Deddf y Diwydiant Gofod 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2018/5/contents), Atodlen 10, Rhannau 2-5
- *Deddf Ynni 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2016/20/contents), adrannau 26, 36, 50-52, 58

Yr Alban

- *Deddf Gwneud Iawn i Oroeswyr (Achosion Hanesyddol o Gam-drin Plant mewn Gofal) (Yr Alban) 2021* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2021/15/contents), adran 54 (adolygu penderfyniadau ynghylch taliadau gwneud iawn)
- *Deddf Nawdd Cymdeithasol (Yr Alban) 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2018/9/contents), adran 46 (apelio yn erbyn penderfyniad Gweinidogion yr Alban am hawliad)
- *Deddf Tai Preifat (Tenantiaethau) (Yr Alban) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2016/19/contents), adran 28 (apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf)

Cymru

- *Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2018/2/contents/enacted/welsh), Rhan 2, Pennod 4
- *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/2/contents/enacted/welsh), adran 81 ac Atodlen 3, paragraffau 18-20
- *Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/contents/enacted/welsh), Rhan 8
- *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/4/contents/enacted/welsh), adran 73
- *Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/2/contents/enacted/welsh), adrannau 24, 26, 101-104, 145, 158
- *Deddf Cymwysterau Cymru 2015* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/5/contents/enacted/welsh), adrannau 39, 42

Gogledd Iwerddon

- *Deddf Tai Amlfeddiannaeth (Gogledd Iwerddon) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2016/22/contents), adrannau 67 i 69
- *Deddf Galluedd Meddyliol (Gogledd Iwerddon) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2016/18/contents), adrannau 246 i 248
- *Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (Gogledd Iwerddon) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2016/8/contents), adrannau 8 i 10, 13 a 14
- *Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Gogledd Iwerddon) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2016/3/contents), adran 3
- *Deddf Llywodraeth Leol (Gogledd Iwerddon) 2014* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2014/8/contents), adran 60
- *Deddf Cynllunio (Gogledd Iwerddon) 2011* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2011/25/contents), adrannau 58 i 60, 78, 115, 143 i 145, 159, 165 a 173

Darpariaethau sy'n sefydlu tribiwnlysoedd neu gyrff apeliadol eraill

Y DU

- *Deddf Diogelu Data 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2018/12/contents), Atodlen 5, paragraff 4 (paneli apelau achredu)
- *Deddf y Diwydiant Gofod 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2018/5/contents), Atodlen 10, Rhan 1 (paneli apelau teithiau i'r gofod)
- *Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2007/15/contents), Rhan 1 (Tribiwnlys Haen Gyntaf ac Uwch Dribiwnlys)
- *Deddf Menter 2002* (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2002/40/contents), adran 12 ac Atodlen 2 (Tribiwnlys Apelau Cystadleuaeth)

Yr Alban

- *Deddf Tribiwnlysoedd (Yr Alban) 2014* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2014/10/contents), Rhan 1 (Tribiwnlysoedd yr Alban)
- *Deddf Iechyd Meddwl (Gofal a Thriniaeth) (Yr Alban) 2003* (www.legislation.gov.uk/cy/asp/2003/13/contents), adran 21 ac Atodlen 2 (Tribiwnlys Iechyd Meddwl yr Alban)

Cymru

- *Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2018/2/contents/enacted/welsh), Rhan 3 (Tribiwnlys Addysg Cymru)
- *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011* (www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/1/contents/enacted/welsh), Rhan 7 (Tribiwnlys y Gymraeg)

Gogledd Iwerddon

- *Deddf Cynllunio (Gogledd Iwerddon) 2011* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2011/25/contents), Rhan 9 (Comisiwn Apelau Cynllunio)
- *Deddf Elusennau (Gogledd Iwerddon) 2008* (www.legislation.gov.uk/cy/nia/2008/12/contents), Rhan 3 (Tribiwnlys Elusennau Gogledd Iwerddon)
- *Gorchymyn Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (Gogledd Iwerddon) 2005* (www.legislation.gov.uk/cy/nisi/2005/1117/contents), Erthyglau 21 i 24 (Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd Gogledd Iwerddon)
- *Gorchymyn Rheoli Traffig (Gogledd Iwerddon) 2005* (www.legislation.gov.uk/cy/nisi/2005/1964/contents), Erthyglau 29 i 31 (dyfarnwyr traffig)

Darpariaethau ynglŷn â chynnal apelau

Y DU

- *Rheoliadau'r Diwydiant Gofod (Apelau) 2021* (www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2021/816/contents/made)
- *Rheoliadau Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn (Tribiwnlysoedd Ymddygiad, Perfformiad ac Apelau 2020* (www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2020/1087/contents/made), Atodlen 5
- *Rheoliadau Apelau i Gomisiynwyr Traffig (Gweithdrefn) (Lloegr) 2019* (www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2019/1264/contents/made)
- Mae'r Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys yn cynnwys nifer o Siambrau yr un, gyda rheolau gweithdrefnol gwahanol ar gyfer gweithrediadau mewn Siambrau gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - *Rheolau Gweithdrefn Tribiwnlys (Tribiwnlys Haen Gyntaf) (Siambr Eiddo) 2013* (www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2013/1169/contents)
 - *Rheolau Gweithdrefn Tribiwnlys (Tribiwnlys Haen Gyntaf) (Siambr Reoleiddio Gyffredinol) 2009* (www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2009/1976/made)
 - *Rheolau Gweithdrefn Tribiwnlys (Tribiwnlys Haen Gyntaf) (Siambr Dreth) 2009* (www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2009/273/made)
 - *Rheolau Gweithdrefn Tribiwnlys (Uwch Dribiwnlys) (Siambr Diroedd) 2010* (www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2010/2600/made)
 - *Rheolau Gweithdrefn Tribiwnlys (Uwch Dribiwnlys) 2008* (www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2008/2698/contents/made)

Cyhoeddir fersiynau cyfredol o reolau gweithdrefnol y Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys yn www.gov.uk

Yr Alban

- *Rheoliadau Pwyllgor Apelau Prisio (Gweithdrefn mewn Apelau Cosb Sifil) (Yr Alban) 2020* (www.legislation.gov.uk/cy/ssi/2020/382/contents/made)
- *Rheoliadau Cais i Drosoglwyddo Asedau (Apelau) (Yr Alban) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/ssi/2016/359/contents/made)
- Mae Tribiwnlys Haen Gyntaf yr Alban yn cynnwys nifer o Siambrau, gyda rheolau gweithdrefnol gwahanol ar gyfer gweithrediadau mewn Siambrau gwahanol, ac mae gan Uwch Dribiwnlys yr Alban reolau gwahanol ar gyfer mathau gwahanol o apelau hefyd. Mae'r offerynnau lle y ceir y rheolau yn cynnwys:
 - *Rheoliadau Siambr Nawdd Cymdeithasol Tribiwnlys Haen Gyntaf yr Alban (Gweithdrefn) 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/ssi/2018/273/contents)
 - *Rheoliadau Siambr Tai ac Eiddo Tribiwnlys Haen Gyntaf yr Alban (Gweithdrefn) 2017* (www.legislation.gov.uk/cy/ssi/2017/328/contents)
 - *Rheoliadau Siambr Iechyd ac Addysg Tribiwnlys Haen Gyntaf yr Alban (Gweithdrefn) 2017* (www.legislation.gov.uk/cy/ssi/2017/366/contents/made)
 - *Rheoliadau Uwch Dribiwnlys yr Alban (Rheolau Gweithdrefnol Nawdd Cymdeithasol) 2018* (www.legislation.gov.uk/cy/ssi/2018/274/contents/made)
 - *Rheoliadau Uwch Dribiwnlys yr Alban (Rheolau Gweithdrefnol) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/ssi/2016/232/contents/made)

Cymru

- *Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021* (www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2021/406/contents/made/welsh)
- *Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apelau) (Cymru) 2017* (www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/544/made/welsh)
- *Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2016* (www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2016/1110/contents/made/welsh)
- *Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015* (www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/1028/contents/made/welsh)

Gogledd Iwerddon

- *Rheolau Bwrdd Gwneud lawn am Gam-drin Sefydliadol Hanesyddol (Ceisiadau ac Apelau) (Gogledd Iwerddon) 2020* (www.legislation.gov.uk/cy/nisr/2020/50/contents/made)
- *Rheolau Tribiwnlys Elusennau (Gogledd Iwerddon)* (www.legislation.gov.uk/cy/nisr/2010/77/contents/made)
- *Rheoliadau Rheoli Traffig (Gweithrediadau gerbron Dyfarnwyr) (Gogledd Iwerddon) 2006* (www.legislation.gov.uk/cy/nisr/2006/421/contents/made)
- *Mae Gorchymyn Dadreoleiddio (Darpariaethau Apelio Enghreifftiol) (Gogledd Iwerddon) 1997* (www.legislation.gov.uk/cy/nisr/1997/269/contents/made) yn nodi darpariaethau enghreifftiol ar gyfer apelau yn erbyn camau gorfodi. Mae rhai enghreifftiau o is-ddeddfwriaeth Gogledd Iwerddon sy'n rhoi hawl i apelio yn cymhwyso'r rheolau hynny – e.e. *Rheoliadau Organebau a Addaswyd yn Enetig (Defnydd Cyfyngedig) (Gogledd Iwerddon) 2015* (www.legislation.gov.uk/cy/nisr/2015/339/contents/made), rheoliad 31.